


Gwerddon 100




Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones



Gwerddon 100



Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg
Golygydd: Dr Anwen Jones

Bwrdd Golygyddol

Golygydd:	Dr Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth
Is-Olygydd:	Dr Hywel M. Griffiths, Prifysgol Aberystwyth
Cynorthwyywyr Golygyddol:	Mari Fflur, Dr Angharad Watkins a Dr Catrin Heledd Richards
Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol:	Yr Athro Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth
Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:	Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru Yr Athro David Evans, Prifysgol Caerdydd Dr Noel A. Davies Dr Gwennan Higham, Prifysgol Abertawe Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor Dr Sioned Vaughan Hughes, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Yr Athro Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd Yr Athro Carwyn Jones, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth Yr Athro R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe Gwerfyl Roberts, Prifysgol Bangor Wyn Thomas, Prifysgol Bangor Yr Athro Ioan M. Williams Dr Eryn White, Prifysgol Aberystwyth

E-gyfnodolyn academiaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*. Y mae'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.cymru

Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.cymru neu drwy'r post: Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ. ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.cymru

Cynnwys

Golygyddol	5
Aled Gruffydd Jones, ‘ <i>Gwerddon</i> : gwyrddlasu anialdir? Rhaid sylwadau ar hanes e-gyfnodolyn academiaidd Cymraeg’	6
Gareth Evans-Jones, “‘Does dim gwadu ar Etifeddiaeth’: Astudiaeth o’r modd yr ymdrinnir ag etifeddiaeth yn <i>Ac Eto Nid Myfi</i> a detholiad o straeon byrion John Gwilym Jones’	21
Lowri Cunningham Wynn, “‘Beth yw’r ots gennyf i am Gymru?’: Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o’r bröydd Cymraeg’	43
David Willis, ‘Datblygiad cystrawen y rhifolion yn y Gymraeg’	64
Cyfranwyr	88

Golygyddol

Dr Anwen Jones

Ym mis Ebrill, 2007, cyhoeddwyd rhifyn gyntaf *Gwerddon*, yr e-gyfnodolyn trawsddisgyblaethol cyfrwng Cymraeg cyntaf o'i fath. Bryd hynny, roedd yn fenter arloesol, ac yn ei ragair i'r rhifyn agoriadol, cyfeiriodd yr Athro Ioan Williams, golygydd cyntaf *Gwerddon*, at egino'r syniad gwreiddiol:

Codwyd y syniad am gyfnodolyn electronig gogyfer â chyhoeddiadau academiaidd yn y Gymraeg yn ystod trafodaethau'r Bwrdd Dysgu Drwy'r Gymraeg rai blynyddoedd yn ôl bellach. Y ddadl oedd bod angen dybryd am gyfnodolyn lle gellid cynnal trafodaeth academiaidd yn y Gymraeg, a hynny ar draws yr holl feysydd sydd wedi eu cynnwys yn y cyfadrannau traddodiadol.¹

Gwyddom bellach i'r fenter lwyddo y tu hwnt i bob disgwyl. Yn 2017, dathlodd *Gwerddon* ei phen-blwydd yn ddeng mlwydd oed, a lansiwyd ei rhifyn rhithiol cyntaf a oedd yn canolbwyntio ar gerddoriaeth. Mae 'Ffrwd' a 'Gwerddon Fach' bellach wedi eu sefydlu yng nghysgod eu mam-gyfnodolyn, *Gwerddon*, ac nid oes amheuaeth nad yw disgwrs ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg bellach wedi hawlio tiriogaeth gadarn a sylweddol yn y meddwl cyfoes yng Nghymru a thu hwnt.

A dweud y gwir, does fawr am *Gwerddon* sy'n draddodiadol bellach. Yn y rhifyn diweddaraf, cyhoeddwyd erthygl gan Dafydd Sills-Jones yn ymdrin ag ymarfer fel ymchwil gan ddefnyddio arddull a methodoleg arbrofol sy'n gydnaws ag arloesedd y cyfryw faes. Mae rhychwant pynciol y cyfnodolyn yn dystiolaeth o ehangder yr awydd i gyhoeddi a rhannu gwaith ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ymysg ysgolheigion yng Nghymru, ac mae *Gwerddon* yn ymfalchïo iddi gyhoeddi cyfraniadau mewn meysydd megis Mathemateg, Meddygaeth a Ffiseg yr Haul.

Daeth 2019 ag achos dathlu eto wrth i *Gwerddon* gyrraedd carreg filltir arall wrth gyhoeddi'r ganfed erthygl. Mae'n bleser o'r mwyaf gan y bwrdd golygyddol dderbyn cyfraniad gan yr Athro Aled Gruffydd Jones er mwyn dathlu'r achlysur. Mae Aled yn un a fu ynghlwm wrth y fenter o'r cyfnod cynnar ac mae ei erthygl yn croniclo hanes y cyfnodolyn i ddarllenwyr hen a newydd, gan bwysu a mesur hyd a lled y fenter a'i llwyddiant yng nghyd-destun datblygiad meddwl deallusol y Gymru fodern. Ceir yma gyfraniadau eraill gafaelgar a thra phwysig ym meysydd llenyddiaeth, astudiaethau cymdeithasol ac ieithyddiaeth gan Gareth Evans-Jones, Lowri Cunningham Wynn a David Willis. Mwynhewch y darllen fel arfer ac awn ymlaen yn hyderus at y ganfed nesaf!

¹ Williams, Ioan (2007), 'Golygyddol', *Gwerddon: Cyfnodolyn Academiaidd Cymraeg*, cyfrol 1 (1), Ebrill, 5.

Gwerddon: gwyrddlasu anialdir? Rhaid sylwadau ar hanes e-gyfnodolyn academaidd Cymraeg

Aled Gruffydd Jones

Cyflwynwyd: 28 Ionawr 2019; Derbyniwyd: 22 Chwefror 2019

Crynodeb: Ar achlysur ei ddeuddegfed pen-blwydd a'i ganfed erthygl, olrhainir yn yr erthygl hon hanes *Gwerddon* fel e-gyfnodolyn academaidd ac fel datblygiad cyffrous yn natblygiad diweddar yr uwchfrydiau yn y Gymraeg. Er iddo ymddangos am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2007, taera'r awdur fod ei wreiddiau'n gorwedd yn ddwfn yn hanes defnydd y Gymraeg ledled y disgyblaethau academaidd yn ein sefydliadau Addysg Uwch yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, yn y Gwyddorau yn ogystal â'r Celfyddydau a'r Dyniaethau. Daeth y gweithgareddau hyn i ffocws penodol yn negawd cyntaf y mileniwm newydd, yn gyntaf oherwydd rheolau newydd yr asesiadau ymchwil, ac yn ail yn sgil y trafodaethau brwd a fu o blaid y coleg ffederal, ac yn dilyn hynny sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC). Gwelir ynddo hefyd sut y cyfrannodd *Gwerddon* at ddatblygiad presenoldeb y Gymraeg ar rwydwaith rhithiol y we. Yn olaf, awgrymir bod ei ddyfodol yn gyd-ddibynnol ar ffyniant y CCC a pharhad y Gymraeg fel iaith ymchwil yn ein prifysgolion, a hynny ar adeg gynyddol ansicr.

Allweddeiriau: *Gwerddon*, ymchwil, e-gyfnodolion, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Ioan Williams.

Gwerddon: Greening a desert? Some comments on the history of a Welsh-language e-periodical

Abstract: The article considers the history of *Gwerddon*, a multi-disciplinary research e-journal launched in April 2007, which has to date (January 2019) published more than one hundred original articles. Its origins lie in the growth of Welsh-language teaching in Welsh universities in the 1970s and 1980s, the campaign to establish a Welsh-language federal college at a time when the federal University of Wales was in crisis, and the urgent need for Welsh-language scholarship to be equally represented in the research assessment exercises of the RAE/REF. The study considers the journal's impact factors and its role in the development of a Welsh presence on the burgeoning web of the early twenty-first century, and argues that its continuation rests both on Welsh Government educational policy in general, and the financial resilience of the Higher Education sector at a time of severe challenges.

Key words: *Gwerddon*, research, e-periodicals, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Ioan Williams.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

ISSN: 1741-4261

<http://gwerddon.cymru>

Gyda'r rhifyn hwn bydd *Gwerddon* yn dathlu ei ddeuddegfed pen-blwydd, ac yn camu heibio carreg filltir tra arwyddocaol, sef ei ganfed erthygl. Wrth reswm, mae ganddo dipyn o ffordd i fynd cyn cyrraedd gorchestion cyfnodolyn fel *Y Traethodydd*, a fu'n dyfrio'r gymdeithas sifil Gymraeg gydag erthyglau miniog ar lenyddiaeth, gwleidyddiaeth, diwinyddiaeth ac ystod eithaf eang o'r Gwyddorau o 1845 hyd at heddiw. Cyhoeddiad chwarterol yw hwnnw, yn seiliedig yn wreiddiol – yn ôl ei ddiwyg a'i gynnwys – ar yr *Edinburgh Review* (1802–1929). Blodeuodd *Y Traethodydd* yn ei ogoniant eclectic yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn bennaf oherwydd ei berthynas organig ag enwad y Methodistiaid Calfinaidd. Y corff pwerau a lled-genedlaethol, yn wir rhyngwladol, hwnnw gynhaliodd y fenter yn ariannol, gan ddarparu hefyd amryw o'i phrif gyfranwyr yn ogystal â'i chynulleidfa fwyaf pybyr. Mae *Gwerddon*, mewn sawl ystyr, yn anifail tra gwahanol. Nid oedd model cyfoes amlwg ar gael iddo ei efelychu, yn sicr nid yn y bydysawd digidol a ddaeth i'r amlwg yn y 1990au, ac yn yr ystyr hwnnw bu ei flynyddoedd cynnar yn rhai o fethiannau lu a buddugoliaethau prin, ond pwysig, o arbrofi ac o arloesi. Ond ar y llaw arall, deilliai ei gryfder a'i hydwythder o'i gyswllt, cwbl organaidd unwaith yn rhagor, â sefydliad sydd hefyd â gwreiddiau dyfnion yn ein cymdeithas, sef Addysg Uwch. Dichon fod angen mwy o bersectif amser, a doethineb, i ddehongli hynt yr e-gyfnodolyn arloesol hwn. Mae'r hanes mor ddiweddar, ac mor fyw yn y cof. Ar y llaw arall, gellir taeru bod hwn yn gyfnod amserol i ddechrau olrhain yr hanes hwnnw, nid yn unig i roi cynnig cynnar ar werthuso ei gyfraniad at ddysg cyfoes, ond hefyd er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth am ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn yr oes ddigidol, datblygiad sydd yn parhau i gyffroi'r dyfroedd yn y Gymru ddatganoledig, ac sydd, ar yr un pryd, yn gyson â thueddiadau technoleg gwybodaeth a dulliau newydd o fynegi a derbyn gwybodaeth, a hynny ar raddfa fydol. Y mae'r hanes hwn hefyd yn codi sawl cwestiwn am gyfeiriad Addysg Uwch yn gyffredinol mewn oes o lymder ariannol, ac yn benodol am lwybrau ymchwil a dulliau cyhoeddi'r uwchfrydiau yn y Gymraeg.

Gwreiddiau *Gwerddon*

Gellir olrhain gwreiddiau *Gwerddon* i'r anghenion newydd a ddeilliodd o'r cyfnod o ffyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion a'n prifysgolion yn y 1960au a'r 1970au. Gellir nodi pum datblygiad yn bennaf a arweiniodd at ei enedigaeth. Yn gyntaf, yn y blynyddoedd hyn ymledodd defnydd y Gymraeg y tu hwnt i'r iaith fel pwnc gradd i gynnwys disgyblaethau eraill, yn aml yn wyneb peth gwrthwynebiad a dirmyg. Graddiodd y fyfyrwraig gyntaf i sefyll ei harholiadau yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg mewn pwnc heblaw am y Gymraeg, a hynny ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1977 mewn Hanes a Hanes Cymru. Tua'r un amser, bu buddsoddiad gan gorff ariannu'r Llywodraeth, Pwyllgor Grantiau'r Prifysgolion (UGC, 1919–89) bryd hynny, mewn swyddi darlithyddiaethau 'gwaed newydd' gyda'r diben o wreiddio'r Gymraeg mewn pynciau ehangach, yn arbennig mewn meysydd lle y bu llai o draddodiad addysgu drwy gyfrwng yr iaith.

Yn ail, trwy ddatblygu darpariaeth y tu hwnt i bwnc y Gymraeg, agorodd cyfleoedd newydd i fyfyrwyr, a oedd yn aml wedi derbyn eu haddysg gynradd ac uwchradd o leiaf yn

rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, i ddilyn amryw o bynciau gradd eraill ar draws ystod eang y maes llafur. Yn ei dro, arweiniodd hyn at gynnydd yn y galw am ddeunydd dysgu o safon ymchwil, ac am fathu neu gysoni termau arbenigol,¹ a hynny mewn amryw o bynciau gradd yn y Celfyddydau, y Dyniaethau, y Gwyddorau Cymdeithasol ac, yn gynyddol, yn y Gwyddorau eu hunain. Yn ei dro, clymodd yr amryfal ymdrechion hyn y sawl a fu'n tyfu'r ddarpariaeth ledled Cymru yn dynnach at ei gilydd, er gwaethaf y tyndra cynyddol o fewn Prifysgol Cymru a arweiniodd at ei chwymp fel sefydliad ffederal yn 2007.

Ar yr un pryd, ac yn rhannol o ganlyniad i'r cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg dros y tri degawd blaenorol, tyfodd y galw am Goleg Ffederal Cymraeg. Nid hwn yw'r man priodol i adrodd hanes yr ymgyrch hir a throellog honno, gan fod angen ymdriniaeth hanesyddol llawer mwy trwyadl â hi. Serch hynny, gan i'r ymgyrch roi cyd-destun mor amlwg i syniadaeth gychwynnol *Gwerddon*, byddai'n briodol nodi yma rai o'r uchafbwyntiau, neu o leiaf yr amserlen. Lleisiodd Llys Prifysgol Cymru, ar alwad Gwynfor Evans, cyn belled yn ôl â 1951 ei gymeradwyaeth i'r syniad o 'Goleg Cymraeg', fel y gwnaeth Urdd Myfyrwyr Cymru eto ar ddiwedd y 1970au. Ond dim ond ar ôl i Dafydd Glyn Jones gyflwyno papur ar 'Y Gymraeg 16+' ym mis Ionawr 1998 y canolbwyntiwyd yn llawn ar y syniad o goleg ffederal.² Flwyddyn yn ddiweddarach, ar 29 Ionawr 1999, gwrthododd Bwrdd y Brifysgol yr awgrym, a chychwynnwyd o'r newydd y frwydr dros addysg Gymraeg, yn rhannol fel ymateb i wendid cynyddol undod Prifysgol Cymru ei hun.

Yna, mewn rali ar faes Eisteddfod Genedlaethol Meifod yn 2003 a drefnwyd gan Catrin Dafydd, cyflwynodd Dafydd Glyn Jones, ymhlith eraill, weledigaeth am goleg ffederal a fyddai'n cychwyn gan ddenu hyd at 200 o staff Cymraeg i ddysgu to newydd o fyfyrwyr ledled y sefydliadau Addysg Uwch.³ Yna, wedi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) ymuno â'r drafodaeth, sefydlwyd Grŵp Llywio ym mis Hydref 2003 dan gadeiryddiaeth Andrew Green, y Llyfrgellydd Cenedlaethol.⁴ Ymhlith cynigion cychwynnol y Grŵp Llywio yn 2004 yr oedd cynllun i noddi nifer o fyfyrwyr doethurol mewn ymdrech i greu cenhedlaeth newydd o ymchwilwyr ifainc cyfrwng Cymraeg a'r to nesaf o ddarlithwyr. Yn sgil hyn, dyfarnwyd £2,932,455 i Brifysgol Cymru er mwyn noddi deg ar hugain o ysgoloriaethau ymchwil cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf. Cyflwynwyd hefyd adroddiad i'r Gweinidog Addysg ar 29 Hydref 2004, ac adroddiad llawn ar 8 Chwefror 2005, a arweiniodd at gais i'r Cyngor Cyllido lunio Strategaeth Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch.

¹ Gweler e.e. Davies, John (1976), *Termau Gwleidyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd Prifysgol Cymru). Bellach ceir 'Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol' ar wefan y CCC. Carwn ddiolch yn arbennig i Ioan Matthews a Mari Elin Jones am eu sylwadau gwerthfawr iawn ar gynnwys yr erthygl hon, ynghyd â chymorth caredig Ioan Williams, Anwen Jones, Hefin Jones, Eleri Pryse, Dylan Phillips, Ioan Matthews, Dafydd Tudur, a Mari Fflur.

² Jones, Dafydd Glyn (2003), *Problem Prifysgol a phapurau eraill* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

³ <http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3130000/newsid_3136500/3136577.stm> [Cyrchwyd: 24 Rhagfyr 2018].

⁴ <https://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2003/W0350HE%20Cymraeg.PDF> [Cyrchwyd: 27 Rhagfyr 2018].

O 2005 ymlaen, tyfodd y pwysau cyhoeddus o gwr y myfyrwyr, y staff ac elfennau o'r cyhoedd yn sylweddol, gydag arweinyddiaeth ysbrydoledig Swyddog Ymgyrchu Coleg Cymraeg, Cymdeithas yr Iaith, Rhys Llwyd.⁵ Gwelwyd protestiadau, er enghraifft, yn Aberystwyth ar 7 Mai 2004, y seithfed o'i bath, gwrthdystiadau a fyddai'n dwysáu hyd at o leiaf 2007 yn dilyn penderfyniad Grŵp Llywio CCAUC i dderbyn argymhelliad Arad ym mis Gorffennaf 2006 i wrthod y syniad o 'goleg ffederal'. Yn dilyn Etholiad 2007, sefydlwyd Llywodraeth Cymru'n Un gyda sefydlu 'coleg ffederal' ymysg yr ymrwymadau polisi. Y flwyddyn ganlynol, gwahoddwyd Robin Williams i gadeirio Bwrdd Cynllunio, a chanlyniad hynny oedd cyflwyno cynigion penodol yn 2009 ar gyfer sefydlu Coleg Cymraeg. Derbyniwyd y cynllun gan y Llywodraeth a daeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) i fodolaeth ar 30 Mawrth 2011, gyda R. Merfyn Jones yn gadeirydd cyntaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

O'r trafod byrlymus a'r ymgyrchu ffraeth hwn, oddi mewn a thu hwnt i'r sefydliadau Addysg Uwch Cymreig, yr eginodd y syniad a'r galw am yr hyn a ymddangosodd maes o law fel cyfnodolyn *Gwerddon*. Ac er iddo ymddangos bedair blynedd bron i'r diwrnod cyn cychwyn y CCC, gwreiddiodd y ddau yn yr un tir a bu'r ddau yn ymatebion i'r un datblygiadau ym myd addysg a'r gymdeithas sifil, yn arbennig felly yr un ysfa i wrthsefyll sgil effeithiau mwyaf negyddol datgymalu strwythur ffederal Prifysgol Cymru. Yn hynny o beth, mae'n werth ystyried hanes *Gwerddon* nid yn unig fel cylchgrawn academiaidd ond hefyd fel modd i academyddion Cymraeg eu hiaith weithredu ar y cyd â'i gilydd, a hynny mewn amgylchfyd a oedd yn gynyddol gystadleuol a llawn tyndra, naill ai ar y llwyfan cenedlaethol Cymreig neu ledled gwledydd Prydain.

Y bedwaredd ystyriaeth, un â chwmpas traws-Brydeinig, ac un a oedd yn pwysu'n gynyddol drymach ar ymron pob disgyblaeth yn sefydliadau Addysg Uwch y wlad, oedd yr Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY/RAE). Cynhaliwyd yr asesiadau hyn bob pum mlynedd, fwy neu lai, o 1986 ymlaen, nes iddynt gael eu disodli gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FFRhY/REF) yn 2008. Eu diben oedd mesur gwerth, ar sail paneli adolygiad cymheiriaid, yr ymchwil cyhoeddedig gan staff academiaidd cytundebol ym mhob sefydliad, a'i raddio, yn y blynyddoedd cynnar, o un i bump, ac yna hyd at bedair seren. Arweiniodd hyn at ddau fath o anhawster. Un oedd fod y graddio'n arwain yn uniongyrchol at ddosraniad yr arian a dalwyd i'r adrannau academiaidd fel rhan o drefn ariannu'r prifysgolion, a hynny'n flynyddol dros yr holl gyfnod rhwng yr asesiadau. Yr ail oedd sut y byddai ymchwil a gyhoeddwyd yn y Gymraeg yn gweddu i'r drefn asesu newydd. Yn wir, a fyddai lle i'r Gymraeg o gwbl mewn rhai, neu yn wir y rhelyw, o baneli'r asesiadau hyn, gan mai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) oedd yn arwain yr asesiadau, a hwy hefyd oedd yn atebol i Drysorlys a Llywodraeth Prydain am eu hymarweddiad a'u canlyniadau.

⁵ 'Coleg Ffederal Cymraeg – Galw ar y Llywodraeth i gadw addewid', 27 Tachwedd 2007, <<https://cymdeithas.cymru/newyddion/coleg-ffederal-cymraeg-galw-ar-y-llywodraeth-i-gadw-addewid>> [Cyrchwyd: 27 Rhagfyr 2018]. Gweler hefyd y cyfeiriad at gyflwyniad CIG i ymgynghoriad Arad, 'Y Gwyl Olaf', <<https://m.youtube.com/watch?v=BQnAkCspTPQ>> [Cyrchwyd: 27 Rhagfyr 2018].

Er i sawl panel pwnc a oedd yn ymarfer YAY 2008 ddatgan ers 2005–6 y byddai modd cynnwys ysgrifau mewn unrhyw iaith ac ar unrhyw ffurf,⁶ nid oedd y rhyddid hwnnw mor glir yn y canllawiau blaenorol, gyda'u cyngor generig a hynod aneglur ar natur ac ystyr 'cyhoeddiad' ar draws cynifer o feysydd ymchwil gwahanol iawn i'w gilydd.⁷ Ar ben hynny, hyd yn oed lle'r oedd y canllawiau eu hunain yn glir parthed statws hafal y Gymraeg, daeth tystiolaeth i'r amlwg fod y sefydliadau Addysg Uwch eu hunain yn pryderu na fyddai gwaith ymchwil a gyhoeddwyd yn y Gymraeg neu ar ffurf electronig yn dwyn yr un sylw a chlod â'r un gwaith yn y Saesneg, mewn print caled, a hynny mewn cylchgronau cydnabyddedig. Ofnont y byddai goblygiadau ariannol sylweddol iawn pe byddent yn cynnwys deunydd Cymraeg ac ar-lein.⁸ Dwysaodd yr anhawster canfyddol hwn maes o law gydag ymddangosiad yng nghanllawiau canolog HEFCE yn 2008 ar gyfer REF 2014 y byddai categori ychwanegol 'ergyd' yn rhan o'r canlyniad, a hynny hyd at 20% o'r radd achrededig a wobrwyrwyd i bob uned. Amrywiodd ystyr 'ergyd' o banel i banel, ac yn wir prin y bu unrhyw gytundeb rhyngddynt ynghylch sut y byddent yn mesur elfen mor amwys ac ansoddol, ond yn fras y bwriad oedd ceisio mesur gwerth buddsoddiad y Trysorlys i Addysg Uwch yn nhermau'r effaith y cafodd ar wella cymdeithas yn gyffredinol, neu ar wella cymunedau neilltuol o fewn iddi. Unwaith yn rhagor, cododd y cwestiwn o sut y gall gwaith ymchwil a gyhoeddwyd mewn iaith leiafrifol ym maes Cyfrifiadureg, dyweder, gael yr un 'ergyd' ar y ddisgyblaeth fyddol ag union yr un ymchwil a gyhoeddwyd yn y Saesneg.

Ac yn olaf, pwysodd y datblygiadau hyn yn drwm ar yr academyddion hynny a oedd eisoes yn cyhoeddi yn y Gymraeg, ond yn bennaf ar aelodau staff newydd a oedd yn dymuno cyhoeddi eu hymchwyl yn y Gymraeg yn rhannol o leiaf er mwyn darparu deunydd o safon drwy'r iaith ar gyfer eu myfyrwyr mewn meysydd newydd neu anhraddodiadol. Yn hynny o beth, ymddangosodd fod yr YAY/FfRhY ill dau yn fygythiad dirfodol i'r cynnydd araf ond pendant a welwyd yn y defnydd o'r Gymraeg mewn addysg uwch Gymreig oddi ar y 1970au. Yn ogystal â chael eglurder oddi wrth HEFCE ynglŷn â statws ymchwil yn y Gymraeg mewn ystod eang o ddisgyblaethau, yr oedd angen gweithredu mewn modd ymarferol, a hynny o fewn y sefydliadau Cymreig eu hunain. Y cymhellion grymus hyn, gyda'i gilydd, a arweiniodd at ymddangosiad rhifyn cyntaf *Gwerddon* ym mis Ebrill 2007.

⁶ Parthed y tebygrwydd rhwng y paneli asesu yn hyn o beth yn ymarfer 2008, gweler, e.e., ganllawiau'r panel Hanes: 'No form of output will be regarded as intrinsically inferior to any other', RAE08 UOA62, HEFCE, 54, par. 16, <<https://www.rae.ac.uk/pubs/2006/01/docs/n62.pdf>> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2019], a rhai'r panel Cemeg a fu'n cymeradwyo 'work published in non-print media', RAE08 UOA18, 34, par. 16, <<https://www.rae.ac.uk/pubs/2006/01/docs/e18.pdf>> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2019].

⁷ RAE01, 'Criteria and Working Methods', HEFCE, 1999, <<http://www.rae.ac.uk/2001/PanGuide/guide/guide2.htm>> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2019].

⁸ Parhaodd yr anhawster hwn hyd yn oed ar ôl i holl baneli pynciol yr YAY ddatgan yn glir eu hymrwymiad i dderbyn allbynnau yn y Gymraeg ac ar-lein; gweler e.e. gofnodion Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, 26 Hydref 2011, ac eto ar 22 Chwefror 2012 a 14 Mehefin 2012, Archif y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (ACCC). Carwn ddiolch i Ioan Matthews, Prif Weithdredwr y CCC, am ei ganiatâd i archwilio'r archif hon.

Cynllunio *Gwerddon*

Ymhlith yr arwyddion cyntaf fod math ar gylchgrawn ymchwil Cymraeg newydd ar y gweill oedd cyflwyniad Ioan Williams, Prifysgol Aberystwyth, i gyfarfod Is-banel y Bwrdd Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg ar 1 Mai 2001. Sefydlwyd y bwrdd hwn dan gadeiryddiaeth Cen Williams, Prifysgol Bangor, yn ystod ei secondiad gyda Phrifysgol Cymru gyda'r bwriad o sefydlu Uned Datblygu Addysg Gymraeg, y corff a fyddai, maes o law, yn un o gonglfeini sylfaenol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.⁹ Yn ei gyflwyniad, nododd Ioan Williams dri phwynt cwbl allweddol, sef, yn gyntaf 'bod dysgu cyfrwng Cymraeg yn datblygu'n rhywbeth canolog mewn rhai sefydliadau a bod rhaid i ymchwil cyfrwng Cymraeg gael ei weld yn ganolog hefyd'. Serch hynny, cyfeiriodd at y ffaith 'bod pwyslais mawr yn y sefydliadau yn erbyn cyhoeddi ymchwil yn Gymraeg' gan nad oedd cyhoeddiadau safonol yn bod i'w llwyfannu. Ac yn olaf, rhoddodd bwyslais mawr ar bwysigrwydd 'diogelu safon' ymchwil cyfrwng Cymraeg, a hynny ym mhob maes, er mwyn rhoi cyfle iddo ennill ei dir yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil. Yng ngoleuni hyn oll, awgrymodd y dylid sefydlu safle gwe trwy Wasg Prifysgol Cymru ar gyfer cyhoeddi'r ymchwil hwn.

Ni welwyd symudiad swyddogol pellach yn dilyn hynny tan fis Rhagfyr 2002, pan ddaeth Ioan Williams a Ioan Matthews â chais yn ôl i Wasg y Brifysgol, y tro hwn gyda rhestr o amcanion pendant. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cylchgrawn newydd, a fyddai'n bodoli ar wefan Gwasg y Brifysgol yn unig, byddai'r Is-Banel yn sefydlu strwythur golygyddol, gan gynnwys panel golygyddol cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Ioan Williams, gwneud trefniadau i sefydlu a lansio gwe-bresenoldeb gynaliadwy, a chyhoeddi deg papur ymchwil gwreiddiol o oddeutu pum mil o eiriau, pob un wedi ei gymeradwyo gan ddau arfarnwr allanol, ym meysydd y Celfyddydau, y Gwyddorau Cymdeithasol ac Addysg 'yn y lle cyntaf'.¹⁰ Amcangyfrifid y byddai angen £5,500 i dalu costau'r fenter dros y flwyddyn allweddol gyntaf.

Lleisiodd y papur trafod hwn farn hefyd am natur ddigidol y cylchgrawn newydd. Y fantais fwyaf, medder, oedd ei hyblygrwydd gan na fyddai'n 'rhaid cael casgliad o bapurau ymchwil yn perthyn i'r un ddisgyblaeth yn barod i'w cyhoeddi ar yr un pryd'. Yn ogystal, ni fyddai angen bod yn gaeth i ddyddiad cyhoeddi penodol gan y 'gellir cyhoeddi pan fydd papur yn dod i law', trefniant a all fod o fantais fawr o ran cwrdd ag anghenion amserol cylchoedd yr YAY. Serch hynny, y bwriad oedd lansio'r safle we 'gydag oddeutu 5 papur Ymchwil ar yr un dyddiad' er mwyn dwyn sylw cyhoeddus ato, ond ar ôl hynny 'byddir yn cyhoeddi fesul papur'.¹¹

Trafodwyd aelodaeth y Bwrdd Golygyddol eto gan yr Is-Banel ar 31 Ionawr 2003, ynghyd â goblygiadau'r datganiad i Fwrdd y Brifysgol neilltuo £5,500 i Brifysgol Aberystwyth

⁹ <<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/hanesycoleg/dr-cen-williams.aspx>> [Cyrchwyd: 28 Rhagfyr 2018].

¹⁰ Williams, Cen, a Matthews, Ioan, papur trafod, 'Sefydlu safle gwe trwy Wasg Prifysgol Cymru ar gyfer cyhoeddi ymchwil academiaidd drwy'r Gymraeg', Is-Banel Bwrdd Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Rhagfyr 2002, ACCC.

¹¹ Ibid.

ar gyfer y cynllun cyhoeddi. Bu cryn drafodaeth yn ogystal ar gais y Cyngor Cyllido am arian ychwanegol oddi wrth y Cynulliad er mwyn sefydlu Canolfan Genedlaethol i hybu'r Gymraeg mewn Addysg Uwch, gyda chynllun staffio gydag ysgoloriaethau i fyfyrwyr yn rhan 'ganolog' iddo.¹² Cyfarfu'r Bwrdd Golygyddol newydd am y tro cyntaf ar 27 Mawrth 2003, a thrafodwyd ganddynt amryw o faterion ymarferol megis yr angen i sefydlu golygyddion pwnc i arolygu ansawdd yr ymchwil a fyddai'n cael ei gyflwyno, canllawiau i awduron, a thâl i'r arfarnwyr. Dau fater arall o'r pwysigrwydd mwyaf oedd yr amserlen, yn arbennig o safbwynt yr YAY yn 2008, ac enw'r cyfnodolyn, lle y gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno eu hawgrymiadau ar fyrder. Yng ngoleuni'r camau breision hyn, siom oedd cael ar ddeall yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Golygyddol, ar 6 Mehefin 2003 nad oedd cyllid ychwanegol ar gael i dalu am y cynllun Cymraeg cenedlaethol.¹³ O'r herwydd, sefydlwyd Grŵp Llywio dan gadeiryddiaeth Andrew Green i ddatblygu cynllun amgenach.

O ganlyniad, am gyfnod, cafodd yr ymdrech i gychwyn cylchgrawn academiaidd Cymraeg ei ddatgysylltu oddi wrth brif ffrwd y cais i sefydlu Canolfan Genedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg, a'i ddatgysylltu hefyd oddi wrth y cynllun buddsoddi mewn staff a myfyrwyr (a oedd gysylltiedig â sefydlu'r ganolfan). Yn yr hinsawdd siomedig hwn, trodd y sylw tuag at faterion ymarferol, ac yng nghyfarfod y Bwrdd Golygyddol ym mis Mehefin 2003, aed i'r afael â'r trefniadau angenrheidiol gyda'r amcan o lansio'r e-gyfnodolyn (a oedd yn parhau i fod yn ddienw ar y pwynt hwnnw) ar ffurf PDF ar Ddydd Gŵyl Dewi, 2004. Gyda'r amcan hwnnw mewn golwg, ysgrifennodd Ioan Williams at bob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn esbonio rhesymeg y prosiect. Yn ei ohebiaeth, nododd bwysigrwydd canllawiau cyhoeddedig yr YAY parthed iaith a ffurf y cyhoeddiadau (neu 'allbynnau' yn iaith yr asesiad ymchwil) y byddent yn fodlon eu derbyn, yn bennaf er mwyn herio rhagdybiaethau o fewn amryw o adrannau nad oedd ymchwil yn y Gymraeg yn 'dderbyniol' o safbwynt yr asesiad:

Mae'r panel golygyddol a sefydlwyd gan y Bwrdd o'r farn mai sefydlu cyfnodolyn academiaidd yn unol â chanllawiau cyfnodolion academiaidd Saesneg eu hiaith yw'r unig ffordd o sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiad yn y maes hwn. Bydd hynny'n sicrhau bod y cyfnodolyn yn gydnaws â gofynion yr YAY. Dadleuir gan rai mai dim ond ychydig o gylchgronau a gydnabyddir gan baneli'r asesiad, ond mae'r grŵp a sefydlwyd gan y Bwrdd i ystyried y prosiect o'r farn bod hynny'n rhedeg yn groes i ganllawiau YAY ei hun.¹⁴

Ar yr un pryd, ceisiodd leddfu unrhyw ofnau ymhlith golygyddion cylchgronau Cymraeg eraill, fwy pynciol eu nawws, gan eu sicrhau na fyddai'r e-gyfnodolyn trawsddisgyblaethol newydd yn cystadlu â hwy naill ai am gyfranwyr nac am ddarllenwyr. 'Fel rheol, ni chyhoeddir deunydd y byddai'n bosibl ei gyhoeddi mewn cylchgronau Cymraeg eraill', meddai. Yr amlycaf yn eu plith efallai oedd *Cof Cenedl*, cyfrol flynyddol o ysgrifau hanesyddol a fu dan olygyddiaeth Geraint H. Jenkins rhwng 1986 a'i ymddeoliad fel cyfarwyddwr y Ganolfan

¹² Papur trafod, 'Cynllun Gwe-gyhoeddi: cyd-destun', Ionawr 2003, ACCC.

¹³ Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Golygyddol, 6 Mehefin 2003, ACCC.

¹⁴ Ioan Williams at benaethiaid Addysg Uwch, 6 Mehefin 2003, ACCC.

Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Prifysgol Cymru, yn 2009. Ar y llaw arall, yr oedd *Y Gwyddonydd*, y prif gyfnodolyn gwyddonol cyfrwng Cymraeg a gychwynnodd yn 1963 eisoes wedi dod i ben yn 1996, ac nid oedd unrhyw beth cyffelyb wedi llenwi'r bwlch, yn sicr nid ar ffurf y byddai YAY 2008 wedi ei gydnabod. Ni fyddai'n cystadlu 'chwaith gyda chylchgronau megis *Llên Cymru* gan nad oedd bwriad 'cyhoeddi gwaith mewn meysydd ... sy'n canoli ar astudiaethau Cymraeg'.¹⁵

Er gwaethaf y gwahoddiad i anfon erthyglau ymchwil at y golygydd ar gyfer lansiad swyddogol ar ddechrau 2004, araf iawn fu'r broses o ddod â phopeth ynghyd. Ar 13 Ionawr, 2006, cyfarfu'r panel golygyddol er mwyn cydnabod yr 'anawsterau a oedd wedi codi ynghylch y prosiect yn y gorffennol', ac i nodi eu bwriad 'i fwrw ati yn egniol yn y presennol'.¹⁶ Er mwyn sicrhau hynny, cymeradwywyd penodiad Anwen Jones fel golygydd cynorthwyol. Yn y cyfamser, cytunwyd ar enw'r cyfnodolyn, un a gafodd ei ysbrydoli gan ymyrraeth electronig ar y rhwydwaith fideo yn ystod cyfarfod y golygyddion ddiwedd 2005 a sianelodd gân gan y band roc o Fanceinion, Oasis, trwy seinydd pob stiwdio. O'r herwydd, trawodd Daniel Williams ar y gair Cymraeg am 'oasis', sef gwerddon. Cytunwyd ei fod yn enw hynod briodol. Ei fwriad oedd, nid yn unig i wyrddlasu dysg Cymraeg yn oes dihyssbydd asesu ymchwil, ond hefyd i ddyfrio Addysg Uwch Cymru gyda staff, cyrsiau a myfyrwyr newydd ar draws yr holl ddisgyblaethau. Gwerddon, felly, fuodd hi.

Cytunwyd hefyd ym mis Ionawr 2006 y dylid llunio cynllun busnes llawn a fyddai'n mynd ati o'r newydd i ddenu arian ac i sicrhau gwe-bresenoldeb i'r fenter ar lwyfan hir dymor. Ynddo, diffiniwyd prosiect tair blynedd o hyd a fyddai'n cyhoeddi dau rifyn y flwyddyn, ar ffurf electronig yn unig. Yn ogystal, nodwyd y byddai'r prosiect hwn yn 'cyfrannu at greu a chynnal trafodaeth ysgolheigaidd o'r radd flaenaf ymysg academyddion cyfrwng Cymraeg ar draws ffiniau disgyblaethol'. Cefnogwyd y prosiect gan y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, olynwyd i Banel y Brifysgol ar Addysg Gymraeg, gydag Anwen Jones yn ei rôl fel golygydd cynorthwyol yn Rheolwr y Prosiect, Dylan Phillips yn cydlynu ar ran y Ganolfan Datblygu, a Ioan Williams yn Olygydd ac 'uwch-ddefnyddiwr', ac yn ystod 2007–8 gwahoddwyd pob sefydliad Addysg Uwch i enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y Bwrdd Golygyddol. Yn y cyfamser, tan bod modd cytuno ar lwyfan rhithiol parhaus i'r cyfnodolyn, byddai swyddog gwe Prifysgol Aberystwyth yn darparu'r gwasanaeth angenrheidiol, ac yna byddai'n cael ei lwyfannu ar weinydd y Ganolfan Datblygu. Ar yr un pryd, amcangyfrifid y byddai angen codi £50,277 i ddatblygu 'gwefan addas' dros dair blynedd y prosiect, y cyfan dan reolaeth y Bwrdd Prosiect a'r Bwrdd Golygyddol.¹⁷

Fis yn ddiweddarach, yn dilyn llwyddiant y cais i'r Ganolfan Datblygu am swm o £8,150 er mwyn ariannu blwyddyn gyntaf y prosiect, rhoddwyd rhagor o gnawd ar yr esgyrn hyn. Gyda phum erthygl eisoes wedi eu derbyn ac yn addas ar gyfer eu cyhoeddi, cytunwyd y dylid bwrw ymlaen â'r cynllun lansiad cyn gynted ag y byddai modd gwneud hynny, a

¹⁵ 'Gwerddon, Cefndir a Rhesymeg y Prosiect', 1, ACCC.

¹⁶ Cofnodion cyfarfod Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, 13 Ionawr 2006, ACCC.

¹⁷ 'Gwerddon, Cefndir a Rhesymeg y Prosiect', 1–3, ACCC.

phenderfynwyd y byddai Dafydd Elis-Thomas, fel Llywydd y Cynulliad (y Senedd) yn cael ei wahodd i ysgrifennu rhagair ar ei gyfer.¹⁸

Lansio a datblygu Gwerddon

Cyflwynwyd rhifyn cyntaf *Gwerddon* ar ei ffurf PDF gwreiddiol i'r cyhoedd gan ei gyhoeddwr, Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, ar lwyfan y Drwm yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 30 Ebrill 2007. Ynddo, yn dilyn gair o groeso gan y golygydd, Ioan Williams, a rhagair gan yr Arglwydd Elis-Thomas, bu pedair erthygl gan drawstoriad o ysgolheigion amlwg a chymharol newydd, tra amrywiol yn eu meysydd, sef Mike Pearson a Gwennan Schiavone o Brifysgol Aberystwyth, Enlli Thomas o Brifysgol Bangor a Diarmait Mac Giolla Chríost o Brifysgol Caerdydd. Cyhoeddwyd yr erthyglau ar y wefan ei hun, www.gwerddon.org, gyda chymorth ymarferol sylweddol gan swyddfa argraffu Prifysgol Aberystwyth, a gwahoddwyd rhagor i gyfrannu at yr ail rifyn a fyddai'n ymddangos ym mis Medi'r flwyddyn honno, yn arbennig o feysydd lle nad oedd traddodiad cryf o gyhoeddi ymchwil eisoes yn bodoli, megis mewn Peirianeg neu Ffiseg. Bu ymdrech hefyd i gyhoeddi bodolaeth yr e-gyfnodolyn newydd trwy rwydweithiau mewnol y sefydliadau Addysg Uwch, trwy'r wasg ac ar amryw o safleoedd gwe perthnasol. Bu'r misoedd cynnar hyn yn rhai trafferthus i'r golygydd, Ioan Williams, 'oherwydd pwysedd y gwaith', a bu hefyd feirniadaeth ar ei ddiwyg, ond o leiaf yr oedd y cyfnodolyn nawr yn bodoli ac yn dechrau denu cyfranwyr a darllenwyr cyson.¹⁹

Serch hynny, gwyddid y byddai angen diwygio a moderneiddio'r wefan wreiddiol, ac y byddai hynny'n gostus. Ac er gwaethaf safon a diwyg ysgolheigaidd y rhifyn cyntaf, a'r cynlluniau cyffrous i ddatblygu to newydd o ysgolheigion amlddisgyblaethol Cymraeg, yr oedd yr anhawster sylfaenol yr un ag o'r blaen, sef diffyg arian i sicrhau ei ffyniant yn y dyfodol. Yn ôl yr amcangyfrif a wnaethpwyd yng nghynllun busnes pum mlynedd 2007, byddai angen bron £18,000 y flwyddyn i dalu costau'r fenter, a thros £90,000 am y cyfnod o bum mlynedd.²⁰

Ond gwyddid hefyd, i fod yn llwyddiannus yn y tymor hir, byddai'n rhaid i'r golygyddion wneud mwy na gobeithio am gyfraniadau. Am y rheswm hwnnw, aethant i'r afael â'r gwaith hanfodol o greu rhwydwaith cryf o ddarlithwyr, yn arbennig ymysg y rhai a oedd yn gynnar yn eu gyrfaedd, a thrwy hynny gryfhau eu gallu i gydweithio â'i gilydd ar draws y sefydliadau ac ar draws y disgyblaethau. Yn hynny o beth, cychwynnodd y criw bach oedd ynghlwm wrth *Gwerddon* yn 2007 ar y gwaith o feithrin dulliau a fyddai'n galluogi ysgolheigion Cymraeg eu hiaith i gefnogi a rhoi nerth i'w gilydd ar lwyfan ffederal, a hynny ar yr union amser pan yr oedd yr hen brifysgol ffederal, a oedd wedi cynnal y math hwnnw o gydweithio oddi ar 1893, yn chwalu'n ddarnau. Bu sôn am drefnu cynadleddau blynyddol, dosbarthu bwrsariau i'w mynychu, rhedeg rhaglenni seminarau trwy'r flwyddyn, a 'threfnu

¹⁸ Cofnodion cyfarfod Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, 23 Chwefror 2006, ACCC.

¹⁹ Gohebiaeth â Ioan Williams, 15 Ionawr 2019.

²⁰ Drafft, 'Cynllun busnes pum mlynedd ar gyfer yr e-gyfnodolyn cyfrwng Cymraeg *Gwerddon*', ACCC.

rhaglen amrywiol yn ymgasglu trafodaeth a ffrwyth ymchwil cyfrwng Cymraeg ar draws y Dyniaethau, y Gwyddorau a'r Celfyddydau'.²¹ Yr un mor bwysig, gwelwyd pwysigrwydd mawr mewn datblygu rhwydwaith ymgynghorol, dan nawdd y cyfnodolyn, a fyddai'n darparu cyfleoedd i academyddion ifanc drafod eu gwaith 'a'r broses o gyflwyno gwaith ysgolheigaidd i gyfnodolyn academiaidd gyda chyd-ysgolheigion mwy profiadol'.²² Efallai, ymhen amser, pan gaiff yr hanes cyflawn ei adrodd, gellir datgan i'r Ganolfan Datblygu greu'r amgylchiadau a fyddai'n galluogi myfyrwyr ymchwil a staff Cymraeg eu hiaith i gydweithredu, a hynny ar draws rhychwant eang o ddisgyblaethau.

Ymddangosodd yr ail rifyn ym mis Hydref 2007, gyda'r erthygl gyntaf yn ymddangos ar destun gwyddonol, sef 'Llif yr atmosffer drydanol' gan Eleri Pryse, a benodwyd yn gadeirydd y Bwrdd Golygyddol ym mis Mawrth 2013.²³ Ar yr un pryd, cychwynnodd Hywel Griffiths fel is-olygydd, a'r flwyddyn olynol penodwyd Anwen Jones yn olygydd ar ymddeoliad y golygydd gwreiddiol, a'r ysbrydoliaeth tu ôl i'r fenter, Ioan Williams.²⁴ Ers 2006, cefnogwyd *Gwerddon* yn ymarferol gan y Ganolfan Datblygu (ac wedi hynny gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) drwy ddarparu cynorthwy-ydd golygyddol cyflogedig i gydlynw'r prosiect a chefnogi'r Golygydd. Gethin Rhys oedd y cyntaf, yna Gwenllian Lansdown Davies, a'r mwyaf diweddar, Mari Fflur. Rhyngddynt oll, cyhoeddwyd ganddynt gant o erthyglau o safon ymchwil a fyddai'n dderbyniol i'r asesiadau ymchwil rhwng 2007 a 2018, oddeutu eu hanner yn deillio o'r Celfyddydau neu'r Dyniaethau, chwarter yn deillio o'r Gwyddorau a chwarter o'r Gwyddorau Cymdeithasol.²⁵ Gellir honni bod y patrwm hwn yn adlewyrchiad gweddol glir o'r dosbarthiad staff ac ymchwilwyr Cymraeg eu hiaith ar draws y sefydliadau Addysg Uwch ar y pryd.

Gwelir patrwm arall yn nosbarthiad y cyfraniadau, sef eu cydymffurfiaeth â rhythmau ysbeidiol yr asesiadau ymchwil. Yn ystod ei ddeuddeng mlynedd cyntaf, goroesodd *Gwerddon* ddau asesiad FfRhY, yn 2008 a 2014. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, gwelir cynnydd cyson yn y nifer o erthyglau a gafodd eu cyhoeddi, o 3 yn 2009, y flwyddyn pan gyhoeddwyd canlyniadau FfRhY08, i 6 yn 2010, 9 yn 2011, a 15 yn 2012. Ymddangosodd 11 arall yn 2013. Diddorol fydd gweld a fydd yr un patrwm yn ymddangos yn y blynyddoedd cyn y FfRhY nesaf yn 2021. Os bydd, gellir honni bod presenoldeb *Gwerddon* wedi llwyddo i ryw raddau i wanhau'r rhagfarn fewnol ynglŷn â statws yr iaith yn ein prifysgolion, ac wedi cryfhau penderfyniad a hyder yr ymchwilwyr eu hunain i gynnig eu hallbynnau Cymraeg i asesiadau ymchwil y dyfodol.

Yn rhannol er mwyn tanlinellu cryfderau disgyblaethol ymchwil yn y Gymraeg mewn sawl maes gwahanol, penderfynwyd ar gychwyn 2017 y byddai'r Bwrdd Golygyddol yn cyhoeddi

²¹ Ibid.

²² Ibid.

²³ Cofnodion Bwrdd Prosiect *Gwerddon*, 18 Mawrth 2013, ACCC.

²⁴ Cofnodion Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, 17 Ebrill 2013, 15 Medi 2014, ACCC.

²⁵ Mae'r dosraniad hwn yn ddadleuol, ac yn ddibynnol iawn ar sut mae diffinio'r ffiniau disgyblaethol, ac yn arbennig ym mha categori y lleolir astudiaethau iaith. Serch hynny, wrth danlinellu pwysigrwydd y Celfyddydau ym mlynnyddoedd cynnar y cyfnodolyn, y mae hefyd yn tynnu sylw at yr ymdrechion a wnaed gan y golygyddion i ymestyn amrediad yr erthyglau, a hynny i 'ddisgyblaethau newydd', gweler e.e. cofnodion Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, 22 Medi 2008, ACCC.

rhifynnau arbennig rhithiol yn ychwanegol at y rhai rheolaidd, a fu'n parhau i ymddangos ddwywaith y flwyddyn. Ymddangosodd y cyntaf o'r rhai rhithiol, dan arolygaeth Wyn Thomas ar Ddydd Gŵyl Dewi 2017, a'r ail, dan ofal Rhys Jones ar destun Daearyddiaeth flwyddyn yn ddiweddarach. Bwriad arall pecynnu erthyglau yn y modd hwn oedd ceisio targedu cynulleidfaoedd yn ôl eu disgyblaeth, a thrwy wneud hynny ddenu sylw eraill at *Gwerddon* yn ei ffurf arferol. Bu hyn yn rhan o ymgyrch ehangach i sicrhau cynulleidfa gref a chyson i *Gwerddon* wrth iddo barhau i aeddfedu.

Hyrwyddo ac ymestyn

Cydnabuwyd yr angen i hyrwyddo'r cyfnodolyn yn gynnar ar ôl ei gychwyn, ac ymrwymodd y Bwrdd Prosiect i ddatblygu strategaeth i'w hyrwyddo, yn arbennig ymhlith deiliaid Ysgoloriaethau Ymchwil a gyllidwyd dan nawdd cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil cyfrwng Cymraeg y Ganolfan Datblygu. Fel rhan allweddol o'r strategaeth honno, rhoddwyd pwyslais ar lansio gwefan newydd ar gyfer *Gwerddon* ar fyrder, ac yn sicr erbyn 1 Mawrth 2009.²⁶ Cam arall a ddenodd sylw cyhoeddus oedd sefydlu Gwobr *Gwerddon*, mewn perthynas â Chymdeithas Ddysgedig Cymru, ar gyfer yr erthygl orau ym marn y golygyddion, a hynny bob dwy flynedd. Yr awdur buddugol cyntaf oedd Nia Blackwell, o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth, ym mis Awst 2015.

Er mwyn elwa ar dwf y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn prysur ddatblygu ar y pryd, dechreuodd swyddogion *Gwerddon* drydar o fis Chwefror 2013 o dan y cyfeiriad @Gwerddon, ac ar 24 Hydref 2016 cychwynnodd ymddangos ar Facebook yn ogystal, gyda chrynodeb byr o erthygl gan Craig Owen Jones ar bapurau bro cynnar a cherddoriaeth roc Gymraeg. Yn y cyfamser, lansiwyd ym mis Mehefin 2013 ofod ymchwil agored #Ffrwd ar y brif wefan *Gwerddon* er mwyn cynnwys pytau gogleisiol o waith ymchwil diweddar, gan gynnwys hefyd man i rannu a chyhoeddi digwyddiadau a newyddion a oedd yn ymwneud â gwaith ymchwil yn y Gymraeg.²⁷

Yn fwy diweddar, lansiwyd *Gwerddon Fach* ar 1 Mehefin 2018 yn Eisteddfod yr Urdd, mewn cydweithrediad â Golwg 360. Llwyfan yw hwn ar gyfer erthyglau byrion gwreiddiol a chrynodebau o erthyglau sydd eisoes wedi ymddangos yn *Gwerddon*. Yn y chwe mis cyntaf, cyhoeddwyd deuddeg erthygl, gan dynnu sylw cyhoeddus at amrywiaeth disgyblaethol yr ymchwil a oedd ar gael. Trwy gynnig lledaenu cynnwys *Gwerddon* i gynulleidfa leyg yn y modd hwn, crëodd Dylan Iorwerth, Prif Weithredwr Golwg cyf, ynghyd â Hywel Griffiths, is-olygydd *Gwerddon*, gyfle i symblu dealltwriaeth ymchwilwyr ledled Cymru am y pwysigrwydd o ymwneud â darllenwyr y tu hwnt i'r prifysgolion, ac yn arbennig felly i gyflwyno eu gwaith i ddisgyblion ysgol, lle y mae dyfodol pob disgyblaeth academaidd. Gall y fath gysylltiad â'r wasg newyddiadurol hefyd fod o fantais sylweddol i'r awduron mewn unrhyw asesiad ymchwil yn y dyfodol a fydd yn cynnwys 'ergyd' cymdeithasol y cyhoeddiad fel rhan o'r mesur.

²⁶ Cofnodion Bwrdd Rheoli Prosiect *Gwerddon*, 27 Hydref 2008, ACCC.

²⁷ Cofnodion Bwrdd Prosiect *Gwerddon*, 17 Mehefin 2013, ACCC.

Gwerddon a'r byd rhithiol Cymraeg

Cyn troi at fater dylanwad *Gwerddon* ar ddiwylliant academiaidd, da o beth fyddai ystyried rôl yr e-gyfnodolyn yn natblygiad y we Gymraeg, a'i gyfraniad ati, yn arbennig yng ngoleuni ei ddyfodiad cynnar i'r maes newydd a thoreithiog hwn. Er i'r neges gyntaf yn y Gymraeg ymddangos ar wefan Usenet ym mis Awst 1989, erbyn 1992 yr oedd rhestr drafod Welsh-L i'w gweld ar-lein, a'r cwrs dysgu Cymraeg cyntaf yn ymddangos ar-lein ym mis Mehefin 1994. Cyflymodd presenoldeb yr iaith ar y we o hynny ymlaen, gyda lansiad gwefannau Curiad, yr Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas yr Iaith a'r Llyfrgell Genedlaethol yn ystod 1995.²⁸ Flwyddyn yn ddiweddarach, dechreuodd y broses reolaidd o archifo'r we ar gyfer y dyfodol. Parhaodd y Gymraeg i ffynnu yn y byd rhithiol yn ystod y deng mlynedd ddilynol, a phwysig yw nodi bod *Gwerddon* wedi ymddangos fis ar ôl y trydariat cyntaf yn y Gymraeg ym mis Mawrth 2007, a blwyddyn gyfan cyn cychwyn Facebook ar ei ffurf Gymraeg ym mis Mai 2008. Cymerwyd cam sylweddol arall gan y Ganolfan Datblygu ym mis Awst 2009 pan aeth llwyfan e-ddysgu Y Porth yn fyw ar y we, a fyddai'n arwain at hwyluso cydweithio ym meysydd dysgu ac ymchwil ledled sefydliadau Addysg Uwch Cymru. Lansiwyd gwefan newydd *Gwerddon*, a'r un gyfredol ar adeg ysgrifennu hyn, yn Eisteddfod Bro Morgannwg 2012. Un ffon fesur tra trawiadol o ddefnydd cynyddol yr iaith ar y tonfeydd rhithiol yn y cyfnod hwn yw'r nifer o erthyglau Cymraeg oedd ar gael ar Wicipedia. Yma, gwelwyd twf esbonyddol o fil erthygl erbyn mis Chwefror 2004, i 39,000 erbyn diwedd 2012, a thros 102,000 erbyn mis Ionawr 2019.²⁹ Yn hyn o beth, gellir gweld bod hanes *Gwerddon* wedi ei wau'n dynn i ddefnydd y chwyldro digidol oddi ar y 1990au, a thrwy'r cyfrwng hwnnw, ymestynnodd ei gwmpas i bob cartref a phoced, nid yn unig yng Nghymru ond dros y byd i gyd. Prin iawn yw'r astudiaethau hanesyddol sydd wedi eu cyhoeddi ar y twf ffrwydrol hwn, ac yn 2010 gosododd Rhys James Jones her i haneswyr fynd ati i ddisgrifio ac esbonio'r hyn ddigwyddodd.³⁰ Erys ei her i haneswyr y dyfodol ei chymryd, ac yn benodol yr hyn fydd o ddiddordeb o safbwynt yr arolwg byr hwn fydd hanes datblygiad e-gyfnodolion, a'r modelau busnes a'r ffrydiau cyllid a fyddai wedi dangos llwyddiant wrth eu cynnal dros yr hir dymor.

²⁸ Am arolwg cynnar ar Gymru a'r we, gweler Green, Andrew (2005), *Wales on the Web* (Cardiff: Institute of Welsh Affairs). Gweler hefyd ddadansoddiad fwy cyffredinol Mirzadeh, Azadeh (2000), 'Electronic Publications', LISNews, Rhagfyr ar <https://lisnews.org/ejournals_advantages_disadvantages_and_criteria_for_selection> [Cyrchwyd: 29 Rhagfyr 2018]. Mae datblygiad y Gymraeg ar y we yn y blynyddoedd hyn hefyd yn weddol gyson â datblygiad ieithoedd eraill heblaw'r Saesneg. Gweler, er enghraifft, batrwm cychwynnol amryw o e-gylchgronau academiaidd Ffrangeg ar <https://www.pedagogie.ac-aix-marseille.fr/upload/docs/application/pdf/2015-09/annuaire_des_revues_philosophiques_en_lignes.pdf> [Cyrchwyd: 30 Rhagfyr 2018].

²⁹ Dyfrig, Rhodri ap, 'Hanes y We Gymraeg', <https://www.tiki-toki.com/timeline/entry/84932/Hanes-y-We-Gymraeg/#vars!date=1989-08-15_13:37:28!> [Cyrchwyd : 3 Ionawr 2019]. Gweler hefyd <<http://www.hanesywegymraeg.com/tag/cymraeg/>> [Cyrchwyd: 3 Ionawr 2019]. Parthed Wicipedia, gweler <<https://cy.m.wikipedia.org/wiki/Arbennig:Statistics>> [Cyrchwyd: 3 Ionawr 2019]. Carwn ddiolch i Dafydd Tudur, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am y cyfeiriad hwn.

³⁰ Jones, Rhys James (2010), 'Cilfachau electronig: geni'r Gymraeg ar-lein 1989–1996', *Cyfrwng: Cyfnodolyn Cyfryngau Cymru*, 7, 37.

Tra bydd y ddealltwriaeth honno'n aeddfedu, mae'n anorod mai parhau'n waith ar y gweill fydd arloesedd *Gwerddon* a'i fath.

Ergydion *Gwerddon*

Serch hynny, y gwir amdani yw fod y sector Addysg Uwch, trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i ragflaenwyr, wedi llwyddo i gynhyrchu e-gyfnodolyn academiaidd cydweithredol yn gyson am ddeuddeg mlynedd, a hynny'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddwyr. Beth felly fu sgil-ffeithiau hyn, ar y sector, y gymdeithas a'r ecosystem ddigidol Gymreig yn y cyfnod dan sylw? Y mesur mwyaf amrwd yw'r niferoedd sydd yn ymweld â'r erthyglau unigol a'r rhifynnau chwe-misol. Bu hyn yn bwnc trafod mewn sawl cyfarfod o'r Bwrdd Golygyddol, er gwaethaf y rhwystredigaethau technolegol a oedd yn cymhlethu unrhyw ymdrech i gyfri'r nifer o ddarllenwyr. Er y daeth gwelliant ers mis Mai 2014 yn y dull cyfri oddi ar fynediad gwefan *Gwerddon* i Google Analytics, anodd fu cael darlun llawn oherwydd, yn wahanol i'r wefan ei hun, gellir cael mynediad i'r cyfnodolyn trwy wefan Llyfrgell y Coleg, a hynny heb orfod lawrlwytho'r PDF.³¹ Serch hynny, diolch i ymdrechion Gwenllian Lansdown Davies a wedyn Mari Fflur fel cynorthwywyr golygyddol *Gwerddon* yn ystod y blynyddoedd hynny, gellir gweld cynnydd pendant, ond anghyson, yn niferoedd y darllenwyr. Prin iawn yw'r ffigurau cynnar oherwydd diffygion y feddalwedd, ond erbyn 2012 gwelir bod rhwng 237 a 534 yn ymweld â'r wefan bob mis, gyda tua 60% ohonynt yn ymwelwyr newydd.³² Amrywiodd y niferoedd yn ystod y tri mis a ddilynodd, o fis Ionawr hyd at fis Mawrth 2013 o 417 ymwelydd y mis i 626, o bosib oherwydd ymddangosiad rhifyn arbennig ar y Gwyddorau, ond efallai hefyd o ganlyniad i fireinio'r ymdrechion hyrwyddo.³³ O gyfnod Google Analytics, a ddechreuodd ym mis Mai 2014, ceir rhagor o gysondeb a manylder mewn perthynas â'r ergydion a'r lawrlwythiadau, a gwelwyd cynnydd pellach yn y niferoedd ymwelwyr, o 2,378 rhwng 1 Mai 2014 a 30 Ebrill 2015, i 2,830 yn ystod 2017–18, gyda nifer y lawrlwythiadau hefyd yn tyfu o 1,044 i 1,056 yn ystod yr un cyfnod.³⁴ Awgryma cysondeb yr ergydion hyn fod *Gwerddon* wedi ennill ei dir, ac yn parhau i ddenu darllenwyr, o Gymru yn bennaf, ond hefyd o Lundain a sawl man yn Ewrop a Gogledd America.³⁵

Ond mae ystyr arall yn perthyn i'r gair 'ergyd', un sydd yn treiddio'n ddyfnach i fywyd cymdeithas ac sydd, gyda llaw, yn fwy cydnaws ag anghenion asesiad ymchwil y FfrhY

³¹ Gweler, er enghraifft, drafodaeth bwysig ar yr ergydion yng Nghofnodion Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, 14 Ionawr 2013, ACCC, ac o ganlyniad i hynny, cyflwyniad 'caboledig a diddorol tu hwnt gan Eilir Pryse' ar ddata'r e-gyfnodolyn yn ystod y cyfnod 2012–13 yng Ngregynog, cofnodion Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, 1 Mai 2014. Gweler yn ogystal yr adroddiad llawn, Pryse, S. Eilir, 'Prosiect Ystadegaeth ar ddata *Gwerddon*', dan oruchwyliath D. Alan Jones, Prifysgol Aberystwyth, 2014, ACCC.

³² Davies, Gwenllian Lansdown, 'Ergydion Gwefan *Gwerddon*', Adroddiad i'r Bwrdd Golygyddol, 4 Ionawr 2013, ACCC.

³³ Phillips, Dylan, Adroddiad i'r Bwrdd Golygyddol, Ebrill 2013, ACCC.

³⁴ My Dashboard, Google Analytics, *Gwerddon.org*, 1 Mai 2015–Ebrill 2016, a Phillips, Dylan, 'Cyflwyniad Ergydion', Adroddiad i'r Bwrdd Golygyddol, Ebrill 2013, Mehefin 2017, Mehefin 2018, ACCC. Carwn ddiolch hefyd i Mari Fflur am ei chymorth wrth gasglu'r data perthnasol.

³⁵ Ibid.

nesaf yn 2021. Yn yr ystyr hwn, bydd angen ystyried dylanwad yr hyn a gyhoeddir yn *Gwerddon*; yn gyntaf, dylanwad ymchwil mewn maes penodol, ac yn ail, dylanwad natur amlddisgyblaethol y cyfnodolyn sy'n caniatáu i ddarllenwyr ymestyn eu gorwelion y tu hwnt i'w meysydd arferol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod *Gwerddon* yn dylanwadu yn y ddau fodd hwn. Yn ôl Hefin Jones, Deon y CCC a chyn-gadeirydd y Bwrdd Golygyddol, bu'r cydweithio a'r cydfeirniadu trawsddisgyblaethol ymhlith ysgolheigion Cymraeg yng nghyfarfodydd ymchwil y CCC 'yn wefreiddiol', ac yn beth prin iawn i'w ganfod yn y byd academiaidd Saesneg ei iaith.³⁶ Creodd diwylliant *Gwerddon*, felly, fel canolbwynt i ystod mor eang o ymagweddau academiaidd, y potensial i arwain at amryw o gyfuniadau newydd ymhlith y gymuned ymchwil Gymraeg. Cawn weld gyda threigladau amser beth yn ymarferol ddaw o hynny.

Ond nid yw gwybodaeth newydd yn gaeth i unrhyw iaith. Peth bydol ydyw, eiddo'r ddynol ryw, ac un her sydd yn deillio o hynny yw sut i drosglwyddo'r hyn yr ymchwilir iddo yn y Gymraeg i ieithoedd a chynulleidfaoedd eraill, a hynny heb orfod cyfieithu popeth i'r Saesneg. Un modd y gall hynny ddigwydd, yn ôl Hefin Jones, yw gwneud ymdrech, lle bo hynny'n addas, i gyfeirio at erthyglau *Gwerddon* a'i debyg mewn gwaith a gyhoeddir gan ysgolheigion Cymraeg mewn ieithoedd eraill. Diddorol fyddai gweld, maes o law, sut allai hynny ddwyn sylw tramor at waith ymchwil yn y Gymraeg.³⁷ Yn olaf, yr ergyd fwyaf i'w hystyried yw'r iaith a ddewisir gan yr ymchwilwyr unigol pan ddaw'r amser i gyhoeddi. Un arwydd fod y dewis i gyhoeddi yn y Gymraeg yn dal ei dir, yn ôl Eleri Pryse, cadeirydd y Bwrdd Golygyddol presennol, yw fod 'yr erthyglau yn dod eu hunain', heb orfod erfyn amdanynt.³⁸ Ymhlith holl ergydion *Gwerddon*, efallai mai hon yw'r fwyaf pellgyrhaeddol.

Gwerddon fydd

Ddeufis ar ôl lansio rhifyn cyntaf *Gwerddon* yn 2007, cyfeiriodd y golygydd, Ioan Williams, ato fel cylchgrawn a oedd 'yn cynnig – a hynny am y tro cyntaf yn hanes Addysg Uwch yng Nghymru – fforwm ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ar draws y Dyniaethau, y Gwyddorau a'r Celfyddydau'.³⁹

Trwy olrhain ei hanes dros y deuddeg mlynedd, a'r can erthygl, diwethaf, gellir synhwyro bod rhai, o leiaf, o addewidion cynnar y golygydd wedi dwyn ffrwyth, ac yn yr ystyr hwnnw, llwyddodd *Gwerddon* i wyrddlasu rhywfaint ar ddysg Cymraeg, yn arbennig mewn meysydd lle y derbyniodd y Gymraeg lai o sylw. Yn sicr, creodd fforwm academiaidd trawsddisgyblaethol nad oedd wedi bodoli o'r blaen, a darparodd lwyfan lle y bu modd i ymchwilwyr arddangos eu darganfyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, o flaen cynulleidfaoedd a ymestynnai o'r ysgolion hyd at baneli asesiadau ymchwil gwledydd Prydain.

³⁶ Cofnodion cyfweliad â Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd, 19 Tachwedd 2018 (ym meddiant yr awdur).

³⁷ Ibid. Byddai hyn hefyd yn denu sylw at wefan 'urddasol, fyw, arloesol' y CCC. Gweler cofnodion cyfweliad â Mari Elin Jones, 26 Tachwedd 2018 (ym meddiant yr awdur).

³⁸ Cyfweliad ag Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth, 5 Tachwedd 2018 (ym meddiant yr awdur).

³⁹ Drafft, 'Cynllun busnes pum mlynedd ar gyfer yr e-gyfnodolyn cyfrwng Cymraeg *Gwerddon*', Mehefin 2007, ACCC.

Gall rhoi ystyriaeth i'r hanes hwn hefyd gynnig esboniad o'r elfennau hynny a fu'n gyfrifol am enedigaeth Gwerddon a'i dwf. Y mae'n gwbl bosibl, er enghraifft, i honni y byddai *Gwerddon* wedi dod i fodolaeth heb fwrlwm y coleg ffederal a sefydlu'r CCC – byddai'r Ymarfer Asesu Ymchwil yn 2008 ei hun, o bosib, wedi bod yn gymhelliad digonol. Serch hynny, anodd fyddai honni na fu cysylltiad symbiotig rhyngddynt o'r cychwyn cyntaf, a heb gymorth ariannol ac adnoddau dynol a thechnolegol y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, ac yna o 2011 y CCC, ni fyddai'r e-gyfnodolyn hwn wedi gallu blodeuo yn yr un modd. Ac er yr ymddengys mai proses o ymlwybro, yn aml mewn modd digon anniben trwy bwyllgorau di-ri fu ei hanes, ar yr un pryd gellir ei ddehongli fel un rhan o'r gwaith ehangach o sefydlu statws mwy hafal i'r Gymraeg yn ein prifysgolion a ailgydiodd ar ddechrau'r 2000au gyda'r ymgyrchoedd dros y coleg ffederal.

Nid yw'r broses hir honno yn agos at gael ei chwblhau, ac mae'r byd o'i hamgylch yn parhau i newid. Er enghraifft, yn dilyn Argymhellion Panel Adolygiad Diamond ym mis Medi 2016 ar drefniadau cyllido Addysg Uwch yng Nghymru,⁴⁰ a chyhoeddi strategaeth Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr yng Ngorffennaf 2017,⁴¹ cyhoeddodd y Llywodraeth ar 11 Rhagfyr 2018 fod maes cyfrifoldebau'r CCC wedi ymestyn i gynnwys Addysg Bellach a phrentisiaethau.⁴² Gellir croesawu hyn fel cam blaengar a fydd yn cychwyn gwaith hirddisgwyliedig i gydlyn cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym myd addysg 16+. Ar y llaw arall, dylid petruso dros gyflwr ariannol difrifol ein prifysgolion, a fydd yn ôl pob golwg yn debygol o waethygu'n ddybryd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn y senario ansicr hwnnw, gydag Addysg Uwch eisoes yn gwegian, llwyfan urddasol yn unig fyddai *Gwerddon* heb y *dramatis personae* i godi eu lleisiau ymchwilgar arno. Boed iddynt barhau.

⁴⁰ <<https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-gyllido-addysg-uwch-threfniadau-cyllido-myfyrwyr-adroddiad-terfynol>> [Cyrchwyd: 23 Rhagfyr 2018].

⁴¹ <<http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>> [Cyrchwyd: 20 Rhagfyr 2018].

⁴² <<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/newyddion/pennawd-11161-cy.aspx>> [Cyrchwyd: 21 Rhagfyr 2018].

**“Does dim gwadu ar Etifeddiaeth’:
Astudiaeth o’r modd yr ymdrinnir
ag etifeddiaeth yn *Ac Eto Nid Myfi*
a detholiad o straeon byrion
John Gwilym Jones**

Gareth Evans-Jones

Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

Cyflwynwyd: 26 Chwefror 2016; Derbyniwyd: 27 Gorffennaf 2018

Crynodeb: Un o brif themâu John Gwilym Jones yw’r modd y mae dyn ‘yn gaeth i’w gromosomau’ ar drugaredd ei etifeddeg a’i amgylchedd, ac yn yr erthygl hon, ystyrir y thema honno yn ei ddrama fawr *Ac Eto Nid Myfi*. Er mwyn ymdrin â’r llenor, yn hytrach na’r dramodydd yn unig, archwilir detholiad o’i straeon byrion yn ogystal. Trafodir pa mor ddylanwadol fu syniadau Darwin am etifeddeg ar y mudiad Naturiolaidd ac asesir y modd yr oedd John Gwilym Jones ei hun yn etifedd i’r syniadau Darwinaidd hynny.

Allweddeiriau: John Gwilym Jones, Darwin, etifeddiaeth, amgylchedd, *Ac Eto Nid Myfi*.

**“Does dim gwadu ar Etifeddiaeth’: A study of how
John Gwilym Jones discusses legacy in *Ac Eto Nid Myfi*
and a selection of short stories**

Abstract: One of the main themes in the work of John Gwilym Jones is how man is a slave to his chromosomes, at the mercy of heredity and his environment. This article focuses on the said theme in his well-known play, *Ac Eto Nid Myfi*. In order to consider how John Gwilym Jones the author, as opposed to John Gwilym Jones the playwright alone, made use of this theme, due attention is given to a selection of his short stories. The article also discusses the influence of Darwin’s ideas of heredity on Realism as well as on John Gwilym Jones himself.

Key words: John Gwilym Jones, Darwin, heredity, environment, *Ac Eto Nid Myfi*.

Thema sy'n ei hamlygu ei hun yn aml yng ngwaith John Gwilym Jones yw baich etifeddiaeth a'r croestynnu cyson rhwng etifeddiaeth unigolyn a'i amgylchedd. Archwilir y thema hon, er enghraifft, yn *Y Dewis* (1942) a *Tri Diwrnod ac Angladd* (1979), ond gan nad oes gofod yn yr ysgrif hon ni thrafodir y nofelau hynny. Yn hytrach, cyfyngir y testunau a drafodir i ddrama a detholiad o straeon byrion o eiddo'r gŵr o'r Groeslon.

Canolbwyntir ar y ddrama *Ac Eto Nid Myfi* (1976)¹ oherwydd ei bod yn astudio unigolyn ar drugaredd ei etifeddeg a'i amgylchedd, a hynny yng nghyd-destun argyfwng dirfodol y prif gymeriad. Er mwyn ymdrin â'r llenor yn ogystal â'r dramodydd, crybwyllir detholiad o straeon o *Y Goeden Eirin* (1946) a'r stori fer 'Nychdod' (1931). Mae hwn yn faes sydd yn gofyn am drafodaeth faith felly codi cwr y llen yn unig a ellir yn yr ymdriniaeth hon.

Dechreuir trwy drafod pa mor amlwg yw'r thema etifeddiaeth yng ngweithiau John Gwilym Jones, yn enwedig yr hyn a elwir yn etifeddeg, sef y nodweddion corfforol a meddyliol a drosglwyddir o'r naill genhedlaeth i'r llall. Yn ail ran yr ysgrif eir ymlaen i drafod etifeddiaeth ddiwylliannol. Yr hyn a olygir wrth etifeddiaeth ddiwylliannol yw'r dylanwadau llenyddol ac adloniannol megis caneuon, ffilmiau a chrefydd a drosglwyddir mewn cymdeithas; ac ystyrir y modd y mae'r etifeddiaeth hon, ynghyd â'r gymdeithas Anghydfurfiol – a godwyd ar seiliau crefydd sefydliadol – yn dylanwadu ar yr unigolyn.

Gellid dadlau bod yr hyn a ystyrir yn etifeddiaeth ddiwylliannol yn cyfateb yn fras i'r amgylchedd sy'n dylanwadu ac yn siapio unigolyn. O dderbyn hynny, gwelir syniadau Darwinaidd o'r modd y mae dyn 'yn gaeth i'w gromosomau'² a'i amgylchedd yn y ddrama a'r straeon byrion. Yn y cyswllt hwn, ystyrir John Gwilym Jones yng nghyd-destun mudiad Naturiolaeth, gan i Ddarwiniaeth effeithio ar ddatblygiad y mudiad ac ysgogi'r duedd i archwilio seicoleg mewn testunau llenyddol a chelfyddydol.

Ymgais yw'r erthygl hon, felly, i gynnig trafodaeth ar agwedd ar weithiau John Gwilym Jones nad ymdriniwyd â hi rhyw lawer yn y gorffennol, gan awgrymu hefyd rai trywyddau ymchwil posibl ar gyfer y dyfodol oherwydd fod cymaint yng ngwaith y gŵr o'r Groeslon sydd eto i'w astudio.

Etifeddeg

Diffinnir 'etifeddeg' yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* fel:

Prïodoledd yn perthyn i fodau organig a bair fod yr epil yn etifeddu natur, cyneddfau a nodweddion corfforol a meddyliol y rhieni neu'r hynafiaid yn gyffredinol o'r naill genhedlaeth i'r llall, tuedd tebyg i atgynhyrchu ei debyg.³

Athroniaeth 'yr hyn sydd yn y gwaed' yw'r hyn a welir, felly, gydag etifeddeg. Athroniaeth a archwilir yn fanwl yn y testunau dan sylw.

¹ Jones, John Gwilym (1976), *Ac Eto Nid Myfi* (Dinbych: Gwasg Gee), t. 8.

² Rowlands, John (1988), *John Gwilym Jones, cyfres Llên y Llenor* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn), t. 45.

³ Thomas, R. J. (gol.) (1950–1967), *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 1252.

Fel y soniwyd eisoes, yr oedd cysyniad ‘etifeddeg’ yn hollbwysig yn namcaniaethau Charles Darwin, fel y gwelir yn ei lyfr *On the Origins of Species* a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1859. Dadl Darwin oedd bod popeth byw, boed ddyn neu anifail, yn mynd drwy broses o esblygiad, a’r hyn sy’n symbylu’r broses honno yw ‘detholiad naturiol’. Deallodd Darwin fod rhai rhywogaethau yn gallu eu haddasu eu hunain i’w hamgylchedd yn well nag eraill, ac wrth wneud hynny yn trosglwyddo’r priodoleddau mwyaf addas i’w hepil.⁴ Felly’r sawl sy’n etifeddu’r nodweddion mwyaf priodol, ac sy’n llwyddo i addasu orau i’r amgylchedd y trigant ynddo, sy’n goroesi:

Darwin’s *On The Origins of Species* (1859) outlined his theory of evolution: that animal species evolve through natural selection. Species are always changing; these changes are transmitted by heredity; and the fittest individuals and species – those best adapted to the environment – survive and reproduce.⁵

Fel y gwyddys, yr oedd damcaniaeth Darwin, mai graddol esblygu a wna pob rhywogaeth, yn chwyldroadol ac yn ddadleuol yn ei dydd, yn enwedig oherwydd ei bod yn herio credoau creiddiol Cristnogaeth. Nid yw dyn bellach yn unigryw, wedi’i greu ar ddelw Duw i ddarostwng y ddaear a llywodraethu ar yr holl anifeiliaid, ond yn hytrach yn greadur sy’n mynd drwy brosesau cyffelyb i bob creadur arall. Yng ngeiriau Richter, ‘*man turned out to be the product of chance, not of design*’.⁶

Esgorodd y syniadau anghristnogol hyn am esblygiad a grym etifeddeg ar fath amgen o feddwl mewn amryw feysydd, ac un o’r rhai amlycaf oedd llenyddiaeth. Roedd y syniad fod pob rhywogaeth, yn arbennig felly’r hil ddynol, dan ddylanwad grymusterau nad oes modd eu rheoli na’u dirnad yn llawn, wedi apelio at lenorion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y sawl a fyddai’n cael eu galw maes o law yn llenorion ‘Naturiolaid’. Gwelwyd dylanwad y wyddoniaeth newydd am esblygiad, etifeddeg a rôl yr amgylchedd mewn ffurfiant rhywogaethau, er enghraifft ar Émile Zola, wrth iddo lunio *Thérèse Raquin* (1867) a *Madeleine Féral* (1868).

Serch hyn, nid Darwin oedd y cyntaf i ymhel â damcaniaethau am eneteg a datblygiad graddol organeddau. Cafwyd theori nid annhebyg gan Jean-Baptiste de Lamarck ynglŷn â thrawsffurfiad rhywogaethau. Pwysleisiai de Lamarck rôl yr amgylchedd mewn esblygiad a dadleuodd y gallai rhywogaeth feithrin nodweddion newydd yn sgil dylanwad ei hamgylchedd. Cyhoeddwyd y syniadau hyn yn ei lyfr swmpus *Philosophie Zoologique* yn 1809.⁷

Yn ogystal â de Lamarck, cafwyd damcaniaethau dyrys ac amrywiol gan Prosper Lucas mewn dwy gyfrol yn 1847 a 1850. Yng ngoleuni geneteg fodern, nid yw syniadau de Lamarck

⁴ Richter, Virginia (2011), *Literature After Darwin: Human Beasts in Western Fiction, 1859–1939* (Hampshire: Palgrave Macmillan), tt. 20–1.

⁵ Wilson, E., a Goldfarb, A. (2004), *Living Theatre: A History*, 4^{ydd} argraffiad (Boston: McGraw-Hill), t. 355.

⁶ Richter, *Literature After Darwin*, t. 19.

⁷ Ibid., t. 22.

na damcaniaethau Lucas yn argyhoeddi, ond roeddent yn chwyldroadol yn eu dydd. Yn wir, syniadau Lucas a ddylanwadodd ar Jules Michelet wrth iddo lunio *L'Amour* (1800), y nofel honno a ysbrydolodd Zola.⁸

Roedd yr holl weithgarwch ym myd geneteg yn ddylanwadol, ac yn sgil syniadau sawl biolegydd a damcaniaethau Darwin, datblygodd y ddrama Ewropeaidd a'r mudiad Naturiolaid. Daethpwyd i ystyried y nofel a'r llwyfan fel cyfryngau i astudio cyflwr dyn wrth atgynhyrchu ei gynefin a'i osod mewn sefyllfaoedd arbennig: ffordd o ddadansoddi'n wyddonol y grymoedd sy'n dylanwadu ar gymeriadau ydoedd, fel y dywed Styan:

The scientific naturalist tried to show that powerful forces governed human lives, forces of which we might not be fully aware and over which we might have little control – the forces of heredity and environment.⁹

Dyna'n wir a geir yn *Ac Eto Nid Myfi* a'r straeon byrion dan sylw; gosod chwyddwydr ar gymeriadau ac astudio'r modd y mae amgylchiadau cymdeithasol, eu rhieni, a'u hetifeddeg yn dylanwadu arnynt. Yn hyn o beth, gellid dweud bod John Gwilym Jones yn etifedd i'r llinach honno o ddramodwyr a llenorion Naturiolaid.

Ac Eto Nid Myfi

Craidd y ddrama *Ac Eto Nid Myfi* yw myfyrdod Huw ar natur ei gymeriad. Yr hyn sy'n ei orfodi i astudio ei hun yw Alis yn gwrthod ei briodi er ei bod yn feichiog. Y rheswm a rydd Alis sy'n peri dryswch i Huw, sef 'Am mai chi ydach chi'.¹⁰ Nid oes ganddi reswm rhesymegol fel y cyfryw, ond y mae ganddi deimlad, ac mae'r teimlad hwnnw, ei greddf, yn drech nag unrhyw synnwyr. Dyna gyfleu athroniaeth John Gwilym Jones fod egwyddorion neu syniadau'n bethau anwadal ond bod grym teimlad, y cariad a'r cas yn dragywydd, ac yn llywio'r modd y mae pobl yn gweithredu.¹¹

Felly, yr hyn a geir yw dyn yn ei ddinoethi ei hun wrth archwilio ei gymeriad ac yn hel meddyliau am y 'llwybrau troellog' a'i harweiniodd at ei sefyllfa bresennol. Egyr y ddrama gyda'r datganiad canlynol:

Peth arswydus ydi fod dyn yn cael ei eni'n fo'i hun a neb arall ... yn unigolyn na fu neb erioed yr union yr un fath ag o o'r blaen ac na fydd 'na neb yn union yr un fath ag o byth eto [...] Er i un ei ddiniwed gysuro ei

⁸ Carter, Lawson, A. (1977), *Zola and the Theater*, adargraffiad (Westport, CT: Greenwood Press), t. 22.

⁹ Styan, J. L. (1981), *Modern Drama in Theory and Practice: Realism and Naturalism*, Cyfrol 1 (Cambridge: Cambridge University Press), t. 6.

¹⁰ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 7.

¹¹ Thomas, Gwyn (1970), 'Holi John Gwilym Jones', *Mabon*, 1 (3), haf, t. 13: 'Pa mor eiddgar bynnag y delir argyhoeddiadau gwleidyddol neu grefyddol – unrhyw “-ol,” yn wir – os mai dibynnu ar resymeg neu feddwl neu ymennydd a wnân nhw, geill amgylchiadau orfodi eu newid. Pethau cyfnod, pethau byrhoedlog ydyn nhw. Ond am gariad a chas, maen' nhw'n dragywydd'.

hun fod y fath beth ag ewyllys rydd a hawl i ddewis, [gŵyr] yn y bôn fod y mymryn ymddangosiadol dewis, y penderfyniadau mawr, yn anorod ufudd i ryw bwerau unbenaethol difater, didostur.¹²

Ymhelaetha ar y pwerau ‘unbenaethol’ hyn drwy grybwyll dylanwad yr ‘Amgylchedd’ sydd megis teyrn ar ei ‘orsedd a ninnau’n ddeiliaid o raid, wedi ein teilwra i’w fesurau manwl’.¹³ Er dylanwad yr amgylchedd, “does dim gwadu ar Etifeddiaeth’ ac, yn wir, hwnnw yw’r grym cryfaf sy’n llywio ein bywydau gan fod pob un yn ‘cael ei eni’n feichiog, yn cario babi siawns ei orffennol’.¹⁴ Mae cymhlethdod Huw ar ddechrau’r ddrama yn atgoffaol o gri nifer o gymeriadau John Gwilym Jones. Cymerer Ted yn *A Barcud yn Farcud Fyth* (1971), er enghraifft, wrth iddo yntau holi beth ydyw a dod i’r casgliad bod grymusterau sydd y tu hwnt i ddirnadaeth dyn. Meddai:

Be’ ydw i? Be’ ydach chi? Be’ ydi pawb? Dim ond dŵr i ffitio’n hyblyg anochel i ffurfiau’r dysglau sydd ar ein cyfer ni, wedi eu paratoi gan ... wel, gan bwy? Duw? Crewr? Chwarennau? Cenedlaethau o hynafiaid? Amgylchedd? Ac os ceisiwch chi ofyn a chwilio, pa mor onest bynnag, ‘does neb i ateb ... dim ond chwerthin aflan, ffaidd.¹⁵

Felly hefyd gymhlethdod Dewi yn *Lle Mynno’r Gwynt* (1958):

’D oes yna ddim y fath beth ag ewyllys. ’D ydi dyn ddim ond cynnyrch ei amgylchedd a’i gyndadau. ’D oes ganddo ddim ewyllys na dewis. ’D ydi’r hyn a alwn ni’n ddewis yn ddim ond effeithiau naturiol, anochel tragwyddoldeb o achosion.¹⁶

Yn wahanol i Ted, y mae elfen gref o stoiciaeth yn perthyn i Dewi ac, o’r herwydd, mae’n derbyn yr hyn na all ei newid; yn yr un modd â Huw. Daw i’r casgliad mai ffrwyth ei etifeddeg a’i amgylchedd ydyw, ‘ac na fedr ei newid ei hun byth bythoedd. Ond fe all newid ei feddwl’.¹⁷ Penderfyna beidio â chymryd ei fywyd gan, yn hytrach, dderbyn ei sefyllfa a’r grymoedd llywodraethol gan nad oes modd eu hosgoi. Nid ei fai ef yw’r ffaeleddau yn ei gymeriad oherwydd fel hynny y’i gwnaed.

Hawdd fyddai rhestru’r enghreifftiau o etifeddeg yn *Ac Eto Nid Myfi*. Dyn byrbwyll a blêr yr olwg oedd ei dad¹⁸ ac felly hefyd yr ymddengys Huw.¹⁹ Â’i fam yn eu casáu, o ochr

¹² Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 7.

¹³ Ibid., t. 8.

¹⁴ Ibid.

¹⁵ Jones, John Gwilym (1971), *Pedair Drama* (Dinbych: Gwasg Gee), t. 148.

¹⁶ Jones, John Gwilym (1958), *Dwy Ddrama* (Dinbych: Gwasg Gee), tt. 55–6.

¹⁷ Rowlands, *John Gwilym Jones*, t. 49.

¹⁸ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 11.

¹⁹ Ibid., t. 50, t. 64.

ei dad y mae Huw wedi etifeddu ei hoffter o nionod: hoffter ag iddo arwyddocâd amgenach erbyn diwedd y ddrama.²⁰ Trafodid yn aml gan bwy y mae Huw wedi etifeddu rhyw nodwedd arbennig; er enghraifft, gofynna'i dad 'ar ôl pwy, tybed, y mae o wedi cael ei dafod', wedi iddynt weld adroddiad ysgol y prif gymeriad.²¹

Yr hyn sy'n ei amlygu ei hun gyda'r enghreifftiau uchod yw grym etifeddeg, a delweddir hynny'n gelfydd yn yr olygfa rhwng Huw a'i nain wrth iddynt drafod peth ymddangosiadol ddi-bwys, sef y llau ym mhen Sami:

NAIN: Sut y gwn i? 'Nabod ei deulu o, yldi.

HUW: O?

NAIN: Llau yn eu penna' nhw o hil gerdd.

HUW: Llau ym mhen ei dad o?

NAIN: Ia, a'i nain o. Fydda'n fiw i mi fynd i chwarae efo hi pan oeddwn i'n hogan bach.

HUW: 'Does gan Sami ddim help, felly, fod llau yn ei ben o, yn nac oes?

NAIN: 'Wn i ddim beth am hynny.²²

Mae sylw olaf Huw yn y dyfyniad uchod yn arwyddocaol gan ei fod yn cyfleu pa mor ddiymadferth yw dyn yn wyneb ei etifeddiaeth. Ac oherwydd nad o ddewis y mae'n etifeddu nodweddion, nid oes modd pennu unrhyw fai arno. Gellid dweud, felly, am eu bod yn gaeth i'w hetifeddeg a'u hamgylchedd, nad yw'r cymeriadau'n llwyr gyfrifol am eu gweithredoedd. Mae'r hyn a ystyrid yn foesol dda a drwg wedi ei gordeddu o'r herwydd. Diau fod nifer o ddramâu a straeon John Gwilym Jones 'wedi [eu] seilio ar y gred Faniehaidd [hon] yng nghydbwysedd y drwg a'r da',²³ ac felly, cymeriadau llwydaidd yw'r sawl a geir.

Gellir cyffelybu'r ffaith fod nain Huw'n ystyried Sami o'r un brethyn â'i deulu oherwydd bod ganddo yntau lau fel ei dad a'i nain, i gyhuddiad Torvald yn nrama Ibsen, *Et Dukkehjem* (*Tŷ Dol*) (1879). Ar ddechrau'r ddrama, dywed Torvald fod Nora'n wastrafflyd ag arian ac awgryma fod yr anallu i drin arian yn y gwaed am fod ei thad yn fethdalwr:

HELMER: [...] Ond dyna'r pwynt groten! Dwyt ti ddim yn gallu. Yn union fel Tada. Doedd ganddo fe ddim synnwyr busnes a does gyda tithe ddim chwaith.²⁴

Delweddir uchod pa mor anochel ydyw i ddyn etifeddu priodoleddau ei deulu, a'r 'awgrym yw fod gwreiddyn na ellir ei ddinistrio i bob nodwedd mewn cymeriad'.²⁵

²⁰ Ibid., t. 20.

²¹ Ibid., t. 37.

²² Ibid., t. 27.

²³ Rowlands, *John Gwilym Jones*, t. 226.

²⁴ Ibsen, Henrik (2003), *Tŷ Dol*, cyfieithiad Siôn Eirian (Caerdydd: Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru), t. 12.

²⁵ Tomos, G., 'Astudiaeth o Ddramâu John Gwilym Jones', traethawd MA, Prifysgol Bangor, Bangor, 1979, t. 123.

Yn ogystal â'r hyn a etifeddodd gan ei rieni, ceir agweddau ar gymeriad Huw na ellir eu priodoli i neb yn arbennig. Deilliannau'r hyn a eilw Gwennan Tomos y 'bersonoliaeth gynhenid'²⁶ sydd â'i thraed yn 'rhwym yng nghyffion rhyw orffennol pell pell' ydyw.²⁷ Enghraifft o hyn yw pan dynna mam Huw sylw at y ffaith na wŷr hi ar ôl pwy y mae ei mab wedi cael y 'straen hunanol' gan nad yw'n nodwedd sy'n amlwg yn ei chymeriad hi na'i gŵr. Mae ymateb Huw i'r sylw hwnnw'n hynod ddadlennol:

Nid gan nhad, nid gan mam. Gan bwy, tybed? Caethwas i bwy oeddwn i?
A 'd oedd dim osgoi cydnabod yn chwerw fod mam, wrth ddweud y gwir
cas, yn fy ngorfodi i wynebu fy natur, i adnabod fy hunanoldeb, fy ngofal
cul drosof fy hun ar draul pawb arall.²⁸

Dyna gyffwrdd â syniadau Carl Gustav Jung fod gan bawb nodweddion sy'n deillio o ryw 'gynneddf arbennig sydd fwyaf goresgynnol a diffiniedig ym mhob un ohonom'.²⁹ Mae'r haen gynhenid hon, 'yr anwybod cyffredinol', yn gyffredin i bob unigolyn ac yn bod ar lefel sy'n hŷn ac yn ddyfnach na'u hanwybod personol. Y modd yr ymddengys yr haen hon ym mhersonoliaethau pobl sy'n unigryw. Er bod yr un nodweddion i'w cael ym mhawb, erys nifer ynghwsg yn anwybod rhai unigolion tra bo eraill yn arddangos y nodweddion hynny. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw nad yw'r haen hon o seice'r unigolyn yn deillio o brofiadau personol ond, yn hytrach, yn anwybod cynhenid sydd wedi ei drosglwyddo ar hyd y cenedlaethau: 'Haen a etifeddir ydyw'.³⁰

Felly, gallasai mam a thad Huw fod wedi arddangos y nodwedd hunanol hon gan ei bod yn rhan o'r anwybod cynhenid, ond ni ddigwydd hynny. Huw yn unig sy'n nodweddu'r 'straen hunanol' dieithr hwnnw.

Ceir enghraifft nid annhebyg pan ddywed Wil fod Huw'n rhy groendenau, ond erbyn y rhan hon o'r ddrama, sylwn fod Huw wedi dechrau derbyn y nodweddion hyn o'i gymeriad:

HUW: Hwyrach fy mod i ... ond fel'na'm gwnaed i, yntê?³¹

Deuir i ddeall nad oes rhyddid diamodol i unigolyn a'i fod wedi'i ddal gan lyffetheiriau ei etifeddeg a'i bersonoliaeth gynhenid. Yr awgrym yw fod llwybrau troellog ei fywyd eisoes wedi'u lled-osod ers ei eni. Caiff y syniad hwn ei grisialu orau gan Morgan Llwyd yn *Hanes Rhyw Gymro* (1954), pan ddywed: 'Dydi o'n rhyfedd meddwl fod yr ŷd i gyd yn yr eginyn cyn ei roi'n y ddaear o gwbl?³²

²⁶ Ibid., t. 122.

²⁷ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 68.

²⁸ Ibid., t. 67.

²⁹ Jones, E. J. Eurfyl (1958), *Jung*, cyfres Y Meddwl Modern (Dinbych: Gwasg Gee), t. 27.

³⁰ Jung, C. G. (1959), *The Archetypes and the Collective Unconscious* (London: Routledge), t. 43.

³¹ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 71.

³² Jones, J. G. (1964), *Hanes Rhyw Gymro* (Liverpool: Cymdeithas y Ddrama Gymraeg Coleg y Brifysgol Bangor), t. 10.

Ond y mae deall hyn yn gwbl allweddol i ddyn allu dysgu dygymod â'r hyn ydyw ac ildio i'r 'Fi anorfod'.³³ Digwydd hynny i Huw. O dderbyn ei sefyllfa, ac o adnabod ei natur, ei dueddiadau, ei gryfderau a'i ffaeledau, a chydag arogl cymod y nionod, gall fyw. Llwyddda i ganfod rhyw gymesuredd yn ei gymeriad. Yn wir, gellid awgrymu i Huw fod drwy broses nid annhebyg i'r hyn a alwodd Jung yn ymunigoli (*individuation*), sef cyfuno pegynnau ei gymeriad, yr anwybod gyda'i ymwybod, a holl baradocsau ei gyfansoddiad, gan lwyddo i fod yn unigolyn yng ngwir ystyr y gair a bodloni ar yr hyn ydyw.³⁴

Nid yw John Gwilym Jones am funud yn awgrymu fod bywyd yn esboniadwy neu'n hawdd ei fyw – yn wir mae'i bwyslais yn gyson i'r gwrthwyneb – ond y mae'i waith yn ymchwil barhaus am gymod rhwng dyn a'i amgylchiadau, ac mae'i funudau mawr bob amser yn cofio ildio i ddirgelwch gogoneddus byw a bod.³⁵

Felly, er iddo, i ryw raddau, 'ymunigoli', nid yw argyfwng dirfodol Huw yn cael ei ddatrys. Yn hytrach, yr hyn a welir yw Huw'n dygymod drwy dderbyn yr agwedd ddirfodol ar ei fyd ac yn bodloni byw gyda hi.

'Nychdod'

Darlunia'r stori 'Nychdod' y modd y cafodd pianydd dawnus ei daro'n wael a'i gaethiwo i'w wely. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw fod Meredydd yn dioddef salwch yn yr un modd ag y dioddefodd ei dad o'i flaen, ac ymddengys fod y dynged hon yn anochel oherwydd bod tueddiad o iechyd gwael yn nheulu ei dad.

Gwelir cymhariaeth gref rhwng yr hyn a ddywed rhieni Elin Gruffydd, mam Meredydd, yn y stori hon â'r hyn a ddywed nain Huw am Wil yn *Ac Eto Nid Myfi*; 'Nabod ei deulu o'. Gallai rhieni Elin Gruffydd ragweld yr hyn a ddigwyddai pe byddai'n priodi mab y Garreg Wen oherwydd yr hyn a nodwedda'r teulu:

Yr oedd hi'n bymtheg ar hugain pan briododd hi ag William Gruffydd y Garreg Wen, a phriododd yn erbyn ewyllys ei rhieni.

'Mae'r dyn yn llawn dyciâe, a'i deulu-o felly o'i flaen.'

'Meddwl, 'merch-i, fe fydd gennyti ti blant.'

Ond ofer fu holl ymdrechion ei thad, ofer holl ymbiliadau ei mam; canys onid William Gruffydd oedd berchen y Garreg Wen, ac oni adawodd ei dad, a'r hen lanc ei ewythr, gannoedd o arian ar eu hól iddo?³⁶

³³ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 29.

³⁴ Meier, C. A. (1977), *Personality: The Individuation Process in Light of C. G. Jung's Typology*, cyfieithiad Roscoe, David, N. (Einsiedeln, Y Swistir: Daimon), tt. 81–118.

³⁵ Rowlands, *John Gwilym Jones*, t. 23.

³⁶ Jones, John Gwilym (1931), 'Nychdod', *Y Ford Gron*, 1 (8), Mehefin, 12.

Mae'r stori hon hefyd yn atgoffaol o'r ddrama *Gengangere* (*Dychweledigion*) (1881) gan Ibsen, yn enwedig y syniad o drosglwyddo clwy o'r naill genhedlaeth i'r llall. Drwy gydol *Dychweledigion*, dengys Oswald gyfatebiaethau i'w dad. Tynna Manders yr offeiriad sylw at y ffaith fod y ffordd y deil Oswald y cetyn a'r modd y saif yn y drws yn ymdebygu i Gapten Alving,³⁷ ac wrth i'r ddrama fynd rhagddi gwelir etifeddeg yn chwarae ei rhan wrth i Oswald nychu a datgelu ei fod wedi etifeddu afiechyd gan ei dad. Yn ddiau, ceir cyfatebiaeth gref rhwng 'Nychdod' a *Dychweledigion*, wrth i Meredydd etifeddu natur wan ei dad a dioddef o'i herwydd. Yn wir, gellid cymhwyso teimladau Elin Gruffydd i Mrs Alving:

bellach nid oedd dim iddi hi ond ceisio gwneuthur ei gorau i'r bachgen na ddylai erioed fod wedi ei eni.³⁸

Delweddir dylanwad etifeddeg yn 'Nychdod' yn ogystal gyda'r 'cwilt *patch*' a fu yn y teulu ers cenedlaethau, a chyda marwnad Meredydd i'w dad, sy'n crogi uwch ben ei wely. Mae'r naill yn cyfleu'r syniad o drosglwyddo priodweddau rhwng cenedlaethau ac effaith teulu ar unigolyn, a'r llall yn dynodi'n llythrennol fod yr ysgrifen ar y mur parthed y pianydd ifanc. Yr hyn a ddelweddir, felly, yw gafael a grym etifeddeg yn ei hamrywiol ffyrdd, a chyda hynny bwysleisio nad oes modd ei hosgoi.

Etifeddiaeth ddiwylliannol

Ystyriwyd eisoes arwyddocâd etifeddeg fel grym dylanwadol ar ddatblygiad neu ddirywiad cymeriadau, a throir yn awr i ystyried y math o etifeddiaeth sy'n rhan o ddiwylliant cymeriadau'r ddrama a'r straeon byrion. Trafodir y modd y cafodd magwraeth y cymeriadau eu dylanwadu gan ffactorau amrywiol eu haelwydydd a'u cymdeithas, yn ogystal ag ystyried y modd y defnyddiodd John Gwilym Jones wahanol fathau o etifeddiaeth ddiwylliannol at ddibenion gwahanol. Gan fod hwn yn fath o etifeddiaeth sydd mor eang, canolbwyntir yn yr adran hon ar ddylanwad llenyddiaeth, syniadau, traddodiadau, crefydd, ac addysg.

'Y Briodas'

Prif ergyd stori 'Y Briodas' yw'r ddeuliaeth rhwng ymarweddiad cyhoeddus y cymeriadau a'u meddyliau cuddiedig. Yr eironi pennaf yw bod y gwasanaeth priodas yn ddathliad fod dau gariad yn uno ond y gwir yw fod pob un yn y capel yn unigolion cwbl ar wahân; yn rhydd i feddwl am bethau na fyddent yn beiddio eu datgan ar goedd. Yn wir, fel y dywed John Rowlands:

Agweddau ar yr un thema sy'n cyniwair trwy storïau *Y Goeden Eirin*: dirgelwch hanfodol bywyd yr unigolyn, a hynny'n cael ei ddwysáu gan anghysondeb parhaus ei bersonoliaeth ei hun, a'r tyndra rhyngddo ac

³⁷ Ibsen, Henrik (1920), *Dychweledigion*, cyfieithiad Jones, T. Gwynn (Abertawe: Morgan & Higgs), t. 28.

³⁸ Jones, 'Nychdod', 13.

eraill, ac yn y pen draw ei alltudiaeth oddi wrth bawb arall er gwaetha'i agosatrwydd ymddangosiadol.³⁹

Pwysleisir nad oes modd adnabod neb yn llawn ac y ceir agendor rhwng pob un. Pwysleisir yn ogystal fod y cymeriadau'n teimlo rheidrwydd i fabwysiadu math o bersona i allu cyd-fyw ag eraill. Ffordd o gael cyfaddawd 'rhwng yr unigolyn a disgwyliadau cymdeithas' ydyw.⁴⁰ Dyna gyffwrdd ag agwedd arall ar John Gwilym Jones, sef ei fod yn tosturio wrth ei gymeriadau yn eu rheidrwydd i ragrithio oherwydd y rhaniadau alaethus hyn.⁴¹ Gan na allant fod yn gwbl agored eu ffyrdd, y mae'n rhaid iddynt feddu ar 'ymarweddiad cymdeithasol' sydd yn aml yn tynnu'n groes i'w gwir anian, a chanlyniad anochel hynny yw rhagrithio.

Yn y stori, gwelir y modd y meddylia'r cymeriadau, yn eu tro, am eu hofnau, eu dyheadau a'u ffantasiau. 'Effaith y fath batrwn', meddai R. M. Jones, 'yw dad-ramanteiddio'r achlysur, ac ymholi o'i gwmpas mewn modd braidd yn glinigol'.⁴² Yn wir, ni cheir unrhyw weithgarwch rhwng y cymeriadau yn y capel ond clywir eu barn am ei gilydd yn glir, a dyna eto gyfleu'r agendor anorchfygol rhwng pob un. Dangos unigolyddiaeth y saith cymeriad a wna John Gwilym Jones wrth rannu'r stori'n adrannau ond gwelir yn ogystal y modd y mae ambell gylch yn gorgyffwrdd ag un ei gymydog.⁴³

Er bod pob un ohonynt yn aelodau o'r gymdeithas Anghydfurfiol ac yn byw, yn ymddangosiadol beth bynnag, yn unol â daliadau'r gymdeithas honno, y mae eu meddyliau a'u teimladau dyfnaf yn dadlennu pa mor wahanol mewn gwirionedd yw pob un. Gwnaeth John Gwilym Jones ddefnydd gofalus o wahanol fathau o etifeddiaeth ddiwylliannol yn y stori hon er mwyn amlygu'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng y cymeriadau.

Enghraifft ddiddorol yw'r hyn a geir gyda John Llywelyn a Lizzie Mary. Meddwl am ei hoff lyfrau, ei ddyheadau ac am feirniadaeth lenyddol a wna'r priodfab yn ystod y seremoni. Clywir ei farn yn ogystal am y briodferch ac mae hynny'n cyfleu'r cyferbyniad rhwng y ddau ohonynt. Teimla John Llywelyn ei fod yn fwy diwylliedig a llengar na'r briodferch, ac eto, er gwaethaf hynny, mae'n ei charu:

Meddwl llyfrau ceiniog Saesneg a phrint bras papurau newydd a ffilmiau Hollywood sydd gan Lizzie Mary yn aml, 'rwy'n fodlon cyfaddef. Ychydig o amcan sydd ganddi am wleidyddiaeth a llenyddiaeth, ac nid yw Adwaith a Gwrthryfel yn y naill fel y llall yn meddwl dim byd iddi hi. Ond y hi ydi fy nghariad i, a dyna sy'n bwysig.⁴⁴

³⁹ Rowlands, John (1975), 'John Gwilym Jones', yn Rees, D. Ben (gol.), *Dyrnaid o Awduron Cyfoes* (Pontypridd: Cyhoeddiadau Modern Cymreig), t. 161.

⁴⁰ Jones, *Jung*, cyfres Y Meddwl Modern, t. 27.

⁴¹ Rowlands, 'John Gwilym Jones', yn *Dyrnaid o Awduron Cyfoes*, t. 161.

⁴² Jones, R. M. (1975), 'Easily Freudened', yn Jones, R. M. (gol.), *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (Llandybïe: Christopher Davies), t. 253.

⁴³ Enghraifft o hyn yw pan fo Gwen, y forwyn briodas, yn dyheu am i ddyn fel Galâth ddod i'w chipio, mae Arthur, heb yn wybod i Gwen, yn hoff iawn ohoni ac yn ei ddychmygu ei hun yn mynd 'fel Peredur ar antur' i'w hennill. Gw. Jones, John Gwilym (1946), 'Y Briodas', yn Jones, John Gwilym, *Y Goeden Eirin* (Dinbych: Gwasg Gee), tt. 13-16.

⁴⁴ Ibid., tt. 7-8.

Yng nghylch y briodferch, gwelir meddyliau John Llywelyn am ei gariad yn cael ei gadarnhau. Mae Lizzie Mary, sydd wedi'i swyno gan rwysg y gwasanaeth, yn ei dychmygu ei hun mewn amryfal sefyllfa. Gesyd ei hun yn sefyllfa'r Ferch o Gefn Ydfa gan deimlo ei bod wedi ei gorfodi i briodi, cyn dychmygu mai un o sêr y ffilmiau megis Clark Gable yw'r darpar â'r wrth ei hochr. Mae hefyd yn dychmygu ei bod yn priodi rhyw â'r cefnog a fyddai'n ei dyrchafu'n 'Lady Elizabeth Bumford'. Nid yw beirniadaeth lenyddol ar gyfyl ei meddwl. Ond wedi'r holl ramantu, daw i dderbyn ei ffawd:

'Rydw i'n priodi un 'r un fath â mi fy hun, heb na'm gorfodi na theimlo dim ond ias arferol unrhyw ferch ar ddydd ei phriodas.⁴⁵

Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod y ddau'n credu eu bod yn priodi 'un 'r un fath' â hwy eu hunain, ond y gwrthwyneb yw'r gwir. Mae'r enghreifftiau o etifeddiaeth lenyddol ac adloniannol sy'n apelio at y ddau'n wahanol, ac yn fodd o gyfleu'r agendor rhyngddynt. Ond dengys yn ogystal, er nad ydynt o'r un anian nac yn rhannu'r un chwaeth lenyddol, er enghraifft, bod rhywbeth sy'n eu hatynnu at ei gilydd. Mae'r teimlad yn drech na'r deall unwaith yn rhagor.

'Y Goeden Eirin'

Yn amlach na pheidio, 'derbynnir penderfyniadaeth gymdeithasol yn y storïau hyn, er cymaint o anniddigrwydd a deimla'r cymeriadau yn hualau'r confensiynau y gorfodir hwy i'w derbyn',⁴⁶ ond ceir ambell gymeriad yn beirniadu'r gymdeithas honno, ei daliadau, a'i chonfensiynau. Un sy'n amlwg ei wrthwynebiad yw Wil yn 'Y Goeden Eirin'.

Wrth i Sionyn fyfyrar ar y goeden eirin a'r modd y daeth yr efeilliaid yn ddau unigolyn ar wahân wedi i Sionyn gwmpo a thorri ei goes, daw i sylwi ar y gwahaniaethau rhyngddo a'i frawd. Er eu bod wedi eu magu ar yr un aelwyd, wedi etifeddu'r un syniadau gan eu rhieni, ac wedi eu trwytho yn yr un traddodiadau, y mae agwedd y ddau tuag at y fagwraeth honno'n dra gwahanol. Yr enghraifft amlycaf o hyn yw'r modd y mae Wil yn beirniadu'r syniadau stoc a'r ystrydebau sy'n nodweddu'r gymdeithas y'i magwyd ynddi; syniadau ac ystrydebau nad oedd Sionyn wedi eu hystyried o ddifrif cyn hynny. Meddai Wil:

'Does gen' i fawr o 'fynnedd [*sic*], mi wyddost Sionyn, efo'r bobl yma sy'n gwneud parseli o genhedloedd, ac yn dweud bod Ffrancwyr yn anfoesol ac Almaenwyr yn filitaraidd, ac Iddewon yn usuriaid, a Saeson yn drahaus, a Sgotiaid yn gybyddlyd. Mae Cymru'n ddau barsel ganddynt fel arfer.⁴⁷

Dyna nodweddu'r tyndra a geir yn aml rhwng etifeddiaeth unigolyn a'i etifeddeg.

⁴⁵ Ibid., t. 9.

⁴⁶ Rowlands, *John Gwilym Jones*, t. 26.

⁴⁷ Jones, 'Y Goeden Eirin', t. 23.

Mae dylanwad magwraeth, yn hyn o beth, yn hynod ddylanwadol a theg fyddai dweud mai aelwydydd matriarchaidd yw'r hyn a geir gan amlaf. Gwelir hyn yn 'Y Goeden Eirin' gydag agwedd y fam tuag at ei meibion. Sylwer mai 'cnawd o'i chnawd hi' yw'r efeilliaid.⁴⁸ Teimlir mai cymeriad ymylol yw'r tad; un sydd wedi ei wthio i'r cysgodion. Yn wir, ymddengys y nain yn ffigwr amlycach ym magwraeth y bechgyn na'u tad. Mae hyn yn nodweddiadol o wragedd John Gwilym Jones. Gwragedd cryfion ydynt sy'n amlwg ym mywydau eu plant tra bo'u gwŷr yn ddynion sydd wedi arfer cadw'n dawl neu'n ffigyrau absennol. Meddylier am y fam ddideimlad yn 'Cerrig y Rhyd' er enghraifft, a'r disgrifiad cyntaf a geir ohoni gan Absalom: 'Gwraig laodesaidd oedd mam'.⁴⁹

Nodwedd arall o'r mamau hyn yw eu bod yn tueddu i fod yn wragedd gorthrymus a gellid awgrymu mai ymgorfforiad o'r etifeddiaeth ddiwylliannol Anghydffurfiol ydynt. Yr enghraifft amlycaf o fam sy'n ymgorfforiad, neu'n wir, yn gynnrych safonau a daliadau'r gymdeithas Anghydffurfiol, yw mam Huw yn *Ac Eto Nid Myfi*. Yng ngeiriau John Rowlands, 'Gwraig galed o rinwedd yw hi, piwritanaidd a selog yn y capel, a does gan Huw ddim dewis ond plygu i'w hewyllys'.⁵⁰

Ac Eto Nid Myfi

Effeithiwyd Huw yn ddirfawr gan fagwraeth gan fam gadarn a oedd yn gyndyn o fynegi ei theimladau, a thad a oedd yn gyson absennol, gan ei lenwi â phob math o bryderon ac ofnau. Nid oedd gobaith lleddfu ei bryderon pan oedd yn iau oherwydd natur Galfinaidd ei fam. Yr hyn a welid yn aml yw'r tyndra yng nghymeriad Huw a hynny'n rhannol oherwydd dylanwad ei fagwraeth a'i etifeddiaeth ddiwylliannol, yn enwedig y wedd grefyddol.

Byddai'n mynychu'r capel, nid o argyhoeddiad crefyddol, ond oherwydd ei fod wedi ei fagu'n gwneud hynny. Mae'r capel felly'n rhan annatod o'i gefndir ac yn ddylanwad cyson ar ei gymeriad, ond sylwir o oed ifanc nad oes gan Huw wir ddiddordeb mewn crefydd na'r etifeddiaeth Anghydffurfiol honno. Mae'n well ganddo ddarllen am anturiaethau *Gwyliaid Cochion Mawddwyn* na '[ch]lwydda' *Trysorfa'r Plant*.⁵¹ Yr argraff a geir yw fod yr etifeddiaeth lenyddol yn gallu cynnig dihangfa a hynny ar draul yr etifeddiaeth grefyddol. Cyflëir diffyg diddordeb Huw mewn crefydd yn ogystal yn y modd y mae ef a Wil yn 'ymddiddan' â'i gilydd drwy ddynwared y bobl a glywsant droeon yn dadlau mewn seiat.⁵²

Gwyddys bod Huw'n anffyddiwr diamheuol ond gwelir paradocs yn ei gymeriad wrth iddo ddyfynnu'n gyson o'r Beibl a chanu'r emyn ar lan bedd ei dad.⁵³ Wedi dweud hyn, ni ellir datgan bod canu emynau a dyfynnu adnodau'n arwydd o ragrith oherwydd cofir am

⁴⁸ Ibid., t. 24.

⁴⁹ Idem., 'Cerrig y Rhyd', *Y Goeden Eirin*, t. 60.

⁵⁰ Rowlands, John (2005), *John Gwilym Jones: Amrywiadau Enigmatig* (Bangor: Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru Bangor), t. 19.

⁵¹ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 17.

⁵² Gw. Ibid., tt. 21–3.

⁵³ Gw. Ibid., t. 61.

hoffter Huw o sain geiriau. Yr ymdeimlad o emosiwn wrth rin y geiriau yn hytrach nag argyhoeddiad crefyddol sydd wrth wraidd y duedd hon yng nghymeriad Huw.

Ni ellir gwadu ei ddiffyg cred ond teimlir bod y diwylliant crefyddol hwn yn fwy dylanwadol ar Huw na'i anffyddiaeth. Yn wir, yr hyn sy'n ei achub rhag cymryd ei fywyd yw clywed alaw o'i blentyndod, '*I know that my Redeemer Liveth*', yn cael ei chanu gan wraig y llety. Unwaith yn rhagor, mae'n rhaid pwysleisio nad yw'n derbyn diwinyddiaeth y gân ond mai'r atgofion a gysyllta â hi sy'n ei achub:

[A]rwyddocâd teimladol sydd i'r cyfan, ac mae'i orffennol yn llifo'n ôl ac yntau'n dod ato'i hun am ei fod yn gwybod ei fod yn 'perthyn'.⁵⁴

Difyr yw nodi y gellid ystyried digwyddiad arwyddocaol yn Act I mewn dwy ffordd dra gwahanol. Wedi i fam Huw ei ddal yn darllen *Gwylliaid Cochion Mawddwy* ar y Sul, cydia yn y Beibl a darllen Salm 100 er mwyn pwysleisio sancteiddrwydd y Saboth. Gellid awgrymu, efallai, fod John Gwilym Jones wedi dewis y Salm arbennig hon oherwydd ei bod yn mynegi bod dyn yn gynnrych grymoedd nad oes modd eu rheoli na'u dirnad. Ystyrier yr adnod hon yn enwedig:

Efe a'n gwnaeth ac nid ni'n hunain. Ei bobl ef ydym a defaid ei borfa.⁵⁵

Ar yr olwg gyntaf, datganiad o gredo y dylid ymlafnio i fyw yn ôl ewyllys Duw ydyw ond tybed a oes arwyddocâd amgenach i hyn? Ai 'meddwl agnostiaidd [*sic*] gwyddonol' John Gwilym Jones, sy'n 'darganfod y rhod neu ffawd ar newydd wedd mewn Etifeddeg' ac amgylchedd, a geir yma?⁵⁶ Os felly, y mae'r ffaith fod y fam yn dewis y salm hon yn gwbl eironig gan fod syniadau agnostig yr awdur a'r prif gymeriad, fod dyn yn gynnrych ei etifeddeg a'i amgylchedd, yn mynd yn groes i'w chred sylfaenol mai Duw a greodd dyn yn Eden.

Darlunnir drwy gydol y ddrama fod y 'meddwl Calfinaidd yn dal i weithredu mewn termau cymdeithasol yn hytrach na thermau crefyddol'.⁵⁷ Mae hyn yn amlwg pan ystyrir y modd y mae rhai o'r cymeriadau'n gwrthod trafod elfennau cnawdol. Osgoi sôn rhagor am 'epilio' a wna'r nain, ac yn un o olygfeydd mwyaf dirdynol y ddrama, rhoi 'clustan' i Huw a wna'i fam am iddo ynganu gair anwedus yn gysylltiedig â rhyw yn ei chlyw.⁵⁸ Mae i hyn oblygiadau pellgyrhaeddol wrth i Huw, heb iddo wir ddeall y rhesymau y tu ôl i'r fath agwedd, deimlo mai peth aflan yw'r corff a bod ei ddyheadau, o'r herwydd, yn ddrwg ac yn ffaidd. Delweddir dylanwad difaol y gymdeithas Anghydfurfiol yn hyn o beth. Ond er ei

⁵⁴ Rowlands, *Llên y Llenor*, t. 49.

⁵⁵ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 19.

⁵⁶ Stephens, Elan Closs (1988), *Y Canol Llonydd: Astudiaethau Theatr Cymru 5* (Cricieth: Cymdeithas Theatr Cymru), t. 9.

⁵⁷ Ibid., t. 9.

⁵⁸ Gw. Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 31.

ffieidd-dod, y mae Huw yn ysglyfaeth i'w reddfau a daw eraill i sylwi ar y ddeuoliaeth hon, er enghraifft, sylw Alis yw:

Ofn sôn yn blwmp ac yn blaen am betha', ond yn goblyn o barod i'w gwneud nhw, yntê ... yntê?⁵⁹

Pryd bynnag y mae'n ymroi i'w deimladau nwydus gall deimlo'r 'glustan' o'r newydd, yr hyn sy'n symboleiddio'r fagwraeth Anghydfurfiol honno.⁶⁰ Ystyrier ymhellach yr ymgom ddadlennol hon:

HUW: Be 'dach chi'n feddwl?

ALIS: Credu dim ac eto gywilydd eu gwneud nhw.

HUW: Cywilydd?

ALIS: Ia, cywilydd. Dyna'r gair 'roeddach chi ofn ei wynebu o ... y peth sy'n dwad yn sydyn ... a wyddoch chi ddim o ble ... ond nad oes 'na ddim atal arno fo.

HUW: On'd oes gynnoch chi ddim cywilydd?

ALIS: Ddim o gwbl ... ddim iot. Pam y dylai neb fod gywilydd o neud petha' mor naturiol?⁶¹

Mae'n werth crybwyll awgrym Mihangel Morgan yn y cyswllt hwn, sef bod Huw, mewn gwirionedd, yn hoyw, ac mai dylanwad ei etifeddiaeth ddiwylliannol, gonfensiynol, sy'n anfoddog i dderbyn perthynas rhwng dau o'r un rhyw sy'n achosi iddo ddioddef math o argyfwng dirfodol yn y ddrama.⁶² Dyna'r rheswm hefyd pam fod Alis yn gwrthod ei briodi a pham fod Huw yn datgan sylwadau megis, 'Gorfod byw dau fywyd, un ufudd i blesio mam ... ac un twyllodrus i'm plesio fy hun'.⁶³ Mae hon yn ddamcaniaeth ddiddorol iawn ac yn un sy'n werth ei harchwilio'n fanwl eto mewn astudiaeth lawnach.

Yr un dylanwad – ei '[f]lagwrfa' a'i 'holl reddfau' – sy'n peri i Huw ofyn i Alis ei briodi, am 'mai priodi ydi'r peth anrhydeddus'.⁶⁴ Byddai geni plentyn siawns yn siŵr o dynnu anfri ar Huw a'i deulu. 'Ond nid yw carwriaeth Alis a Huw yn un syml ac amhroblematig' fel y gwelir uchod. 'Merch naturiol, anghymleth yw hi, sy'n wrthgyferbyniad i'w ansicrwydd problemus ef'⁶⁵ ac oherwydd ei anallu i gael perthynas gyflawn â merch, gwrthyd Alis ei briodi. Dyna'n ogystal fynegi beiddgarwch cymeriad Alis wrth iddi fynd yn groes i ddisgwyliadau'r gymdeithas gan gadw'n driw i'w greddf.

⁵⁹ Ibid., t. 56.

⁶⁰ Mae'r agwedd sy'n ystyried pethau cnawdol a rhywiol fel pethau aflan ac yn esgor ar euogrwydd dwys yn nodweddiadol o amryw gymeriadau gwrywaidd John Gwilym Jones, megis Peredur yn *Hynt Peredur* a Gwyn yn *Y Tad a'r Mab*.

⁶¹ Ibid., t. 59.

⁶² Morgan, 'Rhai themâu, motiffau a chymeriadau yng ngwaith John Gwilym Jones', tt. 176–83.

⁶³ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 41.

⁶⁴ Ibid., t. 9.

⁶⁵ Rowlands, *John Gwilym Jones: Amrywiadau Enigmatig*, t. 20.

Mae modd ystyried ffeidd-dod Huw tuag at ryw hefyd fel adlais o agwedd Arthur yn ‘Y Briodas’; gweinidog ifanc, ynysig, sy’n ymlafnio i fod yn bur ei ffordd a’i ymarweddiad ond sydd hefyd yn ysglyfaeth i deimladau chwantus. Wrth deimlo’r chwantau hynny, teimla’r goler yn gwasgu:

Pam mae’n rhaid i mi fod yn filyn myharen o sancteiddrwydd ac anlladrwydd? Pam na allaf fod un ai’n gorff i gyd neu’n enaid i gyd? Pam na all fy nwydau i gael eu rhaff heb nerth ataliol. Dy anadl einioes? Pam na all fy enaid neidio a dawnio yn rhydd oddi wrth lyffethair fy mlysiau? Pam na allaf fod yn gorff-enaid ac yn enaid-gorff, y ddau yn un fel gair cyfansawdd? Yr un i lareiddio’r naill a’r naill i fywiocáu’r llall?⁶⁶

Y mae’r ymholi dirfodol a’r ymrafael mewnol hwn sy’n nodweddu amryw o’r cymeriadau yn arwyddo, fel y dywed Mihangel Morgan, mai ‘llenor modernaid [...] yw John Gwilym Jones, a chyflwr dyn “heddiw” yw ei faes, a diau fod serch yn rhywbeth a heintwyd gan unigedd paradocsaid heb fawr o wahaniaeth ym mha gyfnod y darluniwyd y cariadon’.⁶⁷

Mae nifer helaeth o’r cymeriadau, yn enwedig y mamau, hefyd yn awyddus i’w plant ‘ddod ymlaen’ a llwyddo ym myd addysg.⁶⁸ Yn ogystal â’r capel, hon yw elfen bwysicaf eu magwraeth. Gellir rhannu’r math hwn o etifeddiaeth i ddau gategori sydd yn dylanwadu ar ei gilydd. Y naill yw’r addysg deuluol a gaiff Huw ar lin ei nain a’r llall yw’r addysg ffurfiol a gaiff gan y wladwriaeth.

Dysgodd Huw am ei etifeddiaeth lenyddol, am hen ganeuon gwerin a chwedlau’r ardal gan ei nain.⁶⁹ Yn ychwanegol at hynny, mae ei fam yn awyddus iddo ehangu ei wybodaeth felly cred ei bod yn bwysig iddo lwyddo yn ei arholiadau a mynd i’r coleg. Mewn gwirionedd, y mae’r awydd i’w mab lwyddo yn ymddangos yn dipyn o obsesiwn gan y fam a daw tad Huw i sylwi ar awydd obsesiynol ei wraig:

TAD: Mi ellwch chi roi gormod ar ei ‘sgwydda’ fo ... disgwyl gormod ganddo fo.⁷⁰

O gofio’r fath bendantrwydd, y mae’n dor-calonn i’r fam pan fo Huw’n gadael y coleg. Yn wir, bron na theimlir ei bod yn gofidio’n fwy am i’w mab daflu ei addysg nag am iddo genhedlu plentyn siawns.

Yn ddiddorol ddigon, gwelir yma barhad o thema a oedd i’w chael yn yr hen ddramâu cegin, sef yr arwr ifanc, deallus, y cyntaf yn ei genhedlaeth yn ‘cael coleg’. Yr hyn a alwodd

⁶⁶ Jones, ‘Y Briodas’, tt. 15–16.

⁶⁷ Morgan, Mihangel, ‘Rhai themâu, motiffau a chymeriadau yng ngwaith John Gwilym Jones’, tt. 132–3.

⁶⁸ Am drafodaeth dreiddgar ynglŷn â pherthynas y mamau a meibion yng ngweithiau John Gwilym Jones, gweler: Morgan, ‘Rhai themâu, motiffau a chymeriadau yng ngwaith John Gwilym Jones’, tt. 39–129.

⁶⁹ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, tt. 18–20.

⁷⁰ Ibid., t. 32.

Saunders Lewis, ‘*nouveau riche*’ y gyfundrefn addysg.⁷¹ Er hyn, mae cymeriadau John Gwilym Jones yn ymateb mewn modd tra gwahanol i gymeriadau’r gegin gefn. Cymerer Emrys, *Beddau’r Proffwydi* (1913) gan W. J. Gruffydd, er enghraifft.⁷² Wedi derbyn addysg a phrofi trybini bywyd, dychwelyd a wna i achub ei rieni ac arwain y gymdeithas at ddyfodol gwell gydag Ann wrth ei ochr. Y gwrthwyneb yw’r hyn a welir gyda meibion dramâu parlwr John Gwilym Jones wrth iddynt deimlo’r disgwyliadau cymdeithasol sydd ynghlwm wrth dderbyn addysg yn egr o feichus.

Yn y cyswllt hwn, gwelir yn eglur ddigon yn *Ac Eto Nid Myfi*, fel yng ngweithiau eraill John Gwilym Jones,⁷³ elfen arall sy’n mynd yn ddyfnach nag etifeddeg ac etifeddiaeth ddiwylliannol, sef yr argyfwng dirfodol ‘fod dyn yn cael ei eni’n fo’i hun a neb arall’.⁷⁴ Mae’r elfen hon yn un sy’n gwahaniaethu rhwng brodyr a chwirydd o’r un groth ac o’r un cefndir diwylliannol, ac yn ddimensiwn arall ar argyfwng bodolaeth amryw gymeriadau dramâu, nofelau a straeon byrion John Gwilym Jones.

Yn hyn o beth, gellir cydsynio â datganiad Mihangel Morgan, mai ‘dirfodwr wrth reddf’ yn edrych ar ei ‘gymdeithas a’i oes’ a’i fywyd ei hun oedd John Gwilym Jones.⁷⁵ Mae ei gymeriadau yn rhai crynion, amlweddog ac â chryn ddyfnder seicolegol, ac amryw ohonynt yn cael eu llethu gan y cwestiynu dirfodol ynghylch eu hunaniaeth, eu lle yn y byd, a’r hyn sy’n ddisgwyliedig ohonynt gan eraill. Yn yr ‘argyfwng gwacter ystyr’ hwn, ys dywed J. R. Jones, gwelir lled-gyfatebiaeth rhwng y llenor o’r Groeslon a rhai meddylwyr Ewropeaidd yr ugeinfed ganrif, megis yr athronydd o Ffrancwr, Albert Camus. Yn ei *Le Mythe de Sisyphe* (*Chwedl Sisypheus*) (1942), er enghraifft, dywed Camus mai’r cwestiwn ynglŷn â humanladdiad yw prif broblem athronyddol dynoliaeth: gan nad yw’r byd yn eglur, oni ddylid cyflawni humanladdiad?⁷⁶ Dyma gwestiynu sy’n nodweddiadol o un agwedd ar Theatr yr Abswrd⁷⁷ ac, yn wir, ar y ddrama, *Ac Eto Nid Myfi*. Diddorol yw nodi fod Camus yn ystyried humanladdiad yng nghyd-destun byd heb dduw, ac yn wir, dyna a welir yn achos Huw – unigolyn a wrthododd y grefydd a orfodwyd arno, ac sydd, felly, yn byw mewn byd lle y mae ar drugaredd ei etifeddeg a’i amgylchedd, yn hytrach nag ar drugaredd Duw. Mae gofyn am astudiaeth lawer meithach i drafod abswrdaeth a dirfodaeth John Gwilym Jones; fodd bynnag, mae’n ddigon nodi yma ei fod yn llenor Naturiolaid a bod elfennau abswrdaidd a dirfodol yn treiddio trwy’i waith. O’r herwydd, nid yw Huw yn digalonni nac yn cwmpo i rigol anobaith lethol, ond yn hytrach, fe’i gwelir ar ddiwedd y ddrama yn derbyn ei hunan heb o reidrwydd fagu dealltwriaeth lawn o’i gyfansoddiad a’i rôl yn y byd.

⁷¹ Lewis, Saunders (1963), ‘Rhagair’, yn Jones, John Gwilym, *Y Tad a’r Mab* (Aberystwyth: Gwasg y Glêr), t. 7.

⁷² Stephens, Elan Closs (1998), ‘A Century of Welsh Drama’, yn Johnston, Dafydd (gol.), *A Guide to Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press), t. 251.

⁷³ Megis *Yr Oedfa*, *A Barcud yn Farcud Fyth*, a hyd yn oed *Hanes Rhyw Gymro*, e.e. t. 18, t. 51.

⁷⁴ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 7.

⁷⁵ Morgan, ‘Rhai themâu, motiffau a chymeriadau yng ngwaith John Gwilym Jones’, t. 22, t. 23.

⁷⁶ Camus, Albert (2005), *The Myth of Sisypheus*, cyfieithiad O’Brien, Justin (London: Penguin), tt. 1–49.

⁷⁷ Morgan, ‘Rhai themâu, motiffau a chymeriadau yng ngwaith John Gwilym Jones’, t. 30.

O gyfaddef mai ‘Fi ydw i o hyd, ’does dim osgoi ar hynny’,⁷⁸ penderfyna y gall fyw. Gwelir Huw yn derbyn nad yw bywyd yn ddealladwy a’i fod yn llawn paradocsau, a chyda hynny, y mae’n dilyn, fel yr awgryma Camus, y ffordd orau i ymdopi ag ‘abswrddiaeth’ bywyd, sef ei fyw ac nid ei derfynu.⁷⁹ Yn hyn o beth, felly, roedd John Gwilym Jones yn arddel syniadau cyffelyb i lenorion dirfodol ac abswrdaidd Ewrop, a chymhwysodd yr elfennau hynny i gyd-destun Cymraeg a Chymreig, ac yng nghyd-destun etifeddeg ac etifeddiaeth ei gymeriadau.

Felly, pobl ranedig sydd, erbyn y diwedd, yn dod i ddygymod â hwy eu hunain, heb feddwl am fentro arwain y gymdeithas yn ogystal (megis arwyr dramâu’r gegin gefn), yw’r sawl a ddarlunnir gan John Gwilym Jones. Cymeriad o’r fath a geir yn stori ‘Y Cymun’.

‘Y Cymun’

Darlunio pregethwr ifanc a’i ffydd yn pallu a wna’r stori hon. Y dylanwad pennaf ar fywyd Meurig yw ei ddiffyg etifeddiaeth: fe’i magwyd mewn cartref i blant amddifad felly nid oes ganddo unrhyw wybodaeth am ei rieni ac, o’r herwydd, teimla nad yw’n deall ei etifeddeg.

Cyferbynnir cymeriad Meurig, sy’n dyheu am adnabyddiaeth lawn ohono’i hun, â cherddor ifanc o’r enw Gwyn, sy’n ddirmygus o gysyniadau megis traddodiad, olyniaeth ac etifeddiaeth, gan fynnu mai’r unig etifeddiaeth werth ‘ei chael yw’r un a enillwch chi i chi eich hun’.⁸⁰ Fel y disgwyliid, nid yw ateb mor foel â hyn gan Gwyn yn lleddfu briw etifeddiaeth goll Meurig. Gŵr a rydd bwys ar y deall yw Gwyn tra bo’r gweinidog yn ŵr hydeiml, a dyna a ddarlunnir drwy gydol y stori.

Difyr yw sylwi ar y modd y ceisiodd Meurig ddefnyddio crefydd i lenwi’r bwlch a grëwyd gan y diffyg adnabyddiaeth o’i orffennol, fel y dywed Derec Llwyd Morgan:

Am ei fod yn amddifad y mae’n poeni na all weld llinach ei achau yn arwain i fyny ato, ac yn rhoi iddo ‘ymdeimlad o unoliaeth’ a thraddodiad. Y mae’n bwysig ein bod ni’n gwybod beth ydyw ei alwedigaeth er mwyn deall na roes crefydd ddim mwy nag addysg coleg, ddim cyfeirbwynt sicr i’w fywyd.⁸¹

Trwythodd ei hun mewn diwinyddiaeth ond nid yw’n frwdfrydig dros ei alwedigaeth. Yn wir, digon llugoer fu ei gred yn Nuw erioed:

Mursendod fu amau bodolaeth Duw iddo erioed, ond ansicr iawn oedd ei syniad o beth ydoedd. Holl ddaioni’r byd weithiau; crynswth canrifoedd o weithredoedd da, a phawb yn sugno mêr y gorffennol fel gelod, a throi yn eu tro yn ysgerbydau i’w plant besgi arnynt. A Duw yn bod am fod

⁷⁸ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 86.

⁷⁹ Camus, *The Myth of Sisyphus*, tt. 51–63.

⁸⁰ Jones, ‘Y Cymun’, *Y Goeden Eirin*, t. 41.

⁸¹ Morgan, Derec Llwyd (1974), ‘Y Goeden Eirin’, yn Thomas, Gwyn (gol.), *John Gwilym Jones: Cyfrol Deyrnged* (Abertawe: Christopher Davies), t. 107.

yr holl bethau hyn yn bosibl erioed. Geiriau yn unig oedd yr Iawn a'r Cyfryngu iddo.⁸²

Daw i werthfawrogi Dyffryn Ysig a'i dirwedd drawiadol yn fwy na holl wersi'r efengyl a'r holl syniadau stoc am Dduw. Gwêl fwy o ystyr yn y lle diriaethol hwn nac mewn credoau haniaethol, ac am nad yw'n adnabod ei deulu, y mae'n cymryd arno ei fod yn hanu o'r greadigaeth; ei fod 'wedi'i genhedlu o lwynau'r coed, a sugno o fronnau'r afon, a phrifio ar faeth porfa las'.⁸³ Difyr yw nodi bod ffigwr 'y fam' unwaith yn rhagor yn ymddangos yn ddylanwadol gan mai'r Fam Ddaear sy'n cael yr effaith fwyaf arno ac nid y Tad Nefol. Yr hyn sy'n bwysig i Meurig bellach yw ennyn adnabyddiaeth lawn ohono'i hun yn hytrach nag ymlafnio i fyw'n unol â chrefydd – yr hyn a etifeddodd gan ei gymdeithas. Gwelir yma drachefn enghraifft o wrthdaro rhwng etifeddeg ac etifeddiaeth unigolyn.

Defnyddir gwahanol fathau o etifeddiaeth ddiwylliannol eto yn y stori hon er mwyn darlunio gwir gymeriad Meurig, yr hwn a arferai guddio y tu ôl i bersona yn y capel. Gwelir hyn, er enghraifft, wedi iddo gael y profiad arbennig o weld y dyffryn:

Nid y Beibl a ddarllenasai'r munud hwnnw, ond "Cit", a hen rifynnau *Cymru'r Plant* a "Sioned". "Cob Malltraeth" a "Chroen y Ddafad Felen" a ganai'r coed a'r adar.⁸⁴

Yn yr un modd, cneuen a dŵr afon Dyffryn Ysig yw'r cymun sy'n rhoi'r ymdeimlad o lawenydd iddo ac nid bara a gwin y capel. Yn wir, ar ôl y cymun natur hwnnw y profa Meurig 'dangnefedd ac ymdeimlad o undeb anorfod tragwyddol â daear las a phridd a dŵr', gan iddo bellach fod wedi canfod ei 'etifeddiaeth'; wedi cael y fath brofiad na chawsai erioed yn y pulpud.⁸⁵

Difyr yw sylwi bod y ffordd y ceisiodd Meurig lenwi bwlch ei ddiffyg etifeddiaeth â chrefydd yn ymdebygu i'r hyn a geir yn y stori 'Nychdod', wrth i Elin Gruffydd geisio disodli etifeddeg anffodus ei mab â cherddoriaeth. Credai Elin Gruffydd ped anogai ei mab i feistrolï'r piano, na fyddai'n ymdebygu i'w dad nac yn dioddef yr un dynged:

Cadwai gyngherddau yn y Queen's Hall, a chawsai ei fam ddod i'w glywed ac eistedd yn y seddau blaen, a chlywed bonllefain o gymeradwyaeth i'w mab hi, ac yntau heb berthyn dim bellach i'w dad, canys onid ymlidwyd allan o'i gyfansoddiad gan ei gofal hi yr holl wenwyn a etifeddodd gan ei dad?⁸⁶

⁸² Jones, 'Y Cymun', t. 46.

⁸³ Ibid., t. 38.

⁸⁴ Ibid., t. 44.

⁸⁵ Ibid., t. 47.

⁸⁶ Jones, 'Nychdod', t. 13.

Ond yr hyn a welir yw grym etifeddeg, a phwysleisir mai ofer yw ymdrechu yn ei herbyn ac ofer yw ceisio ei hosgoi. Yn yr un modd â Meurig, ofer fu ceisio ymroi ei hun gorff ac enaid i grefydd er mwyn llenwi'r gwacter. Cafodd y gwacter hwnnw ond ei lenwi wrth iddo brofi'r fath deimlad yn Nyffryn Ysig, a chanfod ei etifeddiaeth naturiol.

Mae'r profiad nwmenaid hwnnw a gaiff Meurig o weld tirwedd y dyffryn yn ei alluogi i gymuno ag ef ei hun. Dyna eto weld cysylltiad â syniadau Jung am ymunigoli. Credai Jung fod profiadau nwmenaid yn allweddol i unigolyn adnabod ei hun yn well. Yn ystod profiad o'r fath, caiff y cynddelwau eu deffro a bydd yr unigolyn gam yn nes at adnabod ei hunan yn llawnach. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi un gwahaniaeth rhwng syniadau Jung am brofiadau nwmenaid a stori 'Y Cymun'. Yn ôl Jung, yn ogystal â threiddio i seice'r hunan, bydd yr unigolyn yn teimlo'n fodlon am ei fod wedi cymuno â'r dwyfol.⁸⁷ Nid dyna a geir yn y stori hon. Profiad nwmenaid anghrefyddol yw'r hyn a welir wrth i'r llawenydd ym Meurig gael ei sbarduno gan ffenomen y byd naturiol, diriaethol. Canlyniad y fath brofiad yw iddo dreiddio'n ddyfnach i'w hunan ac uno â'r byd naturiol ac â'i etifeddiaeth.

Gellir datgan mai diben yr etifeddiaeth ddiwylliannol yn y ddrama a'r straeon byrion hyn yw darlunio gwir anian y cymeriadau. Ystyriwyd eisoes fod y cymeriadau'n teimlo rheidrwydd i feddu ar bersona i allu byw yn eu cymdeithas ond yr hyn a welir gyda Meurig yw nad oes modd bod yn gwbl fodlon wrth wneud hynny. Drwy beidio ag esgus byw er mwyn cenhadu'r efengyl, a chan ymroi i gyfaredd Dyffryn Ysig, daw Meurig i fodloni ar ei fyd ac arddel ei wir gymeriad.

Casgliad

'Does dim gwadu ar Etifeddiaeth, ar y gybolfa gymysg o hadau sy'n cyfarfod ym mhoethder cenhedlu'⁸⁸ yw datganiad Huw ar ddechrau *Ac Eto Nid Myfi*, a theg fyddai dweud mai dyna'r agwedd a bwysleisir yn yr holl ddarnau a drafodwyd. Diau fod hon yn thema a oedd yn mynd â bryd John Gwilym Jones gan iddo ei chrybwyll yn y rhan helaethaf o'i weithiau.

Gwelwyd yn yr ymdriniaeth hon ba mor arwyddocaol yw etifeddiaeth, yn ei hamrywiol ffurf, ym magwraeth a ffurfiant unigolion. Yr hyn a bwysleisir drwedd a thro yw nad oes modd dianc rhag yr anochel, a bod y nodweddion corfforol a meddyliol a drosglwyddir o'r naill genhedlaeth i'r llall yn rhan amlwg o gyfansoddiad unigolyn, ac yn ddylanwad ar ei ymddygiad. Yn yr un modd, ystyriwyd gyda Meredydd yn 'Nychdod' y modd y gall rhai etifeddu nodweddion eu rhieni a dioddef o'u herwydd. Yn ddiau, yr awgrym a geir yw bod dyn yn gaeth i'w gromosomau ac y gall yr hyn a etifeddir gan rieni fod naill ai'n ddefnyddiol neu'n ddamniol.

Crybwyllwyd math arall o etifeddeg yn ogystal, sef yr haen gynhenid sy'n gyffredin i bob un, ond sydd hefyd yn nodweddu unigoliaeth bob un. Gellir dweud, er bod tuedd i'r

⁸⁷ Gw. Jones, *Jung*, cyfres Y Meddwl Modern, tt. 63–6; Jung, C. G. (1959), *The Archetypes and the Collective Unconscious* (London: Routledge), t. 39; Hostie, Raymond (1952), *Religion and the Psychology of Jung* (London: Harvill).

⁸⁸ Jones, *Ac Eto Nid Myfi*, t. 8.

cymeriadau hyn deimlo eu bod wedi eu hynysu gan eu hetifeddeg, eu bod hefyd yn ‘perthyn, ac yn etifedd[ion] i gymdeithas y ddynoliaeth o’r dechrau’.⁸⁹

Sylwyd ar y modd y defnyddiodd John Gwilym Jones fath arall o etifeddiaeth, sef yr etifeddiaeth ddiwylliannol, a hynny’n gelfydd yn y gweithiau hyn. Ystyriwyd y modd y mae gwahanol fathau o etifeddiaeth lenyddol yn darlunio’r gwahaniaeth rhwng cymeriadau, fel y gwelwyd gyda’r ddau gariad yn ‘Y Briodas’. Daethpwyd i sylwi pa mor ddylanwadol yw’r gwahanol fathau o etifeddiaeth ddiwylliannol ar fagwraeth unigolion, a chrybwyllwyd y modd y trosglwyddid syniadau ac ystrydebau, credoau ac addysg o’r naill genhedlaeth i’r llall, ynghyd â’r modd y gallai’r ffactorau hynny wrthdaro â natur rhai cymeriadau. Gwelwyd yn ogystal nad oes diben ceisio disodli etifeddiaeth neu lenwi bwlch diffyg etifeddiaeth gyda rhywbeth arall megis crefydd neu addysg.

Nodwedd arall a amlyga ei hun yn gyson yw’r modd y gellid cysylltu’r gwrthdaro rhwng etifeddeg unigolyn a’i amgylchedd â rheidrwydd y cymeriadau i ragrithio. Oherwydd y gymdeithas y mae’n byw ynddi, ni all unigolyn fod yn gwbl naturiol ei ffordd felly mae’n rhaid iddo feddu ar bersona, ond ceir ambell gymeriad yn beirniadu ac yn gwrthod safonau’r gymdeithas honno ac, o’r herwydd, yn dyfod i deimlo’n berson llawnach. Mae hyn yn wir am Wil yn ‘Y Goeden Eirin’ a Huw erbyn diwedd *Ac Eto Nid Myfi*; daw yntau i dderbyn ei sefyllfa a’i gymeriad gan beidio â phoeni am safonau na disgwyliadau cymdeithasol; er y byddent yn siŵr o ddioddef beirniadaeth.

Yn hyn o beth, mae’n debyg y buasai John Gwilym Jones wedi cytuno â barn Oscar G. Brockett am ymddygiad y cymeriadau cymhleth a geir mewn llenyddiaeth sy’n trafod dylanwad grymoedd na all dyn eu hamgyffred:

If blame is to be assigned it must go to the society which has allowed such undesirable heredity and enviromental factors to exist.⁹⁰

O fod wedi ystyried John Gwilym Jones yng nghyd-destun llenorion Ewrop, ac amryw ohonynt yn llenorion Naturiolaidd, gwelir pa mor amlwg yr oedd etifeddeg ac etifeddiaeth fel themâu yn eu gweithiau. Er bod eu hymdriniaethau’n amrywio, tueddent i ddarlunio cymeriadau sy’n teimlo’n rhwystredig a than faich oherwydd eu hetifeddeg a’u hamgylchedd, gan beri iddynt ymholi’n ddirfodol am eu hunain a’u rhan yn y byd. Yn hyn o beth, felly, sylwir bod John Gwilym Jones wedi dilyn tuedd llawer o lenorion Naturiolaidd drwy ganolbwyntio ar un neu ddau gymeriad yn benodol mewn darn o waith, ac iddo archwilio seicoleg y cymeriadau mewn perthynas â’u llinach a’u hamgylchfyd. Gwnaeth hynny hefyd, mae’n deg dweud, er mwyn cynnig math o feirniadaeth ar strwythurau cymdeithasol ei oes.

Gellir casglu, felly, fod etifeddiaeth, yn ei hamrywiol ffurfiau, yn ymddangos yn thema gyson yng ngweithiau John Gwilym Jones, ac fel y gwelwyd o’r drafodaeth hon, archwilir y thema honno’n ofalus yn *Ac Eto Nid Myfi*, ‘Y Goeden Eirin’ a ‘Nychdod’, gan danlinellu amryw agweddau da a drwg ar gymdeithas ac ar gymeriad dyn.

⁸⁹ Jones, *Jung*, cyfres Y Meddwl Modern, t. 41.

⁹⁰ Brockett, Oscar G. (1964), *The Theatre* (New York: Rineheart & Winston), t. 261.

Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Athro Angharad Price am ei chymorth gwerthfawr gyda'r erthygl hon.

Llyfryddiaeth

- Brockett, Oscar G. (1964), *The Theatre* (New York: Rineheart & Winston).
- Camus, Albert (2005), *The Myth of Sisyphus*, cyfieithiad O'Brien, Justin (London: Penguin).
- Carter, Lawson A. (1977), *Zola and the Theater*, adargraffiad (Westport, CT: Greenwood Press).
- Hostie, Raymond (1952), *Religion and the Psychology of Jung* (London: Harvill).
- Ibsen, Henrik (1920), *Dychweledigion*, cyfieithiad Jones, T. Gwynn (Abertawe: Morgan & Higgs).
- Ibsen, Henrik (2003), *Tŷ Dol*, cyfieithiad Siôn Eirian (Caerdydd: Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru).
- Jones, E. J. Eurfyl (1958), *Jung*, cyfres Y Meddwl Modern (Dinbych: Gwasg Gee).
- Jones, John Gwilym (1976), *Ac Eto Nid Myfi* (Dinbych: Gwasg Gee).
- Jones, John Gwilym (1958), *Dwy Ddrama* (Dinbych: Gwasg Gee).
- Jones, John Gwilym (1964), *Hanes Rhyw Gymro* (Liverpool: Cymdeithas y Ddrama Gymraeg Coleg y Brifysgol Bangor).
- Jones, John Gwilym (1931), 'Nychdod', *Y Ford Gron*, 1 (8), Mehefin, tt. 12–13.
- Jones, John Gwilym (1971), *Pedair Drama* (Dinbych: Gwasg Gee).
- Jones, John Gwilym (1946), *Y Goeden Eirin* (Dinbych: Gwasg Gee).
- Jones, John Gwilym (1963), *Y Tad a'r Mab* (Aberystwyth: Gwasg y Glêr).
- Jones, R. M. (1975), 'Easily Freudened', yn Jones, R. M. (gol.), *Llenyddiaeth Gymraeg 1936–1972* (Llandybie: Christopher Davies), tt. 249–58.
- Jung, C. G. (1959), *The Archetypes and the Collective Unconscious* (London: Routledge).
- Lewis, William R. (1994), *John Gwilym Jones*, cyfres Writers of Wales (Cardiff: University of Wales Press).
- Meier, C. A. (1977), *Personality: The Individuation Process in Light of C. G. Jung's Typology*, cyfieithiad Roscoe, David N. (Einsiedeln, Switzerland: Daimon).
- Morgan, Derec Llwyd (1974), 'Y Goeden Eirin', yn Thomas, Gwyn (gol.), *John Gwilym Jones: Cyfrol Deyrnged* (Abertawe: Christopher Davies), tt. 98–112.
- Morgan, Mihangel, 'Rhai themâu, motiffau a chymeriadau yng ngwaith John Gwilym Jones', traethawd PhD, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, 1996.
- Richter, Virginia (2011), *Literature After Darwin: Human Beasts in Western Fiction, 1859–1939* (Hampshire: Palgrave Macmillan).
- Rowlands, John (1988), *John Gwilym Jones*, cyfres Llên y Llenor (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn).

- Rowlands, John (1975), 'John Gwilym Jones', yn Rees, D. Ben (gol.), *Dyrnaid o Awduron Cyfoes* (Pontypridd: Cyhoeddiadau Modern Cymreig), tt. 153–76.
- Rowlands, John (2005), *John Gwilym Jones: Amrywiadau Enigmatig* (Bangor: Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru Bangor).
- Stephens, Elan Closs (1998), 'A Century of Welsh Drama', yn Johnston, Dafydd (gol.), *A Guide to Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 233–70.
- Stephens, Elan Closs (1988), *Y Canol Llonydd: Astudiaethau Theatr Cymru 5* (Cricieth: Cymdeithas Theatr Cymru).
- Styan, J. L. (1981), *Modern Drama in Theory and Practice: Realism and Naturalism*, Cyfrol 1 (Cambridge: Cambridge University Press).
- Thomas, Gwyn (1970), 'Holi John Gwilym Jones', *Mabon*, 1 (3), haf, 12–18.
- Thomas, R. J. (gol.) (1950–1967), *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Tomos, G., 'Astudiaeth o Ddramâu John Gwilym Jones', traethawd MA, Prifysgol Bangor, Bangor, 1979.
- Wilson, E., a Goldfarb, A. (2004), *Living Theatre: A History*, 4^{dd} argraffiad (Boston: McGraw-Hill).

‘Beth yw’r ots gennyf i am Gymru?’: Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o’r bröydd Cymraeg

Lowri Cunningham Wynn

Adran y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol Aberystwyth

Cyflwynwyd: 17 Mai 2018; Derbyniwyd: 23 Tachwedd 2018

Crynodeb: Mae’r erthygl hon yn ystyried allfudo ymysg pobl ifanc o’r bröydd Cymraeg eu hiaith o safbwynt eu dyheadau a’u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Mae’r ymchwil doethur gwreiddiol (2014) yn seiliedig ar waith Hywel Jones (2010), sy’n dadlau bod pobl ifanc a anwyd y tu allan i Gymru oddeutu bedair gwaith yn fwy tebygol o fudo o Gymru na phobl ifanc a anwyd yma. Ceisiwyd sefydlu pa rai yw’r prif ffactorau sy’n effeithio ar gyfraddau allfudo ymysg pobl ifanc sydd heb eu geni yng Nghymru a’r rhai sy’n blant i rieni nad ydynt yn frodorion. Deuir i’r casgliad mai un o’r prif resymau dros allfudo ymysg y grŵp hwn yw ffactorau’n ymwneud â’r ymdeimlad o berthyn a’u lefelau integreiddio i’r cymunedau dan sylw, yn hytrach na ffactorau economaidd yn unig. Yn benodol, ystyrir sut mae diwylliant, cenedligrwydd ac ystyriaethau’n ymwneud â’r Gymraeg yn effeithio ar y duedd hon, sydd ag oblygiadau pwysig o safbwynt cadw siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd Cymraeg ‘traddodiadol’.

Allweddeiriau: Y fro Gymraeg, allfudo, hunaniaeth, perthyn, cynllunio ieithyddol.

‘Beth yw’r ots gennyf i am Gymru?’: The out-migration and aspirations of young people from the Welsh heartlands

Abstract: This article considers the out-migration of young people from the Welsh-speaking heartlands in terms of their aspirations and hopes for the future. The original doctoral research (2014), is based on Hywel Jones’ (2010) work, which argues that young people born outside of Wales are four times more likely to migrate from Wales than young people born here. The research attempts to establish the main factors that affect rates of out-migration among young people born outside of Wales and those born into non-native families. The article concludes that the main drivers of rates of out-migration among this group are factors such as sense of belonging and the extent of community integration, rather than solely economic

factors. In particular, it examines how culture, nationality, and considerations pertaining to the Welsh language have an impact on this trend, which has important implications in terms of the linguistic retention of the ‘traditional’ Welsh speaking areas.

Key words: Welsh-speaking heartlands, out-migration, identity, belonging, language planning.

Cyflwyniad

O gymharu â degawdau ynghynt, ardaloedd tra gwahanol yw'r bröydd Cymraeg yng Nghymru heddiw. Gellir dadlau bod newidiadau na ellir eu dad-wneud wedi siapio dyfodol y bröydd, gyda newidiadau bydol yn effeithio ar y cyfansoddiad a'r strwythur cenedlaethol ac yn effeithio'n anochel ar y cymunedau unigryw sy'n rhan annatod o Gymru hyd heddiw. Er nad ffenomen newydd yw pwnc allfudo, teg yw nodi bod ei bresenoldeb – yn sgil newidiadau cenedlaethol – yn cymell rhai i alaru am y 'cyfnod euraidd' mewn cymuned, neu fel yr awgrymwyd gan Cohen (1997: t. 39), '*some golden age of unmediated change*'.

Pwrpas yr erthygl yw trafod allfudo ymysg pobl ifanc fel un o'r tueddiadau sy'n cael effaith ar gyfansoddiad poblogaeth ac ieithyddol y bröydd Cymraeg, a dadleuwyd bod gan ddata Jones (2010) oblygiadau pwysig o safbwynt cadw siaradwyr Cymraeg yr ardaloedd Cymraeg 'traddodiadol'. Mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar sampl o bobl ifanc 15–18 oed a 19–25 oed o Dregaron a Blaenau Ffestiniog, sydd naill ai wedi eu geni y tu allan i'r bröydd neu sydd wedi eu geni yno ond i rieni nad ydynt yn frodorion o'r ardaloedd hynny. Dadleuwyd nad ffactorau economaidd yw'r prif reswm dros ddewisiadau'r bobl ifanc i aros ai peidio, ond yn hytrach fod y prif reswm yn seiliedig ar ffactorau'n ymwneud â'u hymdeimlad o berthyn a'u lefelau integreiddio i'r cymunedau hynny. Yn benodol, ystyrir sut mae diwylliant a chenedligrwydd ac ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg yn effeithio ar y duedd hon.

Mae rhai astudiaethau eraill o du allan i Gymru ar allfudo a mewnfudo poblogaethau yn cynnig damcaniaethau diddorol ynghylch pam fod un grŵp, yn fwy na grŵp arall, yn dewis gadael eu cymuned. Dywed Belot ac Ermisch (2006), er enghraifft, fod cysylltiadau cymdeithasol yn chwarae rhan flaenllaw mewn symudoledd daearyddol, tra bod Levy a Waldycki (1973) mewn astudiaeth gynnar yn Venezuela wedi canfod bod gan y tebygolrwydd o symud o un ardal i ardal arall gydberthynas gref ag economi a gwaith.

O safbwynt Gymru, mae patrymau mudo'n cael effaith bellgyrhaeddol ar ei bröydd, ac yn benodol ar ei chyfansoddiad ieithyddol, yn enwedig wrth ystyried allfudo ymysg ei phoblogaeth ifanc, ddysgedig. Fel yr amlygwyd gan Lywodraeth Cymru:

Mae cynaliadwyedd yr iaith yn ei bröydd Cymraeg traddodiadol yn destun gofid. Mae mewnfudo ac allfudo wedi cael cryn effaith ar yr ardaloedd hyn. Mae llawer o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg wedi gadael eu cymunedau i geisio gwaith mewn ardaloedd trefol, ac mae pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg wedi mewnfudo i'r cymunedau hyn. (Llywodraeth Cymru 2012: 8)

Yn hanesyddol, oherwydd bod Cymru wedi profi cryn gyfnodau o fudo ac allfudo, mae'n astudiaeth achos ddiddorol (Thomas 1930, Daniel 1946). Mae Cymru hefyd yn denu ymfudwyr o weddill y Deyrnas Unedig (DU), gyda thros 80% o'r boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru yn hanner o Loegr, ac 20% o'r unigolion a anwyd yng Nghymru bellach yn byw yn Lloegr (Blackaby a Drinkwater 2004: t. 20). Awgrymwyd yn benodol fod poblogaeth yr ardaloedd hynny yng ngogledd-ddwyrain Cymru, megis Sir y Fflint a Sir Ddinbych, yn cynnwys yr un ganran o unigolion a anwyd yno ag a anwyd y tu hwnt i'r ardaloedd hynny.

Yng ngweddill yr erthygl hon, ceir trafodaeth ar gefndir ystadegol a damcaniaethol y gwaith ymchwil, gan roi sylw penodol i gysyniad dadleuol y fro Gymraeg fel cadarnle'r Gymraeg, trafod allfudiaeth a'r Gymraeg, cyn mynd ymlaen i drafod yr ymchwil gwreiddiol a chasgliadau'r ymchwil.

Cefndir Ystadegol

Yn sgil y wybodaeth helaeth a gynhyrchwyd gan y Cyfrifiad yn 2011, gellir ymdrin â rhai pwyntiau arwyddocaol sy'n gysylltiedig â chynllunio ieithyddol a'r erthygl hon. Dengys y cyfrifiad yn 2001 fod 20.5% yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â'r ffigwr cyfatebol o 19% yn 2011. Er bod poblogaeth Cymru wedi tyfu ers y cyfrifiad yn 2001, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011. Mae'r ffigyrau'n awgrymu bod y Gymraeg o dan bwysau yn ei hen gadarnleoedd. Yn berthnasol i'r gwaith hwn, gwelwyd gostyngiad o 52% i 47% yng Ngheredigion a gostyngiad o 69% i 65.3% yng Ngwynedd rhwng y ddau gyfrifiad diweddaraf (Stats Wales 2012).

Mae ymchwil ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor yn nodi bod cadarnleoedd y Gymraeg yn 'crebachu' (2015: t. 6) gyda gostyngiadau i'w gweld yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd a Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, tra gwelwyd cynnydd bach yng Nghaerdydd, Sir Fynwy a Caerffili (Comisiynydd y Gymraeg, 2012). Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith Comisiynydd y Gymraeg yn 2004/06, roedd 56% o'r holl siaradwyr Cymraeg rhugl o bob oed yn byw yn Ynys Môn, Gwynedd, Caerfyrddin a Cheredigion, sef yn y 'pedair sir "traddodiadol Gymraeg"' (Comisiynydd y Gymraeg, dim dyddiad).

Yn ddaearyddol, bu'r gostyngiad mwyaf yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg. Gwynedd (65%) ac Ynys Môn (57%) yw'r unig siroedd yng Nghymru lle y mae mwyafrif y boblogaeth yn medru siarad Cymraeg, a Sir Gaerfyrddin yw'r sir sydd â'r nifer uchaf o bobl sy'n medru siarad Cymraeg (78,000) (Comisiynydd y Gymraeg 2016: t. 36). Mae nifer y cymunedau sydd â 70% a mwy o siaradwyr Cymraeg yn byw ynddynt wedi lleihau ers 2001. Roedd 53 cymuned o'r fath yn 2001; 39 sydd yna bellach (Comisiynydd y Gymraeg 2016: t. 36).

Ystyrir bod gan hyn oblygiadau pwysig i'r fro Gymraeg o safbwynt cyfansoddiad ei chymunedau a nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae i'r ymchwil hwn oblygiadau polisi ehangach, yn enwedig yn sgil bwriad Llywodraeth Cymru i geisio cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o 575,000 erbyn 2050. Yn wir, mae Williams (2017) yn dadlau y bydd rhaid cynhyrchu llawer o filoedd dros filiwn o siaradwyr os bydd y boblogaeth darged o filiwn

yng Nghymru yn cael ei gwireddu gan fod pobl ifanc a aned yng Nghymru yn ymfudo'n gyson i rannau eraill o'r DU a thu hwnt.

Cefndir Damcaniaethol

Y Fro Gymraeg?

Gan fod cysyniad y fro Gymraeg yn elfen ganolog i'r ymchwil, mae'n briodol trafod yr hyn a olygir wrth y term. Gellir dadlau bod statws y fro Gymraeg yn ddadleuol, hynny yw, nid yw'n cael ei chydabod yn swyddogol fel tiriogaeth ieithyddol a diwylliannol, sy'n wahanol iawn i'r Gaeltacht yn Iwerddon a'r Gaidhealtachd yn yr Alban. Mae'n gysyniad sydd â sylfaen ystadegol, fel y nodwyd uchod, ac mae'n cael ei defnyddio i ddisgrifio'r ardaloedd yng Nghymru lle y mae'r iaith Gymraeg ar ei chryfaf, gydag o leiaf 50% o'r boblogaeth yn medru'r iaith. Dyma gadarnle'r iaith Gymraeg heddiw, neu fel yr awgrymwyd gan Aitchison, Carter a Rogers, 'y craidd parhaol, di-ildio o Gymreigrwydd' (1989: t. 4).

Dadleuwyd y bathwyd term 'y fro Gymraeg' am y tro cyntaf gan Owain Owain a gyhoeddodd fap o'r fro Gymraeg yn *Nhafod y Ddraig* ym mis Ionawr 1964. Roedd yr 1960au yn gyfnod allweddol yn naearyddiaeth yr iaith Gymraeg, lle y gwelwyd ei bod yn dirywio'n argyfyngus. Ceir darlun ystadegol o'r fro Gymraeg ond ceir cysyniad hefyd wedi'i ddiffinio'n wleidyddol o'r cychwyn cyntaf, gydag Owain Owain yn portreadu'r fro fel rhywbeth sydd mewn peryg o ddiflannu ac fel rhywbeth y dylid ei hamddiffyn a'i gwarchod.

Yn ogystal â'i diffiniadau ystadegol a gwleidyddol, ystyriwyd bod gan y 'fro Gymraeg' ystyron eraill. Gellir dadlau ei bod yn awgrymu cymuned ddiwylliannol benodol a ffurfiwyd o amgylch iaith gyffredin, gydag ymlyniad at le a chymuned ieithyddol. I'r perwyl hwn, mae'n derm sydd i ryw raddau'n ddelfrydyddol ac yn parhau i ddenu sylw cynyddol gan fudiadau pwysu megis Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,¹ pleidiau gwleidyddol a chynllunwyr ieithyddol fel ei gilydd. Mae enghreifftiau cyfredol yn cynnwys Adam Price, Plaid Cymru, yn galw am un cyngor i'r fro Gymraeg ac am uno cadarnleoedd y Gymraeg (Golwg360 2013). Serch hynny, ceir perygl yma o golli golwg ar realiti drwy ddelfrydu'r fro. Felly, mae'n rhaid pwysu a mesur statws y fro Gymraeg yn ei gyfanrwydd, a'i ystyried yn feirniadol. Fel yr awgrymwyd gan Aitchison, Carter a Rogers yn eu gwaith diweddarach:

There is no longer a Bro Gymraeg in the sense in which it was originally conceived. (1994: tt. 112–13)

Mae Ó Tuathaigh (1990) yn mynegi'r un pryderon wrth ystyried y Gaeltacht (y Fro Wyddeleg). Ar ôl creu Gwladwriaeth Rydd Iwerddon yn 1922, roedd aelodau Coimisiún na Gaeltachta (y corff sy'n gyfrifol am adolygiad o bolisi'r iaith Wyddeleg) yn credu bod rhannau o Iwerddon, a elwir yn Gaeltacht, yn cydymffurfio â'r ddelfryd o'r fro Wyddeleg a gynigiwyd gan Conradh na Gaeilge. Bu iddynt feithrin y cysyniad delfrydol hwn yn hytrach

¹ Cymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid.

na chymryd sylw o wir sefyllfa economaidd-gymdeithasol ymylol y rhan honno o Iwerddon. Dywedir eu bod wedi dioddef y canlynol:

An idealisation of rural life, of ‘traditional’ lifestyles in the Gaeltacht, an implicitly anti-industrial bias; an extraordinarily static vision of Gaeltacht society, timelessly in tune with the elemental values of the Irish people; the repository of the linguistic elixir of Irish nationhood; a vision encapsulated in the phrase ‘tobar fíor-ghlan na Gaeilge’ – the uncontaminated well-spring of the national language, from which the rest of the country could continue to draw sustenance. (Ó Tuathaigh 1990: t. 11)

Ceir tebygrwydd amlwg yma rhwng y fro Gymraeg a'r Gaeltacht, gyda'r pwyslais ar y ddelfryd yn hytrach na'r realiti. O ystyried yr ofnau gwirioneddol na ellir cynnal y Gaeltacht fel endid cymdeithasol ieithyddol homogenaidd a chydlynol (Comisiwn na Gaeltachta 2002), mae'n ymddangos bod pragmatiaeth yn hanfodol (Mac Giolla Chríost 2012).

Er hynny, mae'r sail wrthrychol, ystadegol, ar gyfer y fro Gymraeg a'r sail sy'n gysylltiedig â hunaniaeth a pherthyn i gymuned yn berthnasol i'r erthygl hon. Er bod y cysyniad diwethaf yn ddadleuol ac yn anodd ei ddiffinio (ac mae astudio'r grŵp sampl ar y sail hon yn broses gymhleth) mae'r ymdeimlad hwn o'r fro yn hanfodol wrth ddeall canfyddiadau'r erthygl hon, h.y. patrymau integreiddio'r bobl ifanc, eu cysylltiadau cymdeithasol, eu hymdeimlad o berthyn ac yn benodol eu teimladau a'u hemosiynau mewn perthynas â'r drafodaeth ar allfudiaeth.

O ganlyniad, mae'r erthygl hon yn mynd i'r afael â'r 'fro' fel ardal sydd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg ac a chanddi hunaniaeth ddiwylliannol a gwleidyddol penodol. Wrth gwrs, mae'r dimensiwn olaf yn fwy cymhleth i'w ddiffinio mewn termau gwrthrychol ac mae'n agored i feirniadaeth, ond nid oes modd deall y data na'r dystiolaeth yn eu cyfanrwydd heb gyffwrdd â'r diffiniad hwn.

Allfudo a'r Gymraeg

Er bod amrywiaeth o ystadegau sy'n cofnodi ffigyrau allfudo o Gymru, ychydig iawn sy'n canolbwyntio ar allfudo tymor hir, sef mwy na deuddeg mis, yn ôl Jones (2010). Awgryma fod llai fyth yn ymchwilio i'r berthynas rhwng allfudo a'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Jones yn honni os gellir torri'r patrwm o golli hyfedredd yn yr iaith o un cyfrifiad i'r llall, bydd unrhyw ostyngiad yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn cael ei achosi gan allfudo (heblaw am farwolaethau). Byddai lleihad mewn canrannau sy'n siarad Cymraeg yn awgrymu mewnfudo. Fel rhan o'i ymchwil, penderfynodd Jones edrych ar yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg, gan eu diffinio yn nhermau daearyddiaeth llywodraethau lleol yn 1974.²

Mae'n haeru y gellid disgwyl y byddai'r rhan fwyaf o bobol a oedd yn symud i Loegr

² Cylch Caerfyrddin, Dinefwr, Llanelli a Cheredigion, cylch Ynys Môn, Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

o Gymru yn gwneud hynny am resymau yn ymwneud â gwaith. Dywed ymhellach mai ychydig a fyddai'n symud am resymau tai a chymudo:

It needs to be borne in the mind that economic factors such as these may be even more important for individuals' decisions concerning migration than their own personal characteristics. (Jones 2010: t. 123)

Noda Jones mai bod rhwng 15 a 24 oed oedd y ffactor mwyaf dylanwadol mewn perthynas ag unigolion yn mudo o Gymru, yn fwy felly na man geni. Ar ôl oed, roedd yn amlwg mai man geni oedd yr ail ffactor o bwys, a dywed Jones, yn achos yr unigolion hynny nad oeddent yn siarad Cymraeg, bod cael eu geni y tu allan i Gymru yn cynyddu'r tebygolrwydd o allfudo mwy na phedair gwaith (365% yn 1981–91).

Ar ôl gosod sylfaen ystadegol, mae Jones yn awgrymu bod materion teuluol, rhwydweithiau, ffrindiau a chysylltiadau cymdeithasol oll yn chwarae rhan bwysig a chynyddol mewn penderfyniadau ynglŷn ag allfudo. Dywed y gellir disgwyl i'r patrymau o fewnfudo cynnar arwain at gynnydd mewn allfudo wrth i'r cysylltiadau cymdeithasol wanhau – neu, o'i roi fel arall, wrth i'r rhesymau pam y mewnfudodd pobl i Gymru yn y lle cyntaf ddod yn llai pwysig i'r cenedlaethau dilynol (2010: t. 137).

Hefyd, dywed Jones y bydd gan rwydweithiau teuluol a ffrindiau pobl a fewnfudodd lai o ffocws lleol, ac awgryma y bydd hynny'n effeithio ar y Gymraeg. Roedd hon yn agwedd ddiddorol a oedd yn gofyn am ymchwil pellach.

Ardaloedd ymchwil

Y mae'r gwaith gwreiddiol a ddadansoddir yn yr erthygl hon yn seiliedig ar ddwy ardal wahanol yng Nghymru, sef Blaenau Ffestiniog yng Ngwynedd a Thregaron yng Ngheredigion. Dewiswyd yr ardaloedd hyn am nifer o resymau, yn gyntaf oherwydd eu bod yn ardaloedd lliwgar ac unigryw a chan iddynt fod yn destun i nifer o astudiaethau blaenorol megis astudiaeth gan Aitchinson, Carter a Rogers (1989) a Emmett (1982). Roedd hi'n hanfodol yn ogystal fod yr ardaloedd yn adlewyrchu'r proffil a welwyd yng ngwaith Jones (2010) er mwyn cadarnhau ynteu ddiystyru ei honiad fod y bobl ifanc a anwyd y tu allan i Gymru mwy na phedair gwaith yn fwy tebygol o fudo o'r bröydd o ganlyniad i resymau economaidd yn unig.

Bwriad yr ymchwil oedd ceisio darganfod y gwahaniaethau rhwng dwy ardal debyg o safbwynt y niferoedd o siaradwyr Cymraeg a sefyllfaoedd gwledig. Yn ogystal, ystyrir bod gan yr ardaloedd hyn economïau dirywiol. Pan gafodd yr ymchwil ei gynnal roedd y ddwy ardal wedi eu labelu fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Cyflwynwyd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wreiddiol yn 2001 fel rhan o ymgais blaenllaw Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.³ Erbyn hyn, yn

³ Yn negawd cyntaf y rhaglen, cafodd ei chyflwyno'n bennaf mewn 150 o bartneriaethau lleol ar draws Cymru. Cafodd y rhain eu crynhoi yn bennaf yn y dinasoedd, cymoedd a threfi arfordirol, gydag o leiaf un ym mhob un o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2011, cyhoeddodd

ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014),⁴ mae Tregaron wedi ei raddio 1107 allan o 1909 AGEHI⁵ yng Nghymru, sy'n ei roi yn y 50% lleiaf difreintiedig, a Blaenau Ffestiniog wedi'i raddio 635 allan o 1909 AGEHI yng Nghymru, sy'n ei roi yn y 30–50% mwyaf difreintiedig.⁶

Y sampl a dulliau ymchwil

Gellir dadlau mai'r hyn a oedd wedi peri'r problemau mwyaf oedd darganfod sampl oedd yn ffitio'r disgrifiad o'r hyn a ystyrir yn 'deuluoedd ymfudol'. Er bod Jones (2010) yn nodi mai pobl ifanc sydd heb eu geni yn y bröydd Cymraeg sydd bron bedair gwaith yn fwy tebygol o adael y bröydd, penderfynwyd cynnwys y bobl ifanc hynny a anwyd yn y bröydd, ond lle nad oedd eu rhieni yn frodorion o'r ardal a lle nad Cymraeg oedd prif iaith y cartref. Roedd y sampl felly yn un cyfyngedig, o ystyried mai bychan yw poblogaethau'r ardaloedd a ddewiswyd ac mai bychan yw'r bröydd yn gyffredinol. Roedd darganfod sampl a fyddai'n ddigonol yn dasg gymhleth.

Ar gyfer darganfod sampl o bobl ifanc 15–18 oed a oedd yn parhau mewn addysg, ymddengys mai'r ffordd fwyaf effeithiol o greu sampl oedd drwy ysgolion uwchradd yr ardaloedd ymchwil. Roedd gan yr ysgol wybodaeth lawn am bob un o'r disgyblion blwyddyn 10 ac 11 a fyddai'n gymwys i gymryd rhan yn y sampl, h.y. roeddynt yn ymwybodol o'u cefndiroedd teuluol ac ieithyddol. Nid mater o ddewis y sampl ydoedd, ond yn hytrach dod o hyd i ddigon o bobl ifanc a oedd yn gweddu i anghenion yr ymchwil:

	Rhyw yr ymatebwyr 15–18			
Ardal	Gwryw	%	Benyw	%
Blaenau Ffestiniog	15	51.7	14	45.2%
Tregaron	14	48.3	17	54.8%
Cyfanswm	29	100	31	100

Tabl 1: Ymatebwyr 15–18 oed yn ôl ardal a rhyw

y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, y byddai'r rhaglen 'Cymunedau yn Gyntaf' o Ebrill 2012 yn dod yn rhaglen sydd yn canolbwyntio ar drechu tlodi. Ceir bellach fwy o bwyslais ar sicrhau bod y rhaglen yn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

⁴ MALIC yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny o'r wlad sydd â'r crynodaau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd.

⁵ Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is.

⁶ Am fwy o wybodaeth gweler: <<http://wimd.wales.gov.uk>> [Cyrchwyd: 16 Medi 2018].

Roedd ysgolion y ddwy ardal yn awyddus i gymryd rhan, gan eu bod yn teimlo bod pwnc allfudo yn un pwysig ac amserol. Penderfynwyd defnyddio holiadur er mwyn casglu data meintiol ar gyfer y grŵp hwn a chafwyd 29 ymateb ym Mlaenau Ffestiniog a 31 yn Nhregaron. Yn ogystal, cynhaliwyd dau grŵp ffocws ansoddol ym mhob ardal, un gyda grŵp a oedd yn enedigol o'r ardal a'r llall gyda grŵp ymfudol.

O safbwynt darganfod sampl hŷn, sef 19–25 oed, a oedd wedi gadael ei bröydd, cafwyd mwy o anhawster. I ddechrau, roedd yn ofynnol fod y sampl yn cynnwys pobl ifanc o deuluoedd ymfudol a oedd wedi byw yn y ddwy ardal a lle y gwelwyd mai Saesneg oedd prif iaith y cartref. Yn ail, roedd yn ofynnol fod y bobl ifanc hyn bellach wedi gadael eu bröydd. Bu ysgolion y ddwy ardal hefyd o ddefnydd wrth geisio dod o hyd i'r cohort hwn:

Ymatebwr	Iaith y cyfweiliad	Man byw presennol	Sefyllfa
1	Saesneg	Manceinion	Addysg llawn amser
2	Cymraeg	Caergrawnt	Addysg llawn amser
3	Saesneg	Lerpwl	Gwaith llawn amser
4	Saesneg	Lerpwl	Addysg llawn amser
5	Saesneg	Llundain	Gwaith/Addysg RA
6	Saesneg	Manceinion	Gwaith llawn amser
7	Saesneg	Barrow-in-Furness	Di-waith (Rhiant)
8	Saesneg	Belfast	Gwaith llawn amser
9	Saesneg	(Yn y Fyddin)	Gwaith llawn amser
10	Saesneg	Caerdydd	Gwaith llawn amser
11	Cymraeg	Manceinion	Gwaith llawn amser
12	Saesneg	Lerpwl	Gwaith rhan amser
13	Cymraeg	Lerpwl	Gwaith llawn amser
14	Saesneg	Llundain	Gwaith llawn amser
15	Saesneg	Caerdydd	Gwaith llawn amser

Tabl 2: Ymatebwyr 19–25 oed, Blaenau Ffestiniog⁷

⁷ Noder mai enwau ffug a ddefnyddir drwy gydol yr erthygl.

Ymatebwr	Iaith y cyfweiliad	Man byw presennol	Sefyllfa
1	Saesneg	Huddersfield	Gwaith llawn amser
2	Saesneg	Sheffield	Addysg llawn amser
3	Saesneg	Lerpwl	Addysg llawn amser
4	Saesneg	Llundain	Addysg llawn amser
5	Saesneg	Llundain	Gwaith llawn amser
6	Saesneg	Newcastle	Gwaith llawn amser
7	Saesneg	Llundain	Gwaith llawn amser
8	Saesneg	Caerdydd	Gwaith llawn amser
9	Saesneg	Caerdydd	Gwaith llawn amser
10	Saesneg	Llundain	Gwaith llawn amser
11	Saesneg	Manceinion	Gwaith llawn amser
12	Saesneg	Caerdydd	Gwaith llawn amser

Tabl 3: Ymatebwyr 19–25 oed, Tregaron

Yn y modd hwn felly, darganfuwyd 27 o unigolion a oedd yn wreiddiol o'r ddwy ardal, sef 15 o Flaenau Ffestiniog a 12 o Dregaron a oedd yn fodlon cymryd rhan yn yr astudiaeth. Cynhaliwyd cyfweiliadau unigol â'r rhain, un ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gellir dadlau mai egwyddor pelen eira oedd sylfaen y sampl, gan fod y cysylltiadau a wnaed yn rhan o'r cysylltiad cychwynnol a wnaed â'r ysgolion.

O ganlyniad i natur yr astudiaeth a'r grŵp sampl cyfyng, crëwyd cynllun peilot ar ddechrau'r astudiaeth er mwyn ymchwilio'r posibilrwydd o gael grŵp rheoli a fyddai o ddefnydd cymharol i weddill y sampl 15–18 oed. Pwrpas y cynllun peilot oedd ceisio darganfod gwerth cael grŵp cymharol o bobl ifanc a oedd yn hanu o deuluoedd a oedd yn enedigol o'r fro ac i asesu a oedd eu cymhellion a'u dyheadau'n wahanol ai peidio i'r rhai nad oedd yn enedigol o'r fro. Roedd yr ysgolion uwchradd yn fodlon i holiaduron ar-lein gael eu hanfon at ddisgyblion blwyddyn 11 a chafwyd 30 ymateb ar draws y ddwy ysgol.

Casgliadau

Ceisiwyd sefydlu pa rai yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar allfudo ymysg pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg drwy ystyried eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Drwy dynnu

ar waith Jones (2010), aethpwyd ati i ystyried pa un ai ffactorau economaidd yn unig oedd yn arwain y bobl ifanc i ymfudo o'u cymunedau yng Nghymru. Wrth ystyried y casgliadau, mae'n rhaid cydnabod ehangder y cwestiwn ymchwil a'r amrywiaeth barn ac emosiwn sy'n gysylltiedig ag allfudo, ac o ganlyniad, y cymhlethdod o geisio dylunio unrhyw argymhellion pendant o ymchwil o'r fath. Hefyd, mae'n rhaid ystyried maint y sampl, sydd yn gyfyngedig. Er hynny, darganfuwyd nad ffactorau economaidd yw'r prif reswm dros y duedd hon, ond yn hytrach ei bod yn ddibynnol ar lefelau integreiddio'r bobl ifanc a'u hymdeimlad o berthyn i'r cymunedau dan sylw. Dengys y data ansoddol a meintiol fod eu lefelau integreiddio'n gysylltiedig â'r teulu a'r teulu estynedig, eu syniadau hwy ynglŷn â diwylliant a chenedligrwydd, a'r iaith Gymraeg yn benodol. Ceir trafodaeth bellach ar hyn isod.


Ffactorau Economaidd

Darganfuwyd mai arwynebol oedd ceisio crynhoi'r pwnc i ffactorau economaidd yn unig. Roedd y grŵp sampl 15–18 oed yn rhoi pwysigrwydd amlwg i resymau economaidd dros allfudo o'u bröydd. Roedd hyn yn ogystal yn gysylltiedig â'u dewisiadau ôl-ysgol, gwaith a gyrfa. Er hynny, yn wahanol i waith Jones (2010), ni welwyd tystiolaeth mai ystyriaethau economaidd yw'r prif ysgogiadau dros allfudo ymysg pobl ifanc, er iddynt chwarae'r rhan gychwynnol ar ddechrau eu bywyd gyrfaol a'u bod felly'n sylfaen i rai o'u dewisiadau.

Bu rhai enghreifftiau o ddyheadau economaidd yr unigolion yn y sampl yn adlewyrchu dyheadau eu rhieni, ac yma efallai y gwelwyd gwahaniaethau dosbarth amlwg. Er enghraifft, gwelwyd o naratif Kara o Flaenau Ffestiniog o'r sampl 19–25 oed fod dyheadau ei rhieni wedi effeithio ar ei phenderfyniad i fudo o'r ardal. Roedd rhieni Kara o ddosbarth proffesiynol ac roeddynt yn awyddus iddi ddilyn yr un llwybr gyrfaol:

I remember my auntie telling me that I could and should go far you know, and I automatically associated that with moving away, bettering myself and just not staying stagnant here. It seems unfair of me now to think like this, but you know that's how we've always felt as a family. Maybe it's a class thing, I just don't know. I remember feeling like it at the time, but I'm not sure if I do now. I think that sometimes I do, but mostly I'm just glad that I could see that there are other things out there for me. I think that sometimes it made me feel different and at the time that hurt, I'm not sure anymore I think now I'm just glad that I was pushed, and that I wasn't like everyone else.

Mae gwaith James (2003) yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd safle mewnfudwyr o fewn y gymuned ac ystyriwyd dosbarth cymdeithasol fel ffactor pwysig o safbwynt y dosbarthiad. Honnwyd bod gan fewnfudwyr statws economaidd gwell a'u bod felly'n perthyn i ddosbarth cymdeithasol uwch na'r bobl leol. Er hynny, awgrymwyd nad oedd y wybodaeth hon bob amser yn seiliedig ar ffaith, ond yn hytrach oherwydd bod y rhan fwyaf o'r mewnfudwyr hyn wedi eu geni yn Lloegr.



Ffigwr 2: Grŵp ffocws Tregaron

Er hynny, gwelwyd gwerthfawrogiad o harddwch naturiol yr ardaloedd hyn a bodlondeb yn y mwyafrif o achosion iddynt gael magwraeth mewn ardal hardd ac unigryw. Bu'r rhwystredigaethau a'r anawsterau er hynny'n amlwg: gwelwyd diffygion mewn gwasanaethau cymdeithasol hanfodol megis trafnidiaeth gyhoeddus, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau cymdeithasol yn gyffredinol. Roedd data o'r gwaith ansoddol yn dangos mai'r ysgol oedd calon y ddwy ardal i'r bobl ifanc, ac er bod darpariaeth ôl-ysgol ar gael gan y gwasanaeth ieuencid, nid oedd llawer yn manteisio ar y ddarpariaeth honno.

Mae hyn yn tynnu sylw at astudiaeth Prifysgol Bangor a Llywodraeth Cymru sy'n pwysleisio mai pobl ifanc, ynghyd â rhieni sydd â phlant ifanc, oedd â'r ddarpariaeth fwyaf cynhwysfawr o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai cymunedau yng Nghymru, ond cafwyd tystiolaeth bod bylchau'n ymddangos yn y ddarpariaeth i bobl ifanc hyn (2015: t. 117). Gellid awgrymu bod hyn yn peryglu'r dilyniant o'r sector addysg ac yn peryglu cynnydd ieithyddol, ynghyd ag atgyfnerthu canfyddiad rhai pobl ifanc mai iaith addysg yn unig yw'r Gymraeg ac nid iaith ar gyfer cymdeithasu y tu hwnt i ffiniau'r ysgol (2015: t. 121).

Yn ogystal, gwelwyd cysylltiad â gwaith Williams a Morris (2000) sydd yn trafod newidiadau cymdeithasol yn nhermau eu heffaith ar yr economi ond yn ogystal ar allu

grwpiau iaith leiafrifol i atgynhyrchu eu hunain. Yma, ceir trafodaeth ar effeithiau pellgyrhaeddol ailstrwythuro economaidd, fel y gwelwyd yn y bröydd. Ceir cadarnhad o'r cysylltiad amlwg rhwng yr ysgogiadau economaidd dros allfudo o'r bröydd a'r rhesymau diwylliannol.

Atgyfnerthwyd bod y newidiadau economaidd a gafwyd yng Nghymru dros y ganrif ddiwethaf wedi arwain at symudiad poblogaeth a chyfalaf, sydd yn ei dro wedi effeithio ar sefydliadau cymdeithasol pwysig fel y teulu, y gymuned ac addysg. Ar yr un pryd, mae ailstrwythuro economaidd wedi effeithio ar y farchnad lafur ar lefel leol, ranbarthol a rhyngwladol ynghyd ag ar statws a bri'r Gymraeg mewn perthynas â'i hamlygrwydd, neu ddiffyg amlygrwydd, yn y farchnad lafur gyfnewidiol sydd o'i hamgylch.

Dangoswyd bod y dyhead i adael yn ddibynnol ar y gobaith am fywyd cymdeithasol a gyrfaoel gwell, ynghyd â disgwyliadau uwch ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, y canlyniad mwyaf trawiadol oedd y gwahaniaeth agwedd tuag at iaith, diwylliant a chenedligrwydd rhwng y ddwy ardal.

Diwylliant a Chenedligrwydd a'r Gymraeg

O fewn y ddau grŵp oed, bu cryn drafodaeth ar yr hyn a olygir wrth fod yn 'Gymro/Cymraes', yr ymdeimlad hwnnw o berthyn a graddfeydd integreiddio i'r gymuned. Roedd y term 'enedligrwydd' yn gysylltiedig â'r bröydd yr oeddynt yn perthyn iddynt yn ogystal â'u cefndir teuluol. Er hynny, roedd 'enedligrwydd' yn aml yn adlewyrchu'r hyn yr oeddent yn teimlo am eu statws o fewn y gymuned honno.

Gellir dadlau bod y sampl yn aml yn ei rannu ei hun i ddwy ran, sef y rhai sy'n perthyn i deuluoedd ymfudol, a rhai sy'n perthyn i deuluoedd brodorol o'r ardal. Nid oedd y ffiniau hyn bob amser yn amlwg nac ychwaith yn bwysig, ond bu achosion lle y rhoddwyd amlygrwydd mawr i'r gwahaniaethau teuluol hyn. Fel yr awgrymwyd gan Barth (1969), mae grŵp yn dod yn ymwybodol o'u hunaniaeth ethnig wrth iddynt ymgysylltu ag eraill.

Mae Cohen (1982) yn dadlau bod yr un peth yn wir wrth ystyried ardaloedd, ac efallai nad yw hyn yn peri syndod, gan fod ethnigrwydd a chymdogaeth yn fynegiant o ddiwylliant. Dadleuwyd bod pobl yn dod yn ymwybodol o'u diwylliant wrth gael eu heithrio, ac felly bod diwylliant yn rhan gref o ymwybyddiaeth unigolion. Er hynny, dadleuwyd nad yw pobl bob amser yn ymwybodol o hyn fel 'diwylliant', ond yn hytrach yn ymwybodol ohono drwy eu hunaniaeth (Cohen 1982: t. 3).

O safbwynt yr astudiaeth hon, gwelwyd bod y bobl ifanc yn ymwybodol o'r hyn sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth bobl eraill o fewn y gymuned leol ac yn rhoi sylw arbennig i hynny. Daeth hyn yn fwy amlwg wrth ystyried ardal Tregaron. Bu hefyd yn ddylanwadol wrth ystyried iaith a defnydd iaith o fewn y teulu. Fel yr awgrymwyd gan Paul o Dregaron:

How can I be Welsh? My mother isn't Welsh, my father isn't Welsh, so I certainly aren't. Nor do I want to be. You've got to be true to your roots or who is going to take you seriously? Don't get me wrong, I love Wales,

it's my home, and I think it's great that I can speak two languages, but speaking a language doesn't make you Welsh. I think you've got to be from Wales. I'm proud to be an English person living in Wales, that's what makes me, me and I wouldn't want to be anyone else. I was born here, but my language at home is English, my whole family is English and I don't want to be different to them.

Bu'r grwpiau ffocws yn ddangosyddion amlwg ar gyfer mesur defnydd iaith a'i effaith ar obeithion a dyheadau'r sampl ar gyfer y dyfodol. Darganfuwyd, yn anochel efallai, fod agwedd eu rhieni yn treiddio i'w hagweddau hwy, yn enwedig wrth ystyried profiadau negyddol a gafwyd gan rai rhieni o fewn y cymunedau dan sylw. Er hynny, gellir dadlau bod cymhlethdod yn perthyn i'r sampl yn gysylltiedig â'u cefndir teuluol ac felly eu cenedligrwydd a'u lleoliad hwythau o fewn y gymuned. Er enghraifft, ymddengys nad oedd nifer o'r bobl ifanc, yn benodol ym Mlaenau Ffestiniog, wedi dewis mabwysiadu cenedligrwydd eu rhieni ond yn hytrach wedi mabwysiadu cenedligrwydd ardaloedd eu bro, gyda rhai yn ymfalchïo yn yr hyn sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth eraill yn yr ardal, tra bod eraill yn glynu'n dynn wrth eu hunaniaeth a'u cenedligrwydd genedigol. Fel yr awgrymwyd gan John o Flaenau Ffestiniog:

Weithiau dwi'n teimlo bo fi'n Cymraeg ac weithiau dwi'n teimlo'n Saesneg. Mae'n beth od. Pan 'dwi adra [ym Mlaenau Ffestiniog] dwi'n teimlo'n Saesneg achos bo fi'n wahanol i bawb sydd yn Gymraeg yma. Ond pan 'dwi'n mynd i aros efo nain yn Gloucester dwi'n teimlo'n Cymraeg achos dydw i ddim yn Saesneg. Mae o mor anodd. Dwi ddim yn un peth na'r llall.

Roedd nifer y bobl ifanc a oedd yn nodi eu bod o genedligrwydd Cymreig ym Mlaenau Ffestiniog gymaint yn uwch nag yn Nhregaron er bod eu cefndir teuluol yn ymddangos yn debyg. Dangosir bod y cysyniad o genedligrwydd yn gysylltiedig â'r ardaloedd eu hunain, lle y gwelwyd trawstoriad o'r hyn yr oedd yn ei olygu i fod yn Gymro/Gymraes, neu gyferbyniad rhwng gwahanol safbwyntiau, ynghyd â'r hunaniaeth a oedd yn perthyn i fod yn Sais/Saesnes.

Mae Bond, Charlsey a Grundy (2008) yn cynnig nifer o ganfyddiadau diddorol ar gyfer yr astudiaeth bresennol wrth astudio'r prif dueddiadau demograffig a'r heriau sy'n wynebu'r Alban heddiw. Awgrymir y gellir deall yr ysgogiadau ar gyfer allfudo ymysg graddedigion yn nhermau tri grŵp o ffactorau, sef (i) cyfleoedd, gyda chyflogaeth yn benodol, (ii) cysylltiadau a pherthnasau gyda'r teulu, partneriaid a ffrindiau, ond yn ogystal y cysylltiadau a wnaed drwy'r ymdeimlad o berthyn, perthnasau a hunaniaeth, a (iii) eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.

Mae pwyslais yma ar hunaniaeth yn benodol, a gwelwyd ei fod yn canolbwyntio ar fudwyr wedi eu geni yn Lloegr. Mae'r graddedigion hyn yn cadw eu dinasyddiaeth flaenorol,

ond yn gorfod ailystyried eu hunaniaeth a sylweddoli nad yw dinasyddiaeth ffurfiol yn arf yn erbyn gwaharddiad anffurfiol a symbolaidd (2008: t. 4).

Eglurwyd y pwynt hwn yn ehangach gan Nagel (2004) sydd yn pwysleisio bod dinasyddiaeth yn elfen bwysig, ond nid diffiniol, o hunaniaeth. Yn ogystal, mae'n dadlau ei bod yn bosibl hawlio hunaniaeth fel dinesydd, heb hawlio hunaniaeth y wlad honno (2004: 2). Er bod mewnfudwyr yn gallu meddu dinasyddiaeth ffurfiol, maent yn aml yn parhau i gael eu heithrio o sectorau dominyddol o'r gymdeithas (2004: 5). Pan mae'r mewnfudwyr hyn yn teimlo nad ydynt yn cael eu derbyn i'r gymdeithas, maent yn profi'r gwrthgyferbyniad rhwng diffiniadau cyfreithiol o ddinasyddiaeth a'r synnwyr mynegiannol megis yr ymdeimlad o berthyn.

Er enghraifft, yn sampl Tregaron, ymddengys fod 'bod yn Gymro/Gymraes' yn gysylltiedig â diwydiant amaethyddol cryf yr ardal, ac nad oedd yr ymfudwyr yn yr achos hwn yn gallu uniaethu â'r diwydiant nac ychwaith yn teimlo'r angen i fod yn rhan ohono. O ganlyniad, roedd bod yn Gymro/Cymraes yn nodwedd negyddol i'r rhai nad oedd yn teimlo'n gynwysedig i'r ardal a'i ddiwylliant. Yng ngeiriau Morgan o Dregaron:

The thing is, I just wouldn't want to be like them you know. They're all farmers, and I guess I'm just not like that. They have their own language and suff, like 'shwmai bachan', and I just think god, I so don't want to be like that. I'm sorry but why would you. I remember my dad saying the same thing. Tregaron's great but not if you've lived here all your life, you just get sucked in, and I really don't want to. Don't get me wrong, I think they really are great people, I just don't want to be like I've lived in Tregaron all my life, because I haven't.

Nid dyma'r achos ym Mlaenau Ffestiniog. Nid oedd y sampl yn yr achos hwn yn dynodi'r un label na'r un arwyddocâd i 'fod yn Gymraeg'. Yn hytrach, ystyriwyd bod balchder yr unigolion yn amlwg. Yma, ceir trawstoriad rhwng y ddau grŵp lle y gwelwyd gwahaniaethau sylweddol mewn cenedligrwydd, defnydd iaith a barn. Ceir cadarnhad o'r gwahaniaethau rhwng diwylliant yr ardaloedd, gyda chydberthynas gadarnhaol rhwng ardal a chenedligrwydd ym Mlaenau Ffestiniog ond cydberthynas negyddol rhwng cenedligrwydd ac ardal yn Nhregaron.

Roedd yn ddiddorol fod y bobl ifanc wedi meddwl am y cysyniad o genedligrwydd a'r ymdeimlad o fod yn 'perthyn'. Nid oeddynt yn ei gymryd yn ganiataol, hynny yw, roedd yn nodwedd bwrpasol ganddynt. Y consensws oedd nad oes modd mesur cenedligrwydd a'i fod yn rhywbeth dewisol, yn eu barn hwy, yn hytrach nag yn rhywbeth a osodir ar berson yn ôl ei fan geni. Er hynny, mae'n amlwg o'r trafodaethau yn ystod y grwpiau ffocws fod y pwnc yn un cymhleth.

Ystyriaethau Ieithyddol

Roedd y gallu i gynhyrchu ac atgynhyrchu iaith hefyd o bwysigrwydd amlwg wrth ystyried amcanion yr astudiaeth. Aethpwyd ati i drafod ystyriaethau ieithyddol mewn perthynas â'r pwnc o allfudo drwy ddadlau bod gallu iaith pobl ifanc, neu i ba lefel y dysgwyd yr iaith yn effeithiol, yn rhannol ddibynnol ar y modd y mae'r unigolyn yn gallu integreiddio'n effeithiol i'r gymuned y maent yn rhan ohoni. Penderfynwyd trafod amrywiaethau gallu ieithyddol a hyder wrth ddefnyddio iaith, gan y gellir dadlau eu bod yn rhan annatod o fywyd yn y fro Gymraeg ac yn debygol o effeithio ar y canlyniadau.

Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi sefydlu perthynas rhwng iaith a'r ymdeimlad o berthyn. Roedd nifer ohonynt wedi nodi achosion lle nad oedd unigolion yn medru'r Gymraeg ac felly'n teimlo'n ymylol yn y gymdeithas ac wedi eu heithrio – nid o fwriad – o weithgareddau cymunedol. Yn yr ysgol yn Nhregaron, oherwydd y nifer o bobl ifanc nad oedd yn medru'r iaith yn rhugl, cafodd y dosbarthiadau eu rhannu i ddwy brif ffrwd, un yn gwneud eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a'r gweddill drwy'r Saesneg. Golyga'r rhaniadau hyn fod rhaniadau cymdeithasol hefyd yn anochel, ac yma ceir goblygiadau wrth ystyried Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg,⁸ gan nad oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried fel iaith 'normal', yn yr ysgol i gohort o'r bobl ifanc. Tra ei bod yn ymddangos fod pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio'n fwy yn ieithyddol mewn rhai cymunedau, eto gwelir bod rhai cymunedau eraill lle y mae'r grwpiau iaith yn bodoli ar wahân i'w gilydd.

Er hynny, roedd pob un o'r ymatebwyr yn medru'r iaith, ac wedi ei dysgu fel ail iaith yn yr ysgol neu yn y gymuned ehangach. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg oedd bod cysylltiadau â'r iaith a dyhead rhai o'u cyfoedion oedd yn enedigol o'r fro i ddiogelu eu hiaith gyntaf yn destun llog i rai ohonynt. Nid oeddynt yn rhoi'r un pwysigrwydd i'r Gymraeg â'u cyfoedion, ac yn aml roeddynt yn ystyried dulliau a dyheadau eu cyfoedion i ddiogelu eu hiaith ac i'w defnyddio ym mhob achos fel ymosodiad personol ar eu diwylliant hwy eu hunain. Fel yr awgrymwyd gan Amber o Dregaron:

When I think about Tregaron, it's all idyllic and stuff, this proper beautiful area where you'd like set a scene for a film or something. I know it sounds funny, but its how I've always felt. I think the language is part of it though you know, like it's not real, it belongs to Wales but not outside it. I know some people are really going to look at me harshly for saying that and it's a bit harsh like, but hey. I do think sometimes that we're all kind of pushed into learning it and speaking it in school and things and it kind of gets into a bit of a rebellion thing I think. Like the kids who don't speak it are the rebels. It's how it was for me.

⁸ Ym mis Ebrill 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gyda'r bwriad o sicrhau bod addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r isadeiledd addysg. Ymysg y nodau ac amcanion strategol a osodwyd gan y strategaeth oedd gwella'r broses o gynllunio darpariaeth a dilyniant cyfrwng Cymraeg ar draws yr ystod oeddrannau, gwella sgiliau iaith, a chodi safonau yn y Gymraeg a Chymraeg ail iaith.

Wrth ymchwilio ymhellach, gwelwyd bod y pwynt uchod yn ddibynnol ar agwedd a lefel integreiddio eu rhieni. Er enghraifft, gwelwyd o'r holiaduron fod cyfran o'r rhieni wedi dysgu Cymraeg, ond ychydig iawn oedd yn ei defnyddio yn y cartref gyda'r ymatebwyr, gyda dau (15.4%) o'r tadau o Flaenau Ffestiniog a dim o Dregaron, a dim o'r mamau yn y ddwy ardal yn ei defnyddio. Gwelwyd o'r data ansoddol fod y rhieni oedd ag agwedd ffafriol tuag at yr iaith yn ei dysgu ac yn gwneud ymdrech arbennig i'w defnyddio yn y cartref ac yn debygol o drosglwyddo'r un meddylfryd i'w plant. Ymddengys mai cyfran fechan iawn o'r sampl oedd hyn.

Mae gwaith Morris (1989: t. 114) yn ategu hyn, lle y gwelwyd rhai o effeithiau cymdeithasol mewnffurfio ar un gymuned Gymraeg. Dengys ei sampl hi fod perthnasau teuluol yn ffactor pwysig wrth ffurfio rhwydweithiau, ac roedd hyd yr amser y bu'r ymatebwyr yn byw yn y gymuned hefyd yn ddylanwad. Awgrymwyd bod y siaradwyr Cymraeg wedi medru integreiddio'n well i'r gymuned leol oherwydd eu bod yn gallu cymryd rhan yn y clybiau a'r cymdeithasau, rhywbeth nad oedd y grŵp o fewnfudwyr uniaith Saesneg yn gallu ei wneud oherwydd eu dealltwriaeth gyfyngedig o'r iaith Gymraeg. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle roedd dau grŵp iaith yn byw ar wahân i'w gilydd yn gymdeithasol.

Yma, ystyrir pwysigrwydd cynllunio ieithyddol, lle y gwelwyd nad yw hyfedredd yn yr iaith yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol o fewn y teulu. Ystyrir gwaith Williams a Morris (2000), sy'n awgrymu y byddai'r newidiadau cymdeithasol sy'n amlwg o fewn y bröydd yn caniatáu i ni ystyried perthnasedd y gwahanol 'sefydliadau' cymdeithasol i'r broses o gynhyrchu i atgynhyrchu iaith. Mae'n bosibl nad yw'r teulu, er enghraifft, yn atgynhyrchu'r iaith, hyd yn oed pan fo'r rhieni yn siarad yr iaith, ond fod 'sefydliadau' eraill, fel addysg, yn dysgu'r Gymraeg i blant.

Yn amlwg, byddai'r un sefyllfa'n wir yn achos teuluoedd lle nad yw'r un o'r rhieni'n siarad Cymraeg, sef mai'r ysgol sy'n atgynhyrchu iaith, gyda'r gymuned o bosibl yn atgyfnerthu hynny. Yr hyn a ddisgwyllir yw bod hyfedredd yn y Gymraeg yn debygol o gynyddu cyfalaf cymdeithasol unigolyn neu grŵp, er yn yr achos hwn, gwelwyd nad dyma'r achos. Darganfyddwyd bod cyfalaf cymdeithasol unigolion ym Mlaenau Ffestiniog a Thregaron yn cael ei effeithio gan eu lefelau o integreiddio, nad yw'n ddibynnol ar eu gallu ieithyddol yn unig, ond yn hytrach yn cynnwys nifer amrywiol o ffactorau megis hunaniaeth, diwylliant a pherthnasau cymdeithasol.

Wrth ystyried eu graddfeydd o integreiddio i'r gymuned, ceir cyfuniad o ffactorau ymarferol yn ogystal â theimladol wrth ystyried gobeithion a dyheadau'r sampl ar gyfer y dyfodol. Er hynny, darganfuwyd nad oedd pobl ifanc yn teimlo cysylltiad ag un grŵp cymdeithasol yn benodol neu ag un lle yn fwy na'r llall, h.y. roedd eu rhesymau dros ymfudo o'r bröydd yn gysylltiedig â theimladau ac ystyriaethau cymhleth. Dadleuwyd bod y teimladau hyn yn adlewyrchiad o'u cysylltiadau hylifol a oedd yn sicrhau eu symudoledd cymdeithasol amlwg a'r gallu i allfudo o'r bröydd Cymraeg. Fel yr awgrymwyd gan James o'r sampl 19–25:

We've always moved, and I guess I've carried on the tradition, like moving and stuff to where the jobs are or where the most important people in your life are. That's my philosophy and one I'll always stick to. I don't even think

I know what roots really mean and what their importance is, but then we're all different. I pride myself on having, you know, like roots everywhere.

Mae Wenger (1978), er enghraifft, wrth ysgrifennu ynglŷn â rhan o Glwyd, wedi disgrifio'r hyn a ddigwyddodd i'r iaith Gymraeg pan welwyd y pylu yn nylanwad y capeli. Yn gynyddol, gwelwyd Saesneg yn cymryd lle'r Gymraeg, lle – yn draddodiadol – y gwelwyd y Gymraeg yn unig. O ganlyniad, mae lawer o'r llenyddiaeth sy'n ymdrin â'r bröydd Cymraeg neu'r Gymru wledig yn ystyried y cwestiynau manwl hynny ynghylch newidiadau economaidd a chymdeithasol. Maent yn cynnwys aildodsbarthiad a chryfder yr iaith Gymraeg, canlyniad patrymau mudo a natur hunaniaethau lleol ac 'ethnig'. Yn aml iawn, fel yr awgrymwyd gan Day, gwelwyd Cymru yn sefyll ar groesffordd, lle y gofynnir cwestiynau am y math o Gymru sydd yn gallu goroesi yn y byd sydd ohoni (2002: t. 153).

Cloi

Darganfu'r ymchwil fod allfudo ymysg pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg yn ddibynnol ar nifer o ffactorau cymhleth ac amlhaenog, ac nid yw'n atgyfnerthu gwaith Jones (2010) sy'n datgan bod pobl ifanc yn symud o'r cymunedau traddodiadol 'Cymraeg' am resymau economaidd yn unig. Yn wir, darganfu i'r gwrthwyneb, sef bod dewisiadau'r bobl ifanc hyn yn ddibynnol ar eu hymdeimlad o berthyn a'u patrymau integreiddio i'r cymunedau dan sylw. Yma, ceir trafodaeth ar bwysigrwydd ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg, diwylliant a chenedligrwydd mewn perthynas â'u hymdeimlad o berthyn a'u patrymau integreiddio.

Ceir trafodaeth ar natur ddadleuol y fro Gymraeg, yn ogystal â'i phwysigrwydd parhaol fel arf gwleidyddol pwerus. Ystyriwyd sut mae newidiadau cymdeithasol ehangach yn cael effaith negyddol ar allu'r bröydd i gynnal a chadw ei phoblogaeth ifanc sy'n achosi iddynt golli nifer o siaradwyr Cymraeg pob blwyddyn. Mae i hyn oblygiadau pwysig wrth ystyried targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ogystal â cheisio creu siaradwyr Cymraeg newydd.

Os am gyrraedd y targed, awgrymir bod rhaid mynd ati i geisio deall dyheadau'r grŵp hwn o bobl ifanc a'u rhieni mewn mwy o fanylder. Dadleuodd Williams fod ffurfio strategaeth ieithyddol genedlaethol yn 'amalgam' o uchelgais wleidyddol ac arbenigedd biwrocratig technegol (2017: 1). Yn ogystal, ystyriai fod y targed yn un 'mymmpwyol', hynny yw, nid o reidrwydd yn cyflawni nodau adfywio ieithyddol, ond yn hytrach yn darged gweledol, gwleidyddol (2017: 1).

Mae Williams yn ein hatgoffa mai sgîl yn unig yw'r Gymraeg ym marn y bobl ifanc dan sylw ac nid yw dysgu'r iaith o reidrwydd yn golygu eu bod yn mabwysiadu hunaniaeth eu cymunedau. Yn wir, ymddengys fod gan hyn oblygiadau o safbwynt dyfodol yr iaith yn y bröydd a thu hwnt. Teg ddigon yw dadlau bod angen polisïau lleol a chenedlaethol sy'n ymateb i'r tensiwn sy'n bodoli rhwng aros yng Nghymru neu fudo o'r wlad a cholli iaith. Fel yr awgrymwyd gan Williams:

The somewhat arbitrary target does not necessarily serve the goals of revitalization: a putative set of skills among a politically symbolic target population matters less than actual usage of Welsh in a wide range of domains in daily life. (2017:6)

Mae galw yma am ystyried o ddifrif yr hyn sy'n cyfrif fel 'siaradwr' a'r diffiniad o 'gymuned o siaradwyr'. Mae'r system gyfredol wedi cynhyrchu siaradwyr er mwyn creu rhwydwaith rhithwir o gyfathrebwyr, ond mae'r dulliau y mae pobl yn eu defnyddio i ryngweithio a chyfathrebu yn newid. Mae'n rhaid i'r polisïau fod yn adweithiol i'r newidiadau posibl hyn, gan flaenoriaethu defnydd effeithiol o'r Gymraeg a throsglwyddo'r Gymraeg yn y dyfodol (Williams 2017: 6).

Mae'r un neges i'w gweld yn glir gan Baker, sy'n nodi y byddai'n bwysig i ni ystyried y diwylliant Cymreig yn nhermau '*a kaleidoscope of Welsh culture*' (1985: t. 168). Er bod nifer o ddiwylliannau Cymraeg yn bodoli, nid yw bod yn ddwyieithog yn golygu bod unigolyn yn amlddiwylliannol. Nid pawb sy'n dysgu'r Gymraeg sy'n cymryd rhan mewn eisteddfodau. Fel yng ngeiriau Baker:

It appears axiomatic that, for the Welsh language to survive, it needs to penetrate an individual's whole way of life. For the language to be relegated to the Eisteddfod field, the chapel, the Welsh language lesson in school, to one channel on television and radio is to provide a badly balanced diet that will invariably lead to malnutrition and death (1985: t. 169).

Gellir dadlau nad yw'r datblygiad hwn o resymau diwylliannol yn llesol iawn i'r iaith Gymraeg os parheir i golli'r boblogaeth ifanc, addysgedig, i rannau eraill o'r DU. Yn wir, ystyriwyd bod y sefyllfa'n dwysáu ac ni roddir sylw i'r dirywiad economaidd a chymdeithasol a welwyd o fewn ein bröydd Cymraeg. Gwelwyd yr angen cynyddol am newid sydd wir yn deall y ffactorau amlhaenog sy'n effeithio ar ein bröydd heddiw, ac sy'n llwyddo i ymgodymu â'r ffactorau hynny.

Llyfryddiaeth

- Aitchison, J., Carter, H., a Rogers, D. (1989), *Immigration and The Welsh Language: A Case Study of Tregaron and its Region* (Aberystwyth: Rural Surveys Research Unit, University of Aberystwyth).
- Aitchison, J., a Carter, H. (1994), *A Geography of The Welsh Language 1961–1991* (Cardiff: University of Wales Press).
- Aitchison, J., a Carter, H. (2000), *Language, Economy and Society: The Changing Fortunes of the Welsh Language in the Twentieth Century* (Cardiff: University of Wales Press).
- Baker, C. (1985), *Aspects of Bilingualism in Wales* (England: Clevedon, Avon).
- Barth, F. (1969), *Ethnic Groups and Boundaries* (Illinois, UDA: Waveland Press).

- Belot, M., a Ermisch, J. (2006), *Friendship Ties and Geographical Mobility: Evidence from the BHPS*, <<https://www.iser.essex.ac.uk/research/publications/working-papers/iser/2006-33.pdf>> [Cyrchwyd: 3 Mawrth 2018].
- Blackaby, D., a Drinkwater, S. (2004), *Migration and Labour Market Differences: The Case of Wales*, <https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=585309> [Cyrchwyd: 11 Medi 2018].
- Bond, R., Charsley, K., a Grundy, S. (2008), *Migration, Settlement and Identity Among English Graduates in Scotland*, <http://www.lse.ac.uk/socialPolicy/Researchcentresandgroups/BSPS/pdfs/2008_migration_Bond_full.pdf> [Cyrchwyd: 23 Tachwedd 2018].
- Cohen, P. H. (1997), 'Beyond the Community Romance', *Soundings*, 5, Mawrth, 29–51, <http://banmarchive.org.uk/collections/soundings/05_29.pdf> [Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2018].
- Cohen, A. P. (1982), 'Belonging: The Experience of Culture', yn Cohen, A. P. (gol.), *Belonging, Identity and Social Organisation in British Rural Cultures* (Manchester: Manchester University Press), tt. 1–19.
- Comisiynydd y Gymraeg (2012), *Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg*, <<http://www.comisiynyddygyrnaeg.cymru/Cymraeg/Polisi,%20ymchwil%20a%20data/Data%20Cyfrifiad/Pages/DarlunystadegolosefyllfarGymraeg.aspx>> [Cyrchwyd: 11 Mai 2017].
- Comisiynydd y Gymraeg (2016), *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015/The Position of the Welsh Language 2012–2015*, <<http://www.comisiynyddygyrnaeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205-mlynedd%20-%205-year%20Report.pdf>> [Cyrchwyd: 1 Ebrill 2018].
- Comisiynydd y Gymraeg (dim dyddiad), *Cyfrifiad 2011: canlyniadau yn ôl awdurdod lleol*, <<http://www.comisiynyddygyrnaeg.cymru/Cymraeg/Polisi,%20ymchwil%20a%20data/Data%20Cyfrifiad/Pages/Cyfrifiad2011canlyniadauynolawdurdodlleol.aspx>> [Cyrchwyd: 11 Mai 2017].
- Daniel, G. H. (1940), 'Some Factors Affecting the Movement of Labour', *Oxford Economic Papers*, 3, 144–79.
- Day, G., a Fitton, M. (1975), *Religion and Social Status in Rural Wales: 'Bchedd' and its lessons for concepts of stratification in community studies*, <<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/j.1467-954X.1975.tb00546.x>> [Cyrchwyd: 31 Hydref 2018].
- Day, G. (2002), *Making Sense of Wales: A Sociological Perspective* (Cardiff: University of Wales Press).
- Emmett, I. (1982), 'Fe godwn ni eto: stasis and change in a Welsh industrial town', yn Cohen, A. P. (gol.), *Belonging: Identity and Social Organisation in British Rural Cultures* (Manchester: Manchester University Press), tt. 165–99.
- Golwg360 (2013), *Adam Price: un cyngor i'r Fro Gymraeg*, 22 Mawrth, <<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/104161-adam-price-un-cyngor-i-r-fro-gymraeg>> [Cyrchwyd: 11 Mai 2017].
- Llywodraeth Cymru (2012), *Iaith Fyw, Iaith Byw: Strategaeth y Gymraeg 2012–2017*, <<http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf>> [Cyrchwyd: 11 Tachwedd 2018].

- Llywodraeth Cymru, *Stats Cymru: Y Gymraeg*, <<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-language>> [Cyrchwyd: 1 Tachwedd 2018].
- Llywodraeth Cymru (2015), *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned*, <<http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151007-welsh-language-use-community-research-study-cy.pdf>> [Cyrchwyd: 1 Hydref 2018].
- Hodges, R. S. (2012), 'Welsh-medium education and parental incentives – the case of the Rhymni Valley, Caerffili', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 15 (3), 355–73.
- Jones, H. (2005), *Analysis of Census Results Pertaining to Language Transmission*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, <www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau> [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2009].
- James, E. (2003), 'Research on your own doorstep: Welsh Rural Communities and the Perceived Effects of In-migration', yn Davies, C. H., a Jones, S. (goln), *Welsh communities: new ethnographic perspectives* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 49–79.
- Jones, H. (2010), 'Welsh Speakers: Age Profile and Outmigration', yn Morris, D. (gol.), *Welsh in the Twenty First Century* (Cardiff: University of Wales Press).
- Levy, M. B., a Waldycki, W. J. (1973), 'The Influence of Family and Friends on Geographical labor Mobility: an International Comparison', *The Review of Economics and Statistics*, 55, 198–203.
- Mac-Giolla Chriost, D. (2012), 'A Question of National Identity or Minority Rights? The Changing Status of the Irish Language in Ireland since 1922', *Nations and Nationalism*, 18 (3), 398–416.
- Morris, D. (1989), 'A Study of Language Contact and Social Networks in Ynys Môn', *Contemporary Wales*, 3, 99–117.
- Morris, D., a Williams, G. (2000), *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Cardiff: University of Wales Press).
- Nagel, C. (2004), 'Citizenship, Identity and Transnational Migration: Arab Immigrants to the United States', *Space and Polity*, 8 (1), 3–24.
- Ó Tuathaigh, M. A. G. (1990), *The Development of the Gaeltacht as a Bilingual Entity* (Dublin: Institiúid Teangeolaíochta Éireann).
- Scottish Government Social Research (2008), *Drivers of Youth Outmigration from Rural Scotland: Key Issues and Annotated Bibliography*, <<http://www.gov.scot/resource/doc/210054/0055504.pdf>> [Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2018].
- Thomas, B. (1930), 'The Migration of Labour into the Glamorganshire Coalfield (1861–1911)', *Economica*, 30, 275–94.
- Williams, C. (2000), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).
- Williams, C. H. (2017), 'Policy review: Wake me up in 2050! Formulating Language Policy in Wales', *Languages, Society & Policy*, <<https://doi.org/10.17863/CAM.9802>> [Cyrchwyd: 22 Tachwedd 2018].

Datblygiad cystrawen y rhifolion yn y Gymraeg

David Willis

Yr Adran Ieithyddiaeth Ddamcaniaethol a Chymhwysol, Prifysgol Caergrawnt

Cyflwynwyd: 25 Medi 2018; Derbyniwyd: 8 Chwefror 2019

Crynodeb: Mae'r rheolau sy'n pennu treigladau a ffurfiau enwau ac ansoddeiriau ar ôl rhifolion mewn Cymraeg Canol yn aml yn peri dryswch i ddarllenwyr cyfoes. Mae'r erthygl hon yn braslunio'r rheolau a rhoi dadansoddiad synchronig ohonynt. Dangosir eu bod yn seiliedig ar system gydlynol lle mae rhif (unigol, deuol, rhifol, lluosog) yn ganolog. Gellir cofnodi a dyddio'r newidiadau ieithyddol sydd wedi digwydd ers hynny yn fanwl drwy ddefnyddio tystiolaeth destunol. Dadleuir y gellir deall y newidiadau hyn fel camau ar hyd llwybr tuag at system newydd, yr un mor gydlynol â'i rhagflaenydd, lle y mae pob ymadrodd rhifol yn ramadegol unigol, a chenedl yn hytrach na rhif sy'n penderfynu ffurf a threigladau ill dau.

Allweddeiriau: Yr iaith Gymraeg, newid cystrawennol, rhifolion, cytundeb gramadegol, rhif gramadegol.

The development of the syntax of numerals in Welsh

Abstract: The rules determining the forms of nouns and adjectives after numerals and the associated initial-consonant mutations in Middle Welsh are often puzzling to Modern Welsh readers of the language. This article sketches the rules and provides a synchronic account of them. It is shown that they are based on a coherent system where number (singular, dual, numerative, plural) is central. The linguistic changes that have occurred since then are documented in detail and dated using textual evidence. It is argued that these changes can best be understood as steps along a pathway towards a new, equally coherent system where all numeral phrases are treated as singular, and gender rather than number determines both form and mutations.

Key words: Welsh language, syntactic change, numerals, grammatical agreement, grammatical number.

1 Cyflwyniad

Mae prif nodweddion cystrawen rhifolion Cymraeg Cyfoes Safonol yn weddol syml.¹ Defnyddir enwau unigol ar ôl rhifolion, ac mae ansoddeiriau yn newid eu ffurf neu'n treiglo i adlewyrchu cenedl y prif enw. Er enghraifft, yn (1) a (2), ceir ffurfiau unigol yr enwau *ci* a *cath*, yn hytrach na'r ffurfiau lluosog *cŵn* a *cathod*; mae'r ansoddair *du* yn treiglo'n feddal yn (2), gan fod *cath* yn fenywaidd; mae'r rhifolyn yn cytuno â'r prif enw o ran cenedl, gan ymddangos yn wrywaidd, *tri*, yn (1), ac yn fenywaidd, *tair*, yn (2).²

- (1) y tri chi du
- (2) y tair cath ddu

Er bod yr egwyddor mai cenedl sy'n penderfynu ffurfiau ymadroddion rhifol yn un weddol ddilys, mae nifer o eithriadau sy'n anodd eu hesbonio. Yn gyntaf, nid yw dangosolion yn cytuno o ran cenedl â'r enw fel y mae ansoddeiriau, ond, yn hytrach, defnyddir y ffurf lluosog. Felly, yn (3), dim ond y ffurf lluosog *hyn* sy'n bosibl yn yr iaith safonol, nid y ffurf wrywaidd unigol *hwn*, er mai'r olaf a ddisgwylyd pe bai'r dangosolyn yn cytuno â'r enw gwrywaidd unigol *ci*:

- (3) y tri chi hyn (*nid* *y tri chi hwn)

Yr ail eithriad yw'r treigladau ar ôl y fannod. Y rheol gyffredinol yn y Gymraeg yw treiglo'n feddal ar ôl bannod fenywaidd, tra y ceir cytsain gysefin ar ôl bannod wrywaidd. Mae'r rheol hon yn methu mewn ymadroddion rhifol, lle y mae'r rhifolyn yn penderfynu'r treigladau yn hytrach na chenedl yr enw. Er enghraifft, mae'r rhifolyn *dau* ~ *dwy* yn treiglo'n feddal beth bynnag fo cenedl yr enw, ond mae'r rhifolion benywaidd *tair* a *pedair* yn gwrthsefyll treiglo yn yr iaith safonol, er eu bod yn dilyn bannod fenywaidd. Felly, yn (4), mae'r fannod wrywaidd yn cyd-fynd â threigladau meddal ar *ddau*; ac, yn (5) a (6), ni cheir treigladau meddal ar ôl y fannod fenywaidd.

- (4) y ddau gi (*nid* *y dau gi)
- (5) y tair cath (*nid* *y dair cath)
- (6) y pedair cath (*nid* *y bedair cath)

Gellir deall yr eithriadau hyn yn well drwy edrych arnynt mewn termau hanesyddol. O'r safbwynt hwnnw, ymddangosant fel 'gweddillion' hanesyddol a adawyd ar ôl yn sgil cyfnewidiad sylfaenol yn y ffordd y mae system y rhifolion yn gweithio. Sail cystrawen y

¹ Disgrifir rheolau Cymraeg Cyfoes Safonol yma er cymharu â Chymraeg Canol ac er mwyn olrhain y datblygiadau sy'n cysylltu'r ddwy system. Mae Cymraeg llafar yn wahanol mewn sawl ffordd. Ymdrinnir â rhai o'r gwahaniaethau hyn isod (§4.3).

² Ceir *y dair* ac *y bedair* yn fynych ar lafar, gw. §4.3 isod.

rhifolion mewn Cymraeg Canol yw'r egwyddor bod rhif yn penderfynu'r ffurfiau a'r treigladau mewn ymadroddion enwol sy'n cynnwys rhifolyn. Erbyn heddiw, cenedl yw (bron) yr unig ffactor sy'n cyfrif yn yr un cyd-destunau.

Nod yr erthygl hon felly yw llunio esboniad o'r eithriadau hyn. Awgrymir i gyfundrefn ymadroddion enwol gael ei had-drefnu yn gynnar yn y cyfnod Cymraeg Canol. Rhywbryd tua'r unfed ganrif ar bymtheg (neu efallai'n gynharach), disodlwyd rhif gan genedl fel y nodweddd a oedd yn penderfynu cytundeb a threigladau o fewn ymadroddion enwol sy'n cynnwys rhifolion, a, byth ers hynny, mae'r cyfnewidiadau ychwanegol sydd wedi digwydd wedi cyfrannu at 'dacluso' rheolau nad oedd yn cydymffurfio â'r system newydd hon. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall cystrawen rhifolion Cymraeg Canol fel system gydlynol a synhwyrol (er ei bod weithiau'n ymddangos yn gymhleth o'n safbwynt ni heddiw) ac i ddeall y cymhellion y tu ôl i'r cyfnewidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y saith canrif ddiwethaf.

2 Ymadroddion rhifol mewn Cymraeg Canol

Dechreuir trwy archwilio system y rhifolion mewn Cymraeg Canol. Yn arwynebol, mae cystrawen rhifolion Cymraeg Canol yn edrych yn dra thebyg i'r hyn a geir mewn Cymraeg Cyfoes Safonol. Yn yr enghraifft isod, mae'r gystrawen yn cyfateb ar yr wyneb i reolau Cymraeg Cyfoes Safonol: mae prif enw'r ymadrodd, *cantref*, yn unigol ar ôl y rhifolyn *seith*, a'r dangosolyn *hynny* yn lluosog yn yr un cyd-destun:

(7) y seith cantref hynny (*PKM*, t. 49, ll. 21)

Serch hynny, nid yw'r system sylfaenol yn cyfateb i Gymraeg Cyfoes o gwbl. Fel y gwelwn yn y man, cynhyrchid yr un gyfres o eiriau drwy ddull hollol wahanol.

Mae disgrifiadau a gramadegau Cymraeg Canol yn cyfeirio at grŵp bychan o enwau â ffurfiau arbennig sy'n ymddangos ar ôl rhifolion. Yn gyntaf, ceir llawer o enghreifftiau Cymraeg Canol lle y mae enw lluosog yn ymddangos ar ôl rhifolion (Evans 1964: t. 47), er mai enwau unigol sy'n dilyn rhifolion fel rheol mewn Cymraeg Canol fel yn yr iaith heddiw, cymh. enghraifft (7) uchod. Rhoddir enghraifft o hyn yn (8), lle y disgwylir *pum gwaig*, a'r enw'n unigol, mewn Cymraeg Cyfoes Safonol.

(8) pump wraged (*PKM*, t. 48, ll. 2)

Hefyd, mae gan ychydig o enwau ffurfiau a ddefnyddir bron yn gyfan gwbl ar ôl rhifolion (Jenkins 1973, 1989). Enghraifft dda yw *brawt*, sydd wastad yn ymddangos yn y ffurf *broder* (yn wahanol i'r lluosog arferol *brodyr*) ar ôl rhifolion, fel yn (9).

(9) y deu uroder (*PKM*, t. 29, ll. 9)

Mae D. S. Evans (1964: t. 47) ac R. G. Roberts (2012), fel T. J. Morgan (1952: t. 64) o'u blaen, yn cyfeirio at y ffurfiau hyn i gyd fel ffurfiau lluosog. Er bod hyn yn gywir am lawer ohonynt o ran eu tarddiad hanesyddol (gweler Morris Jones 1913: t. 194, 215; Lewis a Pedersen 1937: t. 190; a Howells 1970), gall fod yn gamarweiniol o safbwynt synchronig. Os edrychir yn fanwl ar yr enwau hyn, maent yn cynnig darlun eglur o'r rheolau a oedd ar waith mewn ymadroddion enwol, rheolau sydd ynghudd yn achos y rhan fwyaf o enwau.

Mae dosbarthiad y patrymau'n gymhleth ond, eto, yn gyson iawn. Mae'r argraff cyntaf bod y lluosog yn digwydd yn achlysurol ar ôl rhifolion gydag unrhyw enw mewn Cymraeg Canol a bod yr iaith felly wedi dod yn fwy cyson erbyn heddiw yn gamarweiniol. Os edrychir yn fanwl ar dystiolaeth testunau Cymraeg Canol hyd at ddiwedd y bymthegfed ganrif, gwelir rheolau dilys. Mae pum patrwm yn bosibl. Mae'r dewis rhyngddynt yn dibynnu ar nodweddion yr enw yn yr ymadrodd rhifol.

Mae'r rhan fwyaf o enwau yn ymddangos yn yr unigol ar ôl rhifolion, ac felly yn cytuno â'r patrwm a geir mewn Cymraeg heddiw. Fodd bynnag, gyda grŵp sy'n cynnwys tua un ar bymtheg o enwau, ceir ffurfiau eraill o dan rai amodau. Mae gan chwe enw ffurf 'rifol' arbennig a ddefnyddir ar ôl pob rhifolyn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys *blwydyn* (rhif. *blyned*), *brawt* (rhif. *broder*), *buwch* (rhif. *bu*), *chwaer* (rhif. *chwioed*), *llwdyn* (rhif. *llydyn*), a *hwch* 'mochyn' (rhif. *hych*), gweler Tabl 1. Rhoddir cyfres lawn o enghreifftiau ar gyfer *brawt* ar y chwith.

Mae gan dri enw arall ffurfiau rhifol na ddefnyddir mohonynt ond ar ôl rhifolion uwch na dau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys *dyd* (rhif. *dieu*), *mab* (rhif. *meib*), a *gwas* (rhif. *gweis*). Mae'r tabl yn rhoi cyfres lawn o esiamplau ar gyfer *mab* ar y dde.

	<i>brawt</i>	<i>mab</i>
2	<i>deu uroder</i> (<i>PKM</i> t. 29, ll. 6, t. 29, ll. 9; <i>YCM</i> t. 113, ll. 11)	<i>deu uab / vab</i> (<i>BTy</i> t. 56, ll. 6; <i>O</i> ll. 728, 729)
3	<i>tri broder</i> (<i>BTy</i> t. 240, ll. 23; <i>YSG</i> ll. 4676, 4685)	<i>tri meib</i> (<i>PKM</i> t. 76, ll. 22, t. 76, ll. 19; <i>LIB</i> t. 112, ll. 3)
4	—	<i>pedwar meib</i> (<i>BTy</i> t. 20, ll. 14–15; <i>BY</i> t. 55)
5	<i>pum mroder</i> (<i>GGG</i> t. 39, ll. 57)	<i>pum meib</i> (<i>PKM</i> t. 48, ll. 3; <i>BY</i> t. 53)
6	<i>y chue broder</i> (<i>BD</i> t. 106, ll. 6)	<i>chwe meib</i> (<i>P</i> t. 7, ll. 5; <i>BY</i> t. 17, ll. 5 a 6)
7	<i>seith mroder</i> (<i>YSG</i> ll. 1075, 1103)	<i>seith meib</i> (<i>P</i> t. 7, ll. 2; <i>BY</i> t. 20)

Tabl 1: Patrymau cystrawennol ffurfiau rhifol mewn Cymraeg Canol

Mae'r un dewis o batrymau ar gael gyda dau grŵp arall o enwau sy'n ymddangos mewn ffurf 'luosog' ar ôl rhifolion. Unwaith eto, defnyddir rhai enwau yn y lluosog ar ôl pob rhifolyn, tra bod enwau eraill yn ymddangos yn y lluosog ar ôl rhifolion uwch na dau yn unig. Mae'r grŵp cyntaf yn cynnwys *abostol* (rhif./llu. *ebystyl*), *gwraig* (rhif./llu. *gwaged*), *iarll* (rhif./llu. *ieirll*), *merch* (rhif./llu. *merchet*), *tarw* (rhif./llu. *teirw*), *ych* (rhif./llu. *ychen*), ac weithiau hefyd *carw* (rhif./llu. *keirw*) a *morwyn* (rhif./llu. *morynyon*). Mae'r ail grŵp yn cynnwys *gwr* (rhif./llu. *gwyr*) a *march* (rhif./llu. *meirch*). Mae Tabl 2 yn rhoi cyfres lawn o enghreifftiau ar gyfer *gwraig* a *gwr*.

	<i>gwraig</i>	<i>gwr</i>
2	<i>dwyraged</i> (<i>LlB</i> 66.8; <i>YSG</i> 2091, 2183)	<i>deu wr</i> (<i>CO</i> 1192; <i>LlB</i> 10.19; <i>PKM</i> 82)
3	<i>teir gwaged</i> (<i>CO</i> 338, 741; <i>LlB</i> 111.5)	<i>trywyr</i> (<i>CO</i> 743; <i>BTy</i> t. 194, ll. 18)
4	<i>pedeir gwaged</i> (<i>LlB</i> 64.27; <i>BY</i> 17, 55)	<i>petwar gwyr</i> (<i>P</i> 56.17)
5	<i>pump (g)waged</i> (<i>PKM</i> 47.27, 48.2)	<i>pymwyr</i> (<i>G</i> ll. 855)
6	<i>hwech gwaged</i> (<i>PKM</i> 20.7)	<i>chwegwyr</i> (<i>BD</i> 184.14; <i>LlB</i> 1.4; <i>PKM</i> 46.3)
7	<i>seith gwaged</i> (<i>LlB</i> 64.26)	<i>seithwyr</i> (<i>PKM</i> 38.24)

Tabl 2: Patrymau cystrawennol ffurfiau lluosog enwau ar ôl rhifolion
mewn Cymraeg Canol

3 Dehongli system Cymraeg Canol

Mae nifer o ieithyddion wedi archwilio'r patrymau hyn ar enwau. Mae Borsley, Tallerman a Willis (2007: tt. 336–7) a Willis (2009: tt. 135–6) yn rhoi disgrifiad o'r patrymau sylfaenol a'r datblygiadau sy'n cysylltu Cymraeg Canol â Chymraeg cyfoes. Mae Roberts (2012) yn rhoi rhestrau o enghreifftiau mewn testunau Cymraeg Canol sy'n wahanol i ddefnydd Cymraeg Cyfoes Safonol. Mae Nurmio (2015: tt. 135–46) yn rhoi darlun cyflawn o ffurfiau enwau mewn ymadroddion rhifol, gan nodi pob enw sy'n ymddangos mewn ffordd sy'n wahanol i'r unigol ar ôl rhifolyn ac yn archwilio tarddiad hanesyddol y ffurfiau hyn. Mae Nurmio a Willis (2016) yn olrhain y defnydd o ffurfiau rhifol ar ôl rhifolion o'r Frythoneg tan i'r rhan fwyaf o'r ffurfiau hyn ddiflannu yn ystod y Cyfnod Modern Cynnar.

Mae'r patrymau sylfaenol (ffurfiau'r enw ei hun) felly'n adnabyddus, ond erys cwestiynau am sut i'w dehongli. Yn ogystal â hyn, nid yw agweddau ar gytundeb o fewn ymadroddion rhifol (yn enwedig ffurf ansoddeiriau) wedi eu trafod yn ddigonol yn y llenyddiaeth hyd yn

hyn, ac mae'r patrymau cytundeb hyn yn codi'r un math o gwestiynau am y dehongliad mwyaf boddhaol.

Nod yr erthygl hon yw penderfynu sut i ddehongli'r patrymau morffolegol a chystrawennol mewn ffordd sy'n eu hesbonio o safbwynt synchronig ac sy'n esbonio'r gyfres o gyfnewidiadau sy'n eu cysylltu â'r iaith heddiw; pam oedd angen i'r system hon newid a pham oedd angen iddi newid yn y ffordd y bu iddi newid?

Mae dwy ffordd y gellid dehongli'r rheolau Cymraeg Canol. Yn arwynebol, y ffordd hawsaf i'w disgrifio fyddai dweud bod rhifolion yn cyd-fynd â ffurfiau unigol, rhifol neu lluosog, a bod y dewis rhwng y ffurfiau hyn yn dibynnu ar yr enw ei hunan. Er bod hyn yn ymddangos yn ddeniadol (o achos ei symrlwydd), mae agweddau eraill ar y rheolau ynglŷn ag ymadroddion rhifol yn achosi problemau iddo. Bydd hyn yn ein harwain at ddadansoddiad mwy haniaethol sy'n esbonio'r patrymau'n well a hefyd yn ein galluogi i esbonio pam oedd y system mor gyfnewidiol yn y canrifoedd wedyn.

3.1 Cytundeb ansoddeiriol mewn Cymraeg Canol

Yn gyntaf, edrychwn ar gytundeb o ran rhif a chenedl ar ansoddeiriau. Yma, mae ymadroddion enwol mewn Cymraeg Canol yn amrywio'n sylweddol o rai Cymraeg Cyfoes Safonol, gan fod Cymraeg Canol yn cadw mwy o ffurfiau neilltuol benywaidd a lluosog. Rhoddir enghreifftiau o ffurf fenywaidd yn (10) a ffurfiau lluosog yn (11).

(10) *carrec lem* (*P*, t. 36, ll. 15)

(11) *danhed hiryon melynion* (*P*, t. 57, ll. 1)

Fel yn yr iaith heddiw, mae llawer o ansoddeiriau sydd ag un ffurf forffolegol yn unig ar gyfer yr unigol a'r lluosog (fel *da*) neu ar gyfer y gwrywaidd a'r benywaidd (fel *glas*). Yn yr achosion hyn, ni ellir gweld effeithiau'r cytundeb, ond tybir bod yr un math o gytundeb ar waith yn yr achosion hyn hefyd.

Mae'r rheolau cytundeb ansoddeiriol ar ôl rhifolion braidd yn annisgwyl. Gellid dychmygu dau fath o reol. O'r hyn a ddywedwyd hyd yn hyn, disgwylid ffurfiau ansoddeiriol sy'n cydymffurfio â ffurf yr enw, hynny yw, unigol pan fo'r enw'n unigol, lluosog pan fo'r enw'n lluosog, ac yn y blaen. Ar y llaw arall, gellid disgwyl system debyg i'r system a welir mewn Cymraeg Cyfoes. Hynny yw, efallai bod ansoddeiriau'n dilyn patrwm y rhan fwyaf o enwau. Os felly, byddai ansoddeiriau'n ymddangos yn gyson mewn ffurf unigol mewn ymadroddion rhifol.

Nid yw Cymraeg Canol yn dilyn y naill na'r llall o'r opsiynau hyn. Mae ansoddeiriau (a dangosolion) mewn ymadroddion rhifol yn ymddangos mewn ffurfiau lluosog yn gyson, os oes ffurf gyfaddas ar gael. Gwelir enghreifftiau yn (12)–(14) sy'n dangos bod ffurf yr enw ei hunan yn hollol amherthnasol. Mae'r holl ansoddeiriau hyn yn lluosog. Noder bod hyn yn digwydd ni waeth beth fo ffurf yr enw, boed yn unigol (fel *kenedyl* a *kefendryw* yn (12) a (13)), neu'n lluosog (fel *morynyon* yn (14)), neu mewn ffurf rifol (fel *keirw* yn (15)).

- (12) dwy genedyl vvdron (*BY*, t. 36)
- (13) y deu gefendryw ereill (*BTy*, t. 110, ll. 32–3)
- (14) dwy vorynyon ieueingk (*HMSS*, cyf. i., t. 248, ll. 28)
- (15) tri cheirw gwynnyon (*HMSS*, cyf. i., t. 265, ll. 37)

Sut y gall hyn fod, os mai enw gwirioneddol unigol yw enw fel *kenedyl*? Disgwylir i nodweddion y prif enw bennu ffurf yr ansoddair, ac enw unigol felly yn cyd-fynd ag ansoddair unigol. Dylid ceisio esbonio pam fod hyn yn bosibl.

3.2 Treiglo ansoddeiriau

Mae'r rheolau sy'n penderfynu treigladau ansoddeiriau mewn ymadroddion rhifol hefyd braid yn annisgwyl o safbwynt Cymraeg Cyfoes Safonol. Mae cenedl y prif enw, sy'n hollbwysig heddiw, yn amherthnasol. Ar ôl *dau* a *dwy*, ceir treiglad 'deuol', fel yn (16). Mae'r ansoddair yn treiglo hyd yn oed ar ôl enw gwrywaidd, yn (17) a (18).

- (16) dwy uorynyon vonhedic ereill (*YCM*, t. 55, ll. 10–11)
- (17) deu vackwy wineuon (*BM*, t. 3, ll. 7–8)
- (18) y deu deirw burwynnyon (*YSG*, ll. 3054)

Mae'r patrymau hyn yn profi nad cenedl fenywaidd sy'n achosi'r treiglad yn (16), ond y rhif deuol.

Mae'n fwy anodd darganfod beth sy'n digwydd gyda rhifolion uwch na dau, yn rhannol o achos bod yr enghreifftiau mwyaf arwyddocaol yn brin iawn, ac yn rhannol oherwydd mai yn anghyson y nodir treigladau mewn orgraff Cymraeg Canol. Serch hynny, fel mae T. J. Morgan (1952: t. 64) yn ei awgrymu, gellir bod yn weddol hyderus i ansoddeiriau ymddangos yn eu ffurf gysefin. Yr achosion arwyddocaol yw'r rhai gydag enw ag ansoddair benywaidd, cyd-destun a fyddai'n achosi treiglad mewn Cymraeg Cyfoes Safonol. Mae absenoldeb cyson treiglo yn yr orgraff yn awgrymu mai peidio â threiglo oedd y rheol yma.³ Ceir enghreifftiau priodol yn (19)–(20).

- (19) pump gwraged beichawc (*PKM*, t. 47, ll. 27–t. 48, ll. 1)
- (20) y pedeir gwyl pennaduryaf (*YCM*, t. 39)

Unwaith eto, nid cenedl sy'n pennu'r treigladau yn yr achosion hyn.

3.3 Dadansoddi'r system hon

O safbwynt Cymraeg Cyfoes Safonol, prin y mae system Cymraeg Canol yn gwneud synnwyr. Mae'n rhaid dysgu cyfres hir o reolau er mwyn cynhyrchu'r ffurfiau cywir yn iawn. Yn sicr, nid yw gwybod cenedl y prif enw yn helpu llawer. Fodd bynnag, os edrychir arni o safbwynt arall, mae'r system yn gydlynol. O dderbyn bod y rheolau yn dechrau o'r rhifolyn yn hytrach na'r enw, mae'r rheolau yn hollol eglur.

³ Gweler T. J. Morgan (1952: tt. 184–92) am drafodaeth ynghylch problemau profi presenoldeb neu absenoldeb treiglo yng nghyd-destun Cymraeg Canol.

Rhoddir crynodeb o'r holl bosibiliadau ar gyfer 'dau' yn (21), a 'tri' yn (22), ar ôl (a) enw sy'n ymddangos mewn ffurf unigol ar ôl rhifolion; (b) enw sy'n ymddangos mewn ffurf luosog ar ôl rhifolion; (c) enw sydd â ffurf arbennig ar ôl pob rhifolyn (h.y. ffurf sy'n wahanol i'r unigol ac i'r lluosog ill dau); ac (ch) enw sydd â ffurf arbennig ar ôl rhifolion uwch na dau yn unig. Rhoddir y treigladau mewn print bras.

- | | | | | | |
|------|------|---|------------|----------------|-----------------|
| (21) | (a) | y | dwy | uam | uelynyon |
| | (b) | y | dwy | uerchet | uelynyon |
| | (c) | y | deu | uroder | uelynyon |
| | (ch) | y | deu | uab | uelynyon |
| (22) | (a) | y | teir | mam | melynyon |
| | (b) | y | teir | merchet | melynyon |
| | (c) | y | tri | broder | melynyon |
| | (ch) | y | tri | meib | melynyon |

Gwelir ar unwaith fod cyfres o dreigladau meddal ar bob gair yn yr ymadrodd yn achos ‘dau’ (gan gynnwys y rhifolyn ei hun), a dim treigladau o gwbl yn achos ‘tri’ (a rhifolion uwch).

Y ffordd symlaf i ddehongli hyn yw defnyddio nodwedd sy'n mynegi rhif yr ymadrodd, a phob elfen o fewn yr ymadrodd yn dwyn y nodwedd hon. Os defnyddir pedwar gwerth rhif, sef [UNIGOL], [DEUOL], [RHIFOL] (ar gyfer ymadroddion sy'n cynnwys rhifolion uwch na 'dau') a [LLUOSOG], mae'r patrymau'n dilyn yn hawdd (defnyddir orgraff Gymraeg Cyfoes er mwyn gwneud y treigladau'n gliriach):

- | | | | | |
|------|-----------------------|-----------------------|-----------------------|------------------------|
| (23) | y | | mab | melyn |
| | [UNIGOL] | | [UNIGOL] | [UNIGOL] |
| (24) | y TM | ddau TM | fab TM | felynion TM |
| | [DEUOL] TM | [DEUOL] TM | [DEUOL] TM | [DEUOL] TM |
| (25) | y | tri | meib | melynion |
| | [RHIFOL] | [RHIFOL] | [RHIFOL] | [RHIFOL] |
| (26) | y | | meibion | melynion |
| | [LLUOSOG] | | [LLUOSOG] | [LLUOSOG] |

Yn ôl y dadansoddiad newydd, ffurf unigol ‘mab’ yw *mab*. Dyna ei ffurf ddeuol hefyd (neu, i fod yn gwbl fanwl, *mab*TM, hynny yw, *mab* sy’n achosi treigladau meddal ar unrhyw ansoddair sy’n dilyn). Ei ffurf rifol yw *meib*, a *meibion* yw’r ffurf luosog. Gall pob enw, ansoddair, bannod a dangosolyn fynegi’r pedwar gwerth rhif hynny, ond nid oes ganddynt bedair ffurf wahanol. Yn achos ‘mab’, dim ond tair ffurf wahanol sydd, hynny yw, *mab*, *meib* a *meibion*. Yn achos *melyn*, dim ond dwy ffurf y gwahaniaethir rhyngddynt; *melyn* yn mynegi [UNIGOL] a *melynion* yn mynegi [DEUOL], [RHIFOL] a [LLUOSOG].⁴ Mae’r fannod yn meddu ar ddwy ffurf:

⁴ Wrth gwrs, defnyddir y ffurf *melen* ar gyfer yr unigol benywaidd, ond nid yw cenedl yn berthnasol heblaw mewn ymadroddion unigol.

$y(r)^{\text{TM}}$ yn mynegi [DEUOL], hynny yw, $y(r)$ sy'n achosi treigladd meddal, ac $y(r)$ ym mhob cyd-destun arall, hynny yw, $y(r)$ nad yw'n achosi treigladd meddal. Er mwyn cynhyrchu'r treigladdau cywir, mae pob elfen [DEUOL] yn diweddu â $^{\text{TM}}$, y sbardun ar gyfer treigladd meddal ar y gair dilynol.

Yn *y ddau froder*, *y ddwy ferched* ac *y ddau fab*, mae'n ymddangos (yn arwynebol) bod *froder* yn rhifol, bod *ferched* yn lluosog a bod *fab* yn unigol, a dyna oedd y disgrifiad traddodiadol. Mae hyn yn creu cymhlethdod diangen drwy ein gorfodi i greu rheolau cystrawennol annaturiol i ddisgrifio'r patrymau. Mae'n rhaid dweud bod 'dau' yn gofyn am enw lluosog os *merch* yw'r enw dilynol, enw rhifol os *brawd* yw'r enw, ac enw unigol os *mab* yw'r enw. Wedyn mae'n rhaid cyflwyno rheol lle y mae ansoddair sy'n dilyn enw unigol yn unigol hefyd (*mab melyn*), oni bai bod yr enw unigol hwnnw yn dilyn rhifolyn (*y tri mab melynion*). Mae'r rheolau hyn i gyd yn od iawn: nid oes dim tebyg mewn ieithoedd eraill.

Yn ôl y dadansoddiad hwn, pan fyddant yn ymddangos ar ôl y rhifolyn 'dau', mae'r ffurfiau hyn i gyd yn ddeuol, a phan fyddant yn dilyn y rhifolyn 'tri', mae'r ffurfiau i gyd yn rhifol. Mae'r rheol gystrawennol felly yn syml iawn: gyda 'dau', mae pob elfen yn yr ymadrodd enwol yn ddeuol, a chyda rhifolion uwch na 'dau', mae pob elfen yn yr ymadrodd enwol yn rhifol.

Mae Tabl 3 yn rhoi'r rhediad llawn sydd angen yn ôl y dadansoddiad hwn. Mae chwe phatrwm. Mae'r rhan fwyaf o enwau yn perthyn i dosbarth V, a'r enwau sy'n meddu ar ffurfiau deuol neu rifol arbennig yn perthyn i ddosbarthiadau I–IV. Mae ansoddeiriau'n perthyn naill ai i ddosbarth II (os ydynt yn mynegi rhif, megis *mawr* ~ *mawrion*) neu dosbarth VI (os nad ydynt). Mae dosbarth II yn cynnwys cymysgedd o enwau ynghyd â dangosolion ac ansoddeiriau sy'n meddu ar ffurfiau lluosog.

'dosbarth'	I	II (enw)	II (dang. /ans.)	III	IV	V	VI (ans.)
enw/ansoddair	<i>brawt</i>	<i>merch</i>	<i>hwn</i>	<i>mab</i>	<i>gwr</i>	<i>kath</i>	<i>da</i>
unigol	brawt	merch	hwn, hon	mab	gwr	kath	da
deuol	broder TM	merchet TM	hyn TM	mab TM	gwr TM	kath TM	da TM
rhifol	broder	merchet	hyn	meib	gwyr	kath	da
lluosog	brodyr	merchet	hyn	meib- yon	gwyr	kath- eu	da

Tabl 3: Rhediadau enwol Cymraeg Canol

Er mwyn creu ymadrodd yn cynnwys y rhifolyn 'dau, dwy', dewisir y ffurfiau deuol priodol o res ddeuol Tabl 3 (gan ychwanegu treigladd meddal i bob gair sy'n gallu dangos y treigladd hwn) e.e. *y ddau froder dda hyn*. Mae *dda* a *hyn* yn ddeuol yn yr ymadrodd hwn, er nad yw *dda* yn wahanol i'r ffurf unigol ac er nad yw *hyn* yn wahanol i'r ffurf lluosog. Gyda rhifolion uwch na

dau, dylid meddwl am yr holl ymadrodd fel un rhifol, ac felly bod rhaid defnyddio ffurfiau rhifol drwy'r holl ymadrodd. Felly, dewisir y ffurfiau i gyd o res rifol Tabl 3, e.e. *y tri broder da hyn*. Nid yw elfennau sydd â nodwedd rifol yn peri unrhyw dreigladd ar yr elfen ddilynol.

Noder nad oes dim enw lle mae'r ffurf ddeuol yn unigryw, yn wahanol i bob un ffurf arall; a dim ond ar gyfer nifer bach o enwau (megis *brawt* a *mab*) y mae'r ffurf rifol yn unigryw.

Ni ellir cyfiawnhau bodolaeth y rhif deuol felly ar sail morffoleg un gair yn unig: mae'r ffurf ddeuol wastad yn cyfateb yn forffolegol i un o ffurfiau eraill yr enw. Gellir ei gwahaniaethu oddi wrth wrth y ffurfiau eraill naill ai drwy gyfeirio at y treigladd meddal a achosir ganddi, neu drwy gyfeirio at saerniaeth y rhediad morffolegol yn ei grynsyth.⁵

Wrth gwrs, mae'r disgrifiad traddodiadol yn llai cymhleth mewn un ffordd: dim ond tri gwerth rhif sydd ganddo, [UNIGOL], [RHIFOL] a [LLUOSOG] (tueddir i siarad am y rhifol fel ffurf arbennig ar y lluosog), yn hytrach na phedwar. Mae'n rhaid cyfiawnhau'r gwerth rhif ychwanegol drwy ddadlau bod mantais sylmrydd y rheolau cystrawennol yn fwy nag anfantais y cynnydd bach yng nghymhlethdod y rhediadau morffolegol.

Mae'r sefyllfa'n debyg i'r hyn a geir mewn ieithoedd eraill sy'n meddu ar gategori (e.e. cyflwr neu genedl enwau) sydd wastad yn rhannu ei ffurf â rhyw gategori arall. Dyma enghraifft o'r iaith Ddardeg, Palula (Morgenstierne 1941, Baerman, Brown a Corbett 2005: tt. 15–16, Liljegren a Haider 2011, Liljegren 2016: tt. 45–6), iaith Indo-Iraneg a siaredir yn nhalaith Khyber Pakhtunkhwa yng ngogledd-orllewin Pacistan. Mae ieithyddion wedi awgrymu bod gan yr iaith hon bum cyflwr: goddrychol neu annibynnol (*absolute*), gwrthrychol, traws, gweithredol (*ergative*) a genidol, ond nid yw hyn yn amlwg o gwbl o edrych ar ffurfiau'r cyflyrau. Nid oes gan yr un enw, rhagenw neu ddangosolyn fwy na phedair ffurf wahanol. Mae Tabl 4 yn dangos rhediadau nifer o elfennau enwol a rhagenwol.

	'gŵr'	'coeden'	rhagenw laf un. (‘fi’)	rhagenw laf ll. (‘ni’)	dangosolyn agosaf (‘hynny’)
goddrychol	míiš	muṭ	ma	be	nu
gwrthrychol	míiš	muṭ	ma	asaám	nis
genidol	míišii	muṭíi	míi	asíi	nisíi
gweithredol	míiša	muṭá	míi	asím	níi
traws	míiša	muṭá	ma	asaám	nis

Tabl 4: Rhediadau detholiad o enwau a rhagenwau Palula

⁵ Noder bod y dadansoddiad hwn yn cadw pob treigladd (yn yr ymadrodd enwol o leiaf) yn lleol; hynny yw, mae rhyw elfen yn peri treigladd ar gytsain gychwynnol y gair dilynol yn anuniongyrchol: *yTM ddauTM frawdTM ddaTM*, lle y mae pob ffurf ddeuol yn diweddu â'r elfen TM, sy'n achosi treigladd meddal ar y gair canlynol (cymh. y syniad o *floating autosegment* gan Lieber 1983). Mae hyn yn wahanol i ddadansoddiadau a fyddai'n priodoli pob treigladd yn yr ymadrodd hwn i'r rhifolyn ei hun.

Defnyddir y cyflwr traws gydag ôl-arddodiaid (*postpositions*):

- (27) aní muṭá sangí
 hwn coeden.TRAWS gyda
 ‘gyda’r goeden hon’ (Liljegren a Haider 2011: t. 131)
- (28) ma sangí
 1UN.TRAWS gyda
 ‘gyda fi’ (Liljegren a Haider 2011: t. 131)

Mae’r cyflwr traws wastad yn rhannu ei ffurf naill ai â’r gweithredol (mewn enwau, (27)) neu’r gwrthrychol (mewn rhagenwau, (28)). Nid yw’r ffurf draws felly byth yn unigryw. Mae hyn yn glir hefyd wrth Tabl 4.

Un dadansoddiad posib o (27) a (28) fyddai awgrymu bod *ma* ‘fi’ yn ffurf wrthrychol a *muṭá* ‘coeden’ yn ffurf weithredol (gweler Tabl 4), ac felly bod ôl-arddodiaid yn dilyn enw yn y cyflwr gweithredol (gan greu cyflwr traws–weithredol yn y dadansoddiad) ond yn dilyn rhagenw yn y cyflwr gwrthrychol. Dyna ddadansoddiad Liljegren a Haider (2011: t. 131, 2016: tt. 186–95). Yn ôl y dadansoddiad hwn, dim ond pedwar cyflwr sydd gan yr iaith. Er y byddai pedwar yn hytrach na phum cyflwr yn symlach ar yr wyneb, byddai’n cymhlethu’r disgrifiad cystrawennol gan greu rheol ramadegol ryfedd iawn: byddai’n rhaid dweud bod ôl-arddodiaid yn cymryd y cyflwr gweithredol o enwau a’r cyflwr gwrthrychol o ragenwau. Haws felly yw awgrymu bod yr iaith yn meddu ar gyflwr traws. Mae’r ôl-arddodiaid yn cymryd y cyflwr traws, ac mae hynny’n digwydd rhannu ei ffurf (bod yn syncretig ag) un o’r cyflyrau eraill ar gyfer pob enw neu ragenw. Dyna ddadansoddiad Baerman, Brown a Corbett (2005: tt. 15–16).⁶ Er bod y dadansoddiad hwn yn cymhlethu’r forffoleg ychydig, gan ddefnyddio pum cyflwr yn hytrach na phedwar, mae’n symleiddio’r gystrawen fwy, gan osgoi rheolau cystrawennol annaturiol.

Mae sefyllfa debyg yn datblygu’n gynnar yn hanes y Gymraeg, yn y cyfnod trawsnewidiol rhwng y Frythoneg a Chymraeg Cynnar. Am gyfnod, nid oedd ffurfiau cyflyrol llawer o enwau yn wahanol i’w gilydd, er i’r system barhau ar lefel gystrawennol am ychydig o ganrifoedd cyn chwalu’n llwyr; gweler Koch (1983) am fanylion.

Cyfeirir at gyflwr o’r math hwn fel gwerth diawtonomaidd (*non-autonomous*). Ceir sefyllfa debyg, ond gyda chenedl yn hytrach na chyflwr, mewn Albaneg (*Albanian*). Mae gan Albaneg (o leiaf) ddwy genedl ar enwau, benywaidd a gwrywaidd, ond mae rhai enwau’n rhoi’r argraff eu bod yn newid cenedl: fe’u goleddfir gan ddangosolyn gwrywaidd unigol ond gan ddangosolyn benywaidd lluosog. Mae hon yn rheol ryfedd iawn. Unwaith eto felly, byddai’n well awgrymu categori newydd; yn yr achos hwn, trydedd genedl, sef cenedl ddiryw, a bod ffurfiau ansoddeiriau diryw yn digwydd bod yn syncretig â ffurfiau gwrywaidd yn yr unigol ac â ffurfiau benywaidd yn y lluosog (Baerman, Brown a Corbett 2005: t. 83).

⁶ Mae manylion y dadansoddiad hwn yn wahanol i’r un a geir gan Baerman, Brown a Corbett, yn sgil cyhoeddiad data llawnach gan Liljegren a Haider (2011) a Liljegren (2016), ond yr un yn y bôn yw’r ddadl.

4 Datblygiadau hanesyddol

4.1 Yr unfed ganrif ar bymtheg

Tua diwedd y cyfnod Cymraeg Canol, dechreuodd system y ffurfiau rhifol chwalu. Yn rhannol, digwyddodd hyn gan i rai o'r enwau a chanddynt ffurfiau rhifol neilltuol ymddangos yn llai mynych. Yn sicr, erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, y gair arferol am 'ceffyl' oedd *ceffyl* yn hytrach na *march*, ac felly daeth ffurf rifol a lluosog *meirch* yn llai perthnasol. Hwyrach bod hyn yn wir hefyd yn achos *hwch*, gair a oedd yn golygu 'mochyn (yn gyffredinol)' mewn Cymraeg Canol ond a gyfyngwyd i'w ystyr cyfoes 'mochyn benywaidd' erbyn yr un pryd.

Gellir dangos sefyllfa'r unfed ganrif ar bymtheg drwy archwilio'r ffurfiau a geir mewn pedwar testun, sef, 'Ystorie Kymru' (*YK*, wedi'i gyfansoddi 1567–1609, llsg. yn gynnar yn yr ail ganrif ar bymtheg), 'Cronicl Hywel ap Syr Mathew' (*CHSM*, wedi ei gyfansoddi 1568, llsg. 1589–90), *Treigl y Marchog Crwydrad* (*TMC*, 1581–c. 1585), a chyfieithiad 1588 y Beibl. Yn y testunau hyn, mae ffurfiau rhifol, gwahanol i'r unigol a'r lluosog, wedi diflannu bron yn llwyr, ar wahân i *blynedd* a *blwydd*, sy'n goroesi hyd heddiw, a'r ymadrodd sefydlog *tridiau*. Disodlir y ffurfiau *maib* a *llydn* bron yn llwyr gan y ffurfiau unigol *mab* a *llwn*. Rhoddir enghreifftiau yn (29), lle y disgwyliid ffurfiau fel *tri maib* yn ôl rheolau Cymraeg Canol. Dyna beth a gawn yn (30), enghraifft brin o'r patrwm ceidwadol.

- (29) dri mab (*YK*, t. 80, ll. 25, t. 81, ll. 16)
 pedwar mab (*CHSM*, ff. 210v, ll. 17–18)
 drî mâb (*Y Beibl*, Genesis 29:34)
 dri mab (*Y Beibl*, Barnwyr 1:20)
 a thri mab (*Y Beibl*, 1 Samuel 17:13, 2 Samuel 2: 18, 14: 27)
 ei dri mab ef (*Y Beibl*, 1 Samuel 17:13)
 ai dri mab (*Y Beibl*, 1 Samuel 31:6, 31:8)
 ai dri mâb ef (*Y Beibl*, 1 Cronicl 10:6)
 ai pedwar mab (*Y Beibl*, 1 Cronicl 21:20)
 bedwar mab (*Y Beibl*, 1 Cronicl 23:10)
 dau lwn iwrch (*Y Beibl*, Caniadau Solomon 7:3)

- (30) ond y dri maib (*TMC*, ll. 392)

Mewn achosion lle yr oedd y ffurf rifol yn debyg i'r lluosog, cafodd ei hailddechongli i gymryd yr un ffurf yn union â'r lluosog, felly yn lle *broder* defnyddiwyd *brodyr* o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, ac yn lle *chwioredd* defnyddiwyd *chwiorydd*. Rhoddir enghreifftiau o'r system newydd yn (31) a (32).

- (31) ai ddaü vrodür (*CHSM*, ff. 199v, ll. 20–1)
 ddau frodyr (*YK*, t. 23, ll. 20; t. 25, ll. 20; t. 27, ll. 12; t. 29, ll. 17)
 ddau frodur (*YK*, t. 27, ll. 12)

- iw ddau frodyr (*Beibl*, Genesis 9:22)
- ddau frodyr (*Beibl*, Mathew 4:18, 4:21)
- y ddau frodyr (*Beibl*, Mathew 20:24)
- a'r chwe brodyr (*Beibl*, Actau 11:12)
- phum-cant brodyr (*Beibl*, 1 Corinthiaid 15:6)
- (32) dwy chwiorydd (*YK*, t. 17, ll. 15)
- ddwy chwiorydd (*YK*, ff. 7b)
- eu tair chwiorydd (*Beibl*, Job 1:4)

Os yw ffurf rifol yr enw yn debyg i'w ffurf luosog, mae'r ffurf hon yn dal i ymddangos ar ôl rhifolion drwy'r unfed ganrif ar bymtheg. Gwelir hyn o'r enghreifftiau yn (33) (*gwragedd* a *merched* ar ôl rhifolion gyda'r hen system), sydd yn y mwyafrif, a'r eithriadau yn (34) (*gwraig* a *merch* ar ôl rhifolion gyda'r system newydd).

- (33) vgain gwragedd (*YK*, ff. 5b)
- a ffedair gwragedd (*YK*, t. 117, ll. 10)
- ddwy ferched (*YK*, ff. 7a; t. 18, ll. 15; t. 21, ll. 11; t. 21, ll. 15)
- tair merched (*YK*, ff. 6b)
- dair merched (*YK*, t. 17, ll. 1)
- naw merched (*YK*, t. 24, ll. 9)
- dwy ferched (*Beibl*, Genesis 19:8, 29:16)
- ddwy ferched (*Beibl*, Genesis 19:15, 19:30, 31:41)
- thair merched (*Beibl*, Job 1:2)
- (34) ond dwy wraig eraill (*TMC*, ll. 2252)
- dwy ferch (*Y Beibl*, Diarhebion 30:15)

4.2 Y system newydd

Y cyntaf o nifer o ddatblygiadau yw colli'r ffurfiau rhifol arbennig. Mae'r holl ddatblygiadau hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol cenedl yr enw, a'r modd y daeth rhif yn llai pwysig fel ffactor sy'n rheoli'r patrymau a geir mewn ymadroddion rhifol. Y ffordd hawsaf i feddwl am hyn yw awgrymu i'r system sylfaenol newid yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg. O'r cyfnod hwn ymlaen, yr oedd siaradwyr Cymraeg yn defnyddio cenedl y prif enw er mwyn penderfynu ar batrymau cytundeb a threiglo mewn ymadroddion rhifol. Byddent wedi gweld achosion lle yr oedd y patrymau'n adlewyrchu rhif y rhifolyn (e.e. *y ddau beth eraill*, *y ddwy ferch hyn*) fel eithriadau i'r egwyddor gyffredinol hon. Ers hynny, daeth yr eithriadau hyn o dan bwysau i gydymffurfio â'r system sylfaenol newydd a seiliwyd ar genedl yr enw. Mae nifer o gyfnewidiadau, rhai ohonynt heb eu cwblhau hyd yn oed heddiw, yn dangos sut y mae'r egwyddor newydd hon yn treiddio i wahanol rannau o'r ramadeg yn raddol. Y datblygiad cyntaf oedd ad-drefnu'r system dreiglo. Daw cyfnewidiadau yn y rheolau ar gyfer cytundeb ansoddeiriau yn hwyrach.

4.2.1 Ad-drefnu'r system dreiglo

Treiglo ansoddeiriau benywaidd yn feddal ar ôl rhifolion uwch na dau

Yr achos cyntaf dan sylw yw treiglo ansoddeiriau ar ôl enwau benywaidd yn dilyn rhifolion uwch na dau, (22)a–b uchod. Yn ôl system Cymraeg Canol, a oedd yn seiliedig ar rif, peidio â threiglo oedd y rheol, gan fod rhif y rhifolyn yn uwch na dau (hynny yw, mae'r holl ymadrodd yn rhifol). Ond, mewn system wedi ei seilio ar genedl, disgwylir i'r ansoddair dreiglo'n feddal, gan fod y prif enw yn fenywaidd yn yr achosion hyn ac mae enwau benywaidd yn achosi treigladau meddal ar eu hól.

Mae'r enghreifftiau'n brin iawn. O'r 22 o achosion perthnasol yr wyf wedi eu casglu o destunau o'r unfed ganrif ar bymtheg, mae mwyafrif bach (13) heb dreigladau.⁷ O'r 14 o achosion perthnasol yng nghyfieithiad 1588 y Beibl, ni cheir treigladau mewn 9 achos, a cheir treigladau mewn 5 achos. Rhoddir enghreifftiau heb dreigladau yn (35)–(36) isod (cymh. hefyd Genesis 41:22, 41:23, 41:27, 41:27; Caniad Solomon, pennawd (x2); 3 Esdras 3, pennawd) ac enghreifftiau gyda threigladau yn (37)–(38) (cymh. hefyd Genesis 41:7, Exodus 26:37, 1 Brenhinoedd 7:38).

(35) a'r saith dwysen tēg (*Y Beibl*, Genesis 41:26)

(36) y saith muwch tewon cyntaf (*Y Beibl*, Genesis 41:20)

(37) a phedair olwyn brēs (*Y Beibl*, 1 Brenhinoedd 7:30)

(38) y saith dwysen dēg (*Y Beibl*, Genesis 41:24)

Mae'r wyth enghraifft y tu allan i gyfieithiad y Beibl yn rhannu 5 i 3 yn erbyn treiglo:

(39) y tair dinas boneddicaſ ... yn yr ynis (*YK*, t. 67, ll. 20–21)

(40) Ef a wnaeth Beli vab Dyfnwal bedair priffordd frenhinol... (*RhY* (llsg. 1543), t. 12, ll. 18)

Ar y cyfan felly, mae cyfieithiad 1588 o'r Beibl a thestunau eraill o'r unfed ganrif ar bymtheg yn dangos bod treiglo yn y cyd-destun hwn wedi ennill tir erbyn y cyfnod hwnnw, er nad oedd eto'n ffurf fwyafrifol.

Mewn achosion lle y mae'r ansoddair yn dangos morffoleg lluosog, y rheol gyffredinol yw peidio â threiglo, fel yn enghraifft (36) (hefyd Genesis 41:23, 41:27). Mae presenoldeb ansoddair lluosog mewn enghraifft benodol yn dangos bod yr ymadrodd yn ei gyfanrwydd yn lluosog a'i fod yn cadw at yr hen system. Felly nid yw'n syndod bod y system dreiglo yn tueddu i ddilyn yr hen system (hynny yw, diffyg treiglo) hefyd.

Erbyn fersiwn 1620 o'r Beibl, mae dwy o'r enghreifftiau hyn sydd â chytseiniaid cysefin wedi diflannu. Mewn un, sy'n cyfateb i (35) (Genesis 41:26), ychwanegir treigladau; yn yr achos arall, mae'r testun wedi'i aralleirio (Genesis 41:23), ffaith sydd efallai'n awgrymu i siaradwyr ystyried peidio â threiglo fel gwall yn y cyd-destun hwn erbyn hynny.

⁷ Y testunau dan sylw yw'r rhai y cyfeiriwyd atynt uchod, ynghyd â'r testunau o'r cyfnod yng Nghorpus Hanesyddol yr Iaith Gymraeg (*CHIG*) (Willis a Mittendorf 2004) a'r testunau Cymraeg yn y casgliad *Early English Books Online*.

Y treigladd ‘deuol’ ar ansoddeiriau gwrywaidd yn diflannu

Mae ail ran ad-drefnu'r system dreiglo yn gysylltiedig ag ansoddeiriau sy'n goleddfu enwau gwrywaidd yn dilyn *dau*, hynny yw, y treigladd ‘deuol’. Mewn system sy'n seiliedig ar genedl, peidio â threiglo'r ansoddair yw'r disgwyl yn dilyn enw gwrywaidd, tra bod yr ansoddair yn treiglo'n feddal mewn system seiliedig ar rif, am mai deuol yw'r holl ymadrodd.

Yn ôl T. J. Morgan (1952: tt. 62–3), ceir enghreifftiau lle y mae'r treigladd deuol yn methu ar ôl enwau gwrywaidd o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, ac mae'n debyg bod y treigladd yn cael ei ddefnyddio o'r cyfnod hwn ymlaen er mwyn cyfleu naws lenyddol yn unig. Yng nghyfieithiad 1588 y Beibl, digwydd cyd-destun y treigladd deuol 19 o weithiau. Mae'r treigladd yn methu mewn 10 achos; ond fe'i ceir yn y 9 achos arall. Rhoddir enghreifftiau yn (41)–(42) (heb dreigladd), a (43)–(44) (gyda'r treigladd).

(41) ddau fydd gafr da (*Y Beibl*, Genesis 27:9)

(42) ar ddau ŵr cyfiawnach ... nag ef (*Y Beibl*, 1 Brenhinoedd 2:32)

(43) dau oen flwyddiaid berffaith-gwbl (*Y Beibl*, Numeri 28:3) (ond cymh. *dau oen blwyddiaid perffaith-gwbl*, Numeri 28:9)

(44) o ddau ddyn ddiefylic (*Y Beibl*, Mathew 8: pennawd)

O'r dystiolaeth uchod, deir i'r casgliad bod y treigladdau'n cael eu had-drefnu i adlewyrchu cenedl y prif enw yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, er na chwblhawyd y broses hon, mae'n debyg, yn ddiweddarach. Mae'n anodd profi unrhyw wahaniaeth o ran cyflymdra'r ad-drefnu wrth gymharu enwau gwrywaidd â rhai benywaidd.

4.2.2 Ad-drefnu cytundeb ansoddeiriau

Aeth cyfnewidiadau gyda chytundeb ansoddeiriau a dangosolion yn eu blaen yn arafach. Mae'r cyfnewidiadau hyn heb eu cwblhau hyd yn oed heddiw, gan fod dangosolion yn ymddangos ar ffurf lluosog ar ôl rhifolion (cymh. (3) uchod) o hyd. Mae'r rheswm dros y newid yn glir: o fewn system lle mae cenedl y prif enw'n hollbwysig, mae'n ymddangos yn rhesymol y dylai prif enw benywaidd unigol ragflaenu ansoddair benywaidd unigol yn hytrach nag un lluosog. Ar y llaw arall, mewn Cymraeg Canol, mewn system wedi ei seilio ar rif, yr oedd yn naturiol i ansoddair lluosog ddilyn enw ar ôl rhifolyn lluosog. Yn raddol felly, daeth *dau dŷ fawrion eraill yn dau dŷ mawr arall*.

Mae'n anodd dweud yn union pryd y disodlwyd ansoddeiriau lluosog gan rai unigol mewn ymadroddion rhifol. Roedd yn broses raddol, ond, yn fwy na hyn, mae llawer o'r data yn amwys. Er mwyn gweld y datblygiadau'n gliriach, mae'n rhaid canolbwyntio felly ar enghreifftiau na cheir unrhyw amwysedd yn perthyn iddynt. Mae cytundeb o ran rhif yn diflannu ar yr un pryd hyd yn oed mewn ymadroddion enwol heb rifolion ynddynt, ac ymadroddion enwol fel *tai mawr* yn cymryd lle *tai mawrion*. Felly, ni ellir fyth fod yn sicr mai'r rhifolyn sy'n gyfrifol am ddiffyg cytundeb. Hefyd, mae llawer o ansoddeiriau nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng yr unigol a'r lluosog hyd yn oed mewn Cymraeg Canol, ac ni ellir defnyddio'r ansoddeiriau hynny

o gwbl i gadarnhau a oedd ansoddeiriau'n lluosog mewn ymadroddion enwol rhifol. Mewn enghraifft fel (45), ni ellir dweud bod *da* yn ansoddair unigol ar ôl rhifolyn, gan nad oedd dewis rhwng dwy ffurf ar gael: nid oes ffurf luosog gyfatebol yn cyferbynnu ag ef.

(45) ...a chymmer oddi yno ddau fynn gafr da (*Y Beibl*, Genesis 27:9)

Lle bynnag y gellir bod yn hyderus am y patrwm sylfaenol, roedd y lluosog yn dal i fod yn weddol gryf yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yng nghyfieithiad 1588 y Beibl, er enghraifft, mae'r patrwm rhifolyn + enw + ansoddair yn ymddangos ryw 117 o weithiau.⁸ O'r rheini, yr oedd 51 yn cynnwys ansoddair nad oedd ganddo ffurf luosog unigryw, hynny yw, achosion fel (45). O'r gweddill, yr oedd 51 (77.3%) yn cynnwys ansoddair lluosog, er enghraifft:⁹

(46) y ddau oleuad mawrion (*Y Beibl*, Genesis 1:16)
 saith oen blwyddiaid (*Y Beibl*, Numeri 28:19)
 ddau fustach ieuangc (*Y Beibl*, Numeri 28:27)
 ddwy fuwch, flithion (*Y Beibl*, 1 Samuel 6:10)
 y pedwar porthor cedyrn (*Y Beibl*, 1 Cronicl 9:26)
 saith yspryd eraill (*Y Beibl*, Mathew 12:45)

Yr oedd 15 (22.7%) yn cynnwys ansoddair diamwys unigol lle y gellid disgwyl ffurf luosog. Rhoddir detholiad ohonynt isod:

(47) a phedwar bwyst-fil mawr (*Y Beibl*, Daniel 7:3)
 dwy flynedd lawn (*Y Beibl*, Genesis 41:1)
 rhwng dau ddyn ieuangc (*Y Beibl*, Caniad Solomon, pennawd)
 dwy fuwch flith (*Y Beibl*, 1 Samuel 6:7)
 i ddau dŵr cadarn (*Y Beibl*, 2 Macabeaid 10:18)
 a'r chwe henw arall (*Y Beibl*, Exodus 28:10)

Mae ffurfiau lluosog yn arbennig o fynych gyda'r ansoddair *arall* (18 allan o 19 enghraifft, 94.7%), cyd-destun lle mae'r lluosog yn goroesi am yn hirach nag mewn unrhyw le arall.


Mae'r testunau eraill o'r unfed ganrif ar bymtheg yn dangos patrymau tebyg. Lle y mae ansoddeiriau sy'n amrywio o'r unigol i'r lluosog yn digwydd mewn ymadroddion enwol rhifol, maent yn tueddu i ymddangos mewn ffurfiau lluosog (48), ond â nifer sylweddol o eithriadau mewn ffurfiau unigol (49): 35 lluosog (72.9%) yn erbyn 13 (27.1%) yn yr enghreifftiau a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

⁸ Ni ddefnyddiwyd y patrwm rhif + ansoddair (megis *y ddau ddoethion*) yn y prif ddadansoddiad, ond gweler Ffigwr 4 isod. Yn y lle cyntaf, mae'n anodd penderfynu ar statws yr ansoddair, ai ansoddair go-iawn neu ansoddair wedi'i droi yn enw yw ef. Yn ail, mae'r patrwm yn ffafrio ffurfiau lluosog. Gwell felly yw cadw'r ddau batrwm (*y ddau ddoethion* ac *y ddau ddym doeth(ion)*) ar wahân.

⁹ Yn anffodus, mae 21 o'r enghreifftiau hyn yn cynnwys y gair *blwyddiaid*. Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn dadansoddi hyn fel ffurf luosog ar *blwydd*, ansoddair yn golygu 'un flwydd oed', gan ddyfynnu ymadroddion ar lafar fel *oen blwydd* neu *ŵyn blwyddi*. Serch hynny, mae'n ansicr i ba raddau y mae'r enghreifftiau gyda *blwyddiaid* yn adlewyrchiad da o iaith lafar y cyfnod.


- (48) dau wr gryfion (*YK*, t. 102, ll. 23)
 dri bwrdd hirion (*DEG* (1550–52), t. 326, ll. 17)
 obob vn or ddau ddyn Ieuaink (*YE* (1550–52), ff. 48v, ll. 2–3)
 dwy ddinas eraill (*RhY* t. 17, ll. 1–2)
- (49) j dwy darian wynn (*DEG*, t. 325, ll. 39)
 dwy long dec (*CHSM*, ff. 222v, ll. 11)
 a'r ddav wr jevank hynn (*YAL* (wedi ei gyfansoddi cyn 1561, llsg. 1585–90), ff. 72r, l. 21)
 y ddau archescob arall (*YK*, t. 117. 1–2)

Mae'r ystadegau hyn yn awgrymu i'r cyfnewidiadau yn y rheolau ar gyfer rhif ansoddeiriau ar ôl rhifolion ddigwydd yn arafach neu'n hwyrach na'r cyfnewidiadau yn y treigladau a drafodwyd uchod. Mae'n rhaid felly chwilio'n fanylach am y cyfnod o newid. Mae Ffigwr 1 yn dangos data o'r testunau yng nghasgliadau *Rhyddiaith y 15eg Ganrif: Fersiwn 1.0 (15eg)*, EEBO (*Early English Books Online*) ac ECCO (*Eighteenth-Century Collections Online*) am gyfnod ehangach, o'r bymthegfed ganrif tan 1800. Mae'r smotiau yn cynrychioli'r enghreifftiau unigol (1 am ansoddair lluosog a 0 am ansoddair diamwys unigol) a'r gromlin yn dangos y duedd gyffredinol, sef cwmparhaus yn amllder ansoddeiriau lluosog yn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn dangos cwmparhaus sylweddol yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif.




Ffigwr 1: Amllder ansoddeiriau lluosog yn y ffrâm rhifolyn + enw + ansoddair o 1450 i 1800 (data crai mewn coch a chromlin Loess mewn glas).

Mae Ffigyrau 2 a 3 yn gwahaniaethu rhwng *arall* a phob ansoddair heblaw *arall*. Mae'r datblygiad yn dechrau'n ddiweddarach gydag *arall* na chydag ansoddeiriau eraill, ond, erbyn y ddeunawfed ganrif, mae cytundeb yn diflannu hyd yn oed gydag *arall*. Mae'r darlun yma'n glir ac yn weddol hawdd ei ddehongli, yn rhannol gan mai ansoddair cyffredin iawn yw *arall*, ac felly mae digon o enghreifftiau i ddechrau gweld patrwm, ac yn rhannol o achos bod y ffurf lluosog *eraill* yn dal yn fyw y tu allan i system y rhifolion. Mae hyn yn bwysig: os gwelir *arall* yn hytrach nag *eraill* mewn ymadroddion rhifol, cawn fod yn sicr mai cyfnewid yng nghystrawen y rhifolion yw hyn, yn annibynnol ar y cyfnewidiadau ehangach a welir mewn cytundeb ansoddeiriau. Erbyn 1800, *arall* yw'r unig ansoddair, fwy neu lai, a ddefnyddir o hyd mewn ffurf lluosog mewn ymadroddion rhifol. Gwelir hyd yn oed cynnydd bychan mewn defnydd o'r lluosog gydag *arall* dros y ddeunawfed ganrif. Mae'n bosib yr ystyrid y gystrawen erbyn hyn yn hen ffasiwn ac felly'n fwy llenyddol a safonol na'r unigol. Os felly, rhywbeth llenyddol a welir yma nad yw'n adlewyrchu datblygiadau yn yr iaith lafar o gwbl.



Ffigwr 2: Amllder ansoddeiriau lluosog yn y ffrâm rhifolyn + enw + *arall/eraill* (y ddau ddyn *arall/eraill* ayb.) o 1450 i 1800 (data crai a chromlin Loess).



Ffigwr 3: Amllder ansoddeiriau lluosog yn y ffrâm rhifolyn + enw + ansoddair heblaw *arall* (*y ddau ddyn mawr(ion)* ayb.) o 1450 i 1800 (data crai a chromlin Loess).

Rhoddir enghreifftiau o gytundeb lluosog o'r ddeunawfed ganrif yn (50), ac enghreifftiau heb gytundeb, fel mewn Cymraeg heddiw, yn (51).

(50) y tair Hudoles eraill (*GBC* (1703), t. 36)


[d]au nai ieuaingc (*STG* (1795), t. 16)

(51) [p]edwar gofyniad arall (*CylC* (1793), cyf. iii, t. 173)

dau beth arall (*GA* (1798), t. 54)

Eto, defnyddir y lluosog yn amlach yn y ddeunawfed ganrif nag mewn Cymraeg heddiw. Er enghraifft, byddai'r enghreifftiau yn (50) yn amhosibl heddiw.

Y cyd-destun mwyaf ceidwadol yw'r un lle nad oes enw o gwbl i weithredu fel pen yr ymadrodd (*y ddau ddoeth(ion)*), gweler Ffigwr 4. Mae amllder y lluosog yn gostwng yn raddol yn y cyd-destun hwn hefyd, ond y lluosog yw'r defnydd mwyafrifol dros yr holl gyfnod dan sylw, tan 1800 o leiaf. Unwaith eto, mae'n bosibl neu hyd yn oed yn debygol mai rhywbeth wedi ei gyfyngu i'r iaith lenyddol safonol yw cryfder y lluosog yma.



Ffigwr 4: Amllder ansoddeiriau lluosog yn y ffrâm rhifolyn + ansoddair (y ddau ddoeth(ion) ayb.) o 1450 i 1800 (data crai a chromlin Loess).

Er bod y newid yng nghystrawen ansoddeiriau ar ôl rhifolion wedi ei gwblhau erbyn heddiw, mae dangosolion yn cadw at yr hen drefn: yn ôl rheolau'r iaith safonol, yr unig ddewis cywir yw defnyddio ffurfiau lluosog y dangosolion *hyn* a *hynny* mewn ymadroddion rhifol, fel y gwelsom yn enghraifft (3) uchod. Ceir enghreifftiau achlysurol o'r unigol gan awduron o'r ddeunawfed ganrif ymlaen (am iddynt ystyried bod yr unigol yn fwy rhesymegol, mae'n debyg). Yn *Cronfa Electroneg o Gymraeg* (Ellis et al. 2001), corpws o Gymraeg ysgrifenedig cyfoes, daethpwyd o hyd i 35 enghraifft o'r ffrâm $y(r) + \text{rhifolyn } 2 \text{ neu } 3 + \text{enw} + \text{dangosolyn}$ (*y tri grŵp hyn/hwn* ayb.). Roedd y dangosolyn yn lluosog mewn 30 (86%) o'r achosion hynny. Gyda'r ffrâm gyfatebol heb enw (*y tri hyn/hwn* ayb.), roedd pob un o'r 10 enghraifft a gasglwyd yn cynnwys dangosolyn lluosog. Mae'r rheol hon felly yn weddol gryf yn yr iaith ysgrifenedig hyd yn oed heddiw, er y gellir disgwyl newid efallai yn y dyfodol.

4.3 Treiglo'r rhifolyn ar ôl y fannod

Yn olaf, mewn system wedi ei seilio ar genedl, y disgwyl yw i rifolion benywaidd dreiglo, ac i rifolion gwrywaidd beidio â threiglo. Ond, ar y cyfan, nid dyna fel y mae heddiw. Cedwir system dreiglo Cymraeg Canol. Mae'r rhifolyn gwrywaidd *dau* yn treiglo'n feddal ar ôl y

fannod (*y ddau*); nid yw'r rhifolyn benywaidd *tair* yn treiglo (*y tair*), yn union fel mewn Cymraeg Canol.

Serch hynny, mae nifer o ddatblygiadau diddorol gyda'r rhifolion diamwys benywaidd *tair* a *pedair*. Er nad ydynt yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod yn yr iaith safonol, fel y gwelsom gyda'r enghreifftiau (5) a (6) yn y rhagymadrodd, mae rhai siaradwyr yn tueddu i dreiglo yma heddiw, yn enwedig ar lafar. Yn ei ramadeg, mae Peter Wynn Thomas (1996: t. 304, 312) yn disgrifio treigladau meddal y rhifolion benywaidd *tair* a *pedair* ar ôl y fannod fel 'nodwedd dafodieithol ac ansafonol'. Yng Nghorpus Siarad (Deuchar, Webb-Davies a Donnelly 2018), corpws o Gymraeg llafar anffurfiol, digwydd *y tair* ac *y dair* 4 gwaith ill dau; ac mae'r unig enghraifft o *pedair* ar ôl y fannod yn treiglo'n feddal hefyd. Mae tueddiad tebyg yn dyddio'n ôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg o leiaf. Mae T. J. Morgan (1952: tt. 133–4) yn rhoi enghreifftiau o dreiglo o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Mae'r enghreifftiau cynharaf yn y testunau a archwiliwyd yn dyddio o 1686 a 1791:

- (52) am ei bod dan y dair Adduned Sanctaidd hynny o Ddiweirdeb, Vfuddod, a Thlodi.
(*TROP* (1686), t. 50)
- (53) tri o'r gwyr enwocaf yn eglwys Rhufain o fewn y dair oes ddiweddaf (*TDYB* (1791), t. 28)

Gellir gweld y datblygiad hwn fel yr estyniad diweddaraf o'r un tueddiad i ddefnyddio cenedl i benderfynu treigladau a strwythur yr ymadrodd rhifol.

5 Casgliadau

Bu'r erthygl hon yn archwilio'r dystiolaeth am ddatblygiad hanesyddol cystrawen y rhifolion yn y Gymraeg. Mae nifer o gyfnewidiadau wedi digwydd. Rhoddwyd amlinelliad o ddadansoddiad y system ganoloesol sy'n defnyddio pedwar gwerth rhif, [UNIGOL], [DEUOL], [RHIFOL] a [LLUOSOG]. Gwelwyd sut y mae hynny'n ein galluogi i lunio rheolau cytundeb syml a naturiol o fewn ymadroddion rhifol. Dadleuwyd bod y cyfnewidiadau diweddarach i gyd yn tarddu o un newid sylfaenol yn system cystrawen y rhifolion. Er bod rhif y rhifolyn yn penderfynu ffurf ymadroddion rhifol mewn Cymraeg Canol, y ffactor benderfynol yn y cyfnod modern yw cenedl y prif enw. Gellir gweld y cyfnewidiadau a drafodwyd yn yr erthygl hon fel ymestyniad graddol yr egwyddor hon dros bron pob agwedd ar gystrawen yr ymadrodd rhifol. At hynny, ceisiwyd dyddio ychydig o'r cyfnewidiadau. Mae'n debyg bod y treigladau'n newid i gydymffurfio â'r system newydd cyn cytundeb ansoddeiriau. Y treigladau (neu ddiffyg treiglo) ar y rhifolion eu hunain (*y ddau*, *y tair* ayb.) sydd wedi parhau'n fwyaf digyfnawid, ac, yma, mae'r system Cymraeg Canol yn goroesi hyd heddiw yn yr iaith safonol.

Cyfeiriadau

Testunau a ddyfynnwyd

- BD* *Brut Dingestow* (1942), gol. Lewis, H. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Beibl* *Y Beibl Cyssegr-lan* (1588) (London: Christopher Barker).
- BM* *Breuddwyd Maxen* (1908), gol. Williams, I. (Bangor: Jarvis a Foster).
- BTy* *Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes: Red Book of Hergest Version* (1955), gol. Jones, T. (Cardiff: Gwasg Prifysgol Cymru).
- BY* *Y Bibyl Ynghymraec* (1940), gol. Jones, T. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- CHIG* *Corpws Hanesyddol yr Iaith Gymraeg 1500–1850* (2004), gol. Mittendorf, I., a Willis, D. (Caergrawnt: Prifysgol Caergrawnt). Ar gael ar: <<http://people.ds.cam.ac.uk/dwew2/hcwl/hafan.htm>> [Cyrchwyd: 2 Medi 2018].
- CHSM* ‘Cronicl Hywel ap Syr Mathew’, dyfynnwyd o *CHIG*.
- CO* *Culhwch ac Olwen: An edition and study of the oldest Arthurian tale* (1992), gol. Bromwich, R., ac Evans, D. S. (Cardiff: University of Wales Press).
- CylC* Rhys, M. J. (gol.) (1793), *Cylchgrawn Cymraeg*, 3 (dim gwasg na man cyhoeddi).
- DEG* Elis Gruffudd (1960), ‘Disgrifiad Elis Gruffudd o’r Cynadleddau a fu rhwng Harri VIII a’r Ymheroddr Siarl V a rhyngddo a Ffranses I, Brenin Ffrainc, yn 1520’, gol. Jones, T., *Bwletin Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd*, 18, 311–37.
- G* *Ystorya Gereint uab Erbin* (1997), gol. Thomson, R. L. (Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies).
- GA* Jones, T. (1956), ‘Gair yn ei amser at drigolion Cymru gan ewyllysiwr da i’w wlad’ (cyhoeddiad gwreiddiol 1798), gol. Jones, F. P., *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, 5, 35–59.
- GBC* Wynne, E., *Gweledigaethu y Bardd Cwsc* (1948) (cyhoeddiad gwreiddiol 1703), gol. Jones, J. Morris (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- GGG* *Gwaith Guto’r Glyn* (1939), gol. Williams, I., a Williams, J. Ll. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- HMSS* *Selections from the Hengwrt Mss. Preserved in the Peniarth Library* (1876), gol. Williams, R. (London: Printed for the Editor by Thomas Richards).
- LiB* *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd* (1942), gol. Williams, S. J., a Powell, J. E. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- O* *Owein or Chwedyl Iarlles y Ffynnawn* (1968), gol. Thomson, R. L. (Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies).
- P* *Historia Peredur vab Efwrawc* (1976), gol. Goetinck, G. W. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- PKM* *Pedeir Keinc y Mabinogi* (1930), gol. Williams, I. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- RhY* ‘Rhyfeddode’r Ynys’, dyfynnwyd o *CHIG*.
- STG* Jones, J. (Jac Glan-y-gors) (1923) (cyhoeddiad gwreiddiol 1795), *Seren tan Gwmmwl*, yn *Seren tan gwmmwl a Toriad y Dydd*, gol. Jones, T. (Lerpwl: Hugh Evans a’i Feibion).

- TDYB* Richards, William (o Lynn) (1791), *Traethawd Difrifol ynghylch Bedydd* (Caerfyrddin: Ioan Daniel).
- TMC* *Treigl y Marchog Crwydrad* (2002), gol. Smith, D. M. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- TROP* Comber, Thomas (1686), *Teg Resymmeu Offeiriad Pabaidd wedi ei hatteb gan Brotestant o Eglwys Loegr* (Llundain: dros R. Clavell).
- YAL* ‘Ystori Alexander a Lodwig’, dyfynnwyd o *CHIG*.
- YCM* *Ystorya de Carolo Magno* (1930), gol. Williams, S. J. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- YE* ‘Ystorya Erkwlf’, gol. Jones, T., *Bwletin Bwrdd Gwybodaau Celtaidd*, 10 (1941), 284–97; 11 (1941), 21–30; 11 (1943), 85–91.
- YK* ‘Astudiaeth destunol a beirniadol o “Ystorie Kymru neu Cronigl Kymraeg” (Ifan Llwyd ap Dafydd)’ (1967), gol. Lewis, N. (traethawd MA, Prifysgol Cymru).
- YSG* *Ystoryaeu Seint Greal* (1992), gol. Jones, T. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- 15eg* *Rhyddiaith y 15eg Ganrif: Fersiwn 1.0* (2015), gol. Roberts, R. G., Rowles, S., a Sims-Williams, P. (Aberystwyth: Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth).

Llenyddiaeth eilaidd

- Baerman, M., Brown, D., a Corbett, G. G. (2005), *The Syntax–Morphology Interface: A study of syncretism* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Borsley, R. D., Tallerman, M., a Willis, D. (2007), *The Syntax of Welsh* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Deuchar, M., Webb-Davies, P., a Donnelly, K. (2018), *Building and Using the Siarad Corpus: Bilingual Conversations in Welsh and English* (Amsterdam: John Benjamins).
- Ellis, N. C., et al. (2001), ‘Cronfa Electroneg o Gymraeg (CEG): Cronfa ddata eirfaol, miliwn o eiriau, sy’n cyfrif amlder defnydd geiriau yn y Gymraeg’. Adnodd ar-lein: <www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/ceg.php.en> [Cychwyd: 3 Medi 2018].
- Evans, D. S. (1964), *Grammar of Middle Welsh* (Dublin: Dublin Institute for Advanced Studies).
- Howells, D. (1970), ‘Miscellanea 1. The use of the singular form of the noun after numerals’, *Studia Celtica*, 5, 83–6.
- Jenkins, D. (1973), ‘Llydyn; hych’, *Bwletin y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd*, 25, 117–18.
- Jenkins, D. (1989), ‘Hych, llydyn: bylch’, *Bwletin y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd*, 36, 111.
- Koch, J. T. (1983), ‘The loss of final syllables and loss of declension in Brittonic’, *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 30, 201–33.
- Lewis, H., a Pedersen, H. (1937), *A Concise Comparative Celtic Grammar* (Göttingen: Vandenhoeck & Ruprecht).
- Lieber, R. (1983), ‘New developments in autosegmental morphology: Consonant mutation’, *Proceedings of the West Coast Conference on Formal Linguistics*, 2, 165–75.
- Liljegren, H. (2016), *A Grammar of Palula* (Berlin: Language Science Press).

- Liljegren, H., a Haider, N. (2011), *Palula Vocabulary* (Islamabad: Forum for Language Initiatives).
- Morgan, T. J. (1952), *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Morgenstierne, G. (1941), *Notes on Phalūṛa: An unknown Dardic language of Chitral* (Oslo: Jacob Dybwad).
- Morris Jones, J. (1913), *A Welsh Grammar* (Oxford: Oxford University Press).
- Nurmio, S., 'Studies in Grammatical Number in Old and Middle Welsh', traethawd PhD, Prifysgol Caergrawnt, Caergrawnt, 2015.
- Nurmio, S., a Willis, D. (2016), 'The case of the Welsh numerative', *Journal of Historical Linguistics*, 6, 297–339.
- Roberts, R. G. (2012), 'Arolwg o hynodion gramadeg y rhifolion mewn Cymraeg Canol cynnar', *Dwned*, 18, 33–47.
- Thomas, P. W. (1996), *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Willis, D. (2009), 'Old and Middle Welsh', yn Ball, M., a Müller, N. (goln), *The Celtic Languages*, 117–60 (London: Routledge).
- Willis, D., a Mittendorf, I. (2004), 'Ein historisches Korpus der kymrischen Sprache', yn Poppe, E. (gol.), *Keltologie Heute: Themen und Fragestellungen*, 135–42 (Münster: Nodus).

Cyfranwyr

Aled Gruffydd Jones

Bu Aled Gruffydd Jones yn Athro Syr John Williams mewn Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 1994 a 2013, Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth rhwng 2005 a 2013, ac yn Brif Lyfrgellydd Llyfrgellydd Genedlaethol Cymru rhwng 2013 a 2015. Mae yn awr yn gysylltiedig â Phrifysgol y Gogledd-Orllewin, Xi'an, Shaanxi, Tsieina, a Phrifysgol Panteion, Athen, Gwlad Groeg fel Athro Hanes Diwylliannol. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Lles@Merthyr.

Gareth Evans-Jones

Daw Gareth Evans-Jones o Farian-glas, Ynys Môn. Graddiodd mewn Cymraeg ac Astudiaethau Crefyddol o Brifysgol Bangor yn 2012 gan barhau yn y Brifysgol i ddilyn cwrs MA mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol. Cwblhaodd gwrs PhD dan nawdd yr AHRC ar y cyd rhwng Ysgol y Gymraeg a'r Ysgol Athroniaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Bangor. Maes ei ymchwil oedd y dadleuon Beiblaidd ynghylch caethwasiaeth ar dudalennau gwasg gyfnodol Gymraeg America yn ystod y cyfnod 1838–68. Bellach, mae'n ddarlithydd mewn Athroniaeth a Chrefydd yn Ysgol Hanes, Athroniaeth, a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor.

Lowri Cunningham Wynn

Graddiodd Lowri o Brifysgol Bangor yn 2007 gyda gradd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2008, derbyniodd ysgoloriaeth oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn cwblhau ei doethuriaeth sy'n dwyn y teitl 'Allfudo ymysg Pobl Ifanc o'r Bröydd Cymraeg'. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, bu Lowri'n gweithio'n bennaf yn y sector ymchwil gymdeithasol, a hynny i gwmni ymchwil Wavehill, Prifysgol Bangor a Chomisiynydd y Gymraeg. Erbyn hyn, mae'n ddarlithydd cyfrwng Cymraeg mewn Troseddeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, swydd a gyllidir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

David Willis

Mae David Willis yn Ddarllenydd mewn Ieithyddiaeth Hanesyddol ym Mhrifysgol Caergrawnt. Mae wedi gweithio'n helaeth ar wahanol agweddau ar y Gymraeg, ei chystrawen, ei datblygiad hanesyddol a'i daearyddiaeth ieithyddol yn ogystal â chystrawen ddamcaniaethol ac amrywiaeth a newid ieithyddol yn gyffredinol. Ef yw awdur nifer o lyfrau, gan gynnwys *Syntactic Change in Welsh* (OUP 1998), *The Syntax of Welsh* (CUP 2007) a *The Development of Negation in the Languages of Europe and the Mediterranean* (OUP 2016). Mae hefyd yn cyfarwyddo dau brosiect ymchwil sylweddol mewn ieithyddiaeth Gymraeg, Corpws Hanesyddol yr Iaith Gymraeg ac Atlas Cystrawen Tafodieithoedd y Gymraeg.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261



9 771741 426008